# DATBLYGIAD GWASANAETHAU AR GYFER DIODDEFWYR YNG NGOGLEDD CYMRU

# - ASESIAD O ANGHENION

*Paratowyd yr adroddiad ar gyfer*
*Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru*
*Mai 2014*

Cilcain Management Service Ltd

# AWDURON YR ADRODDIAD

Mae gan **Keith Humphreys** 30 mlynedd o brofiad mewn rolau proffil uchel yn Heddlu Gogledd Cymru ac ers iddo adael y gwasanaeth mae wedi rheoli prosiectau TG a newid busnes llwyddiannus yn ymwneud â darparu gwell systemau electronig ar gyfer rheoli dogfennau ac achosion ym maes cyfiawnder troseddol. Mae'n Arolygydd Cyswllt gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) ac mae wedi cynnal sawl arolwg o waith Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddau Ieuenctid ar draws Cymru a Lloegr gan roi sylw arbennig i leihau aildroseddu a rheoli'r perygl o niwed difrifol. Ar hyn o bryd mae'n arwain arolygon o waith rheoli troseddwyr mewn carcharau ac yn ymwneud hefyd ag arolygon amlasiantaeth thematig o waith diogelu plant. Yn ogystal â hyn mae Keith yn diwtor Cymraeg cymwys a gyflogir gan Brifysgol Bangor ac yn ddarlithydd ymweld ym Mhrifysgol Glyndŵr ac Academi Fusnes canolbarth Lloegr yn arbenigo mewn plismona Prydeinig cyfoes.

Mae **Dr Iolo Madoc-Jones** yn Brif Ddarlithydd mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Glyndŵr. Cyn ymgymryd â'r rôl academaidd hon roedd yn gweithio fel Swyddog Prawf ac yna Uwch Swyddog Prawf yn Swydd Gaer. Enillodd MSc mewn Gwyddoniaeth Ymddygiadol Fforensig o Brifysgol Lerpwl gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n llwyddo wrth weithio gyda throseddwyr, ac roedd ei PhD yn archwilio'r defnydd o'r Gymraeg yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Yn ogystal â gweithio ym Mhrifysgol Glyndŵr mae'n Arolygydd Cyswllt gydag Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi a hefyd yn arolygu darpariaethau ar gyfer rheoli a mynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus mewn cyd-destun cymunedol (prawf a chyfiawnder yr ifanc). Mae wedi'i gyhoeddi yng Nghylchgrawn Howard, y Cylchgrawn Gwaith Cymdeithasol Prydeinig a'r Cylchgrawn Prawf ac wedi cyflwyno papurau i'r Gynhadledd Troseddeg Brydeinig ac i Gynghrair Howard er Adolygu Deddfau Cosb.


Manylion Cyswllt

Cilcain Management Services Limited
E. bost krh.redfern@btinternet.com
07768 926394

## Cydnabyddiaeth

Noddwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae'r awduron yn cydnabod gyda diolch gyfraniad yr holl randdeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth, yn arbennig y dioddefwyr trosedd hynny a rannodd eu profiadau.

**Cynnwys**

Awduron yr Adroddiad......1
Cydnabyddiaeth......2
Cynnwys......3
Rhestr Tablau ......5
Rhestr Ffigyrau......6
Talfyriadau......8
Crynodeb Gweithredol......9
Pennod Un: Cyflwyniad......13
1.0 Dulliau'r Astudiaeth......13
1.1 Amcanion yr Astudiaeth......13
1.2 Dadansoddiad Data Ansoddol......14
1.3 Materion Moesegol......15
Pennod Dau: Cefndir......16
2.0 Cyflwyniad......16
2.1 Maint a natur erledigaeth yng Nghymru a Lloegr......19
2.1.1 Troseddau a gofnodir gan yr heddlu......20
2.1.2 Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (ATCLl) ......23
2.1.3 CSEW: Nodweddion Dioddefwyr......28
2.1.4 Ymchwil arall i erledigaeth... ......29
2.2 Tueddiadau Trosedd y Dyfodol......30
2.2.1 Erledigaeth Dreisgar......30
2.2.2 Troseddau Rhyw ......31
2.2.3 Troseddau yng Nghefn Gwlad......31
2.2.4 Trosedd/Twyll drwy'r Rhyngrwyd ......32
2.2.5 Troseddau Casineb ar sail Anabledd......32
2.2.6 Masnachu Pobl......32
2.3 Crynodeb o'r Bennod......32
Pennod Tri: Casgliadau – Anghenion Dioddefwyr yng ngogledd Cymru......34
3.0 Y Cyd-destun......34
3.1 Heddlu Gogledd Cymru......38
3.2 Trosedd ac Erledigaeth yng ngogledd Cymru......39
3.3 Ymchwil sy'n bodoli i Anghenion Dioddefwyr yng ngogledd Cymru......43
3.3.1 Prosiect Eiriolwr Dioddefwyr (VSA)......43
3.3.2 AHEM: Trais Domestig ......45
3.3.3 Ymchwil Troseddau Casineb Cymru gyfan......47
3.3.4 Oedolion sy'n oroeswyr a'u teuluoedd: Asesiad o Anghenion......48
3.3.5 Llywodraeth Cymru: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dioddefwyr yng Nghymru ......49
3.4 Crynodeb o'r Bennod......51
Pennod Pedwar: Darpariaethau Statudol ar gyfer Dioddefwyr yng ngogledd Cymru ..53
4.0 Cyflwyniad......53
4.1 Darpariaethau Statudol......53
4.1.1 Heddlu Gogledd Cymru......53

4.1.2 Uned Gofal Tystion....56
4.1.3 Y Gwasanaeth Tystion....57
4.1.4 Timau Cyfiawnder yr Ifanc....57
4.1.5 Ymddiriedolaeth Prawf Cymru ....57
4.1.6 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Trais Domestig....57
4.2 Trefniadau Atal Camdriniaeth Ddomestig Amlasiantaeth....58
4.3 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion Diamddiffyn:....59
4.4 Partneriaethau Diogelwch Cymunedol....60
Pennod Pump: Gwasanaethau Anstatudol ar gyfer Dioddefwyr....62
5.1 Cyflwyniad....62
5.2. Gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yng Ngogledd....63
5.2.1 Gwasanaeth Cyffredinolwr:....63
5.2.2 Camdriniaeth Ddomestig....63
5.2.3 Ymosodiadau Rhyw ....70
5.2.4 Troseddau Casineb....72
5.2.5 Anhwylder Meddyliol ....76
5.2.6 Troseddu yn Erbyn Plant....77
5.2.7 Dioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ....79
5.2.8 Dioddefwyr Troseddau Treisgar....82
5.3 Crynodeb o gasgliadau'r bennod....82
Pennod Chwech: Anghenion Dioddefwyr....84
6.1 Anghenion Dioddefwyr....84
6.1.1 Diogelwch ac amddiffyniad rhag (ail) erledigaeth....84
6.1.2 Cyfiawnder ....85
6.1.3 Gwneud Synnwyr....86
6.1.4 Ymdeimlad o reolaeth....87
6.1.5 Anghenion ymarferol....89
6.2. Diwallu anghenion dioddefwyr....90
6.2.1 Diogelwch ac Amddiffyniad rhag (ail) Erledigaeth....90
6.2.2 Cyfiawnder....94
6.2.3 Gwneud Synnwyr....96
6.2.4 Ymdeimlad o Reolaeth....99
6.2.5 Anghenion Ymarferol ....101
6.3. Rhwystrau rhag cael mynediad i wasanaethau a diwallu anghenion....102
6.3.1 Gwledigrwydd ....102
6.3.2 Allgau a Phrofiadau o Gamwahaniaethu a Gormes....104
6.3.3 Trosolwg Strategol....106
6.4 Materion Gwerthuso....107
6.5 Symud Ymlaen....108
6.5.1 Materion Capasiti....108
6.5.2 Ariannu mewn ansicrwydd....109
Pennod Saith: Casgliadau, Trafodaethau, Cadw Tŷ ac Argymhellion....111
7.1 Casgliadau allweddol....111

7.2 Trafodaeth........................................................................................................ 114
8.0 Atodiad A ........................................................................................ 117

# Rhestr Tablau

Tabl 1: Cyfanswm Troseddau Cofnodedig yr Heddlu – nifer a chyfraddau troseddau

Tabl 2: Profiad o Erledigaeth yn ôl Oed a Rhyw (12 mis hyd Mawrth 2013)

Tabl 3: Profiad o Erledigaeth yn ôl Grŵp Ethnig (hyd Mawrth 2013)

Tabl 4: Profiad o Erledigaeth yn ôl Statws Cyflogaeth

Tabl 5: Profiad o Erledigaeth ar sail Ddaearyddol

Tabl 6: Poblogaeth 6 Awdurdod Unedol gogledd Cymru

Tabl 7: Prif ardaloedd trefol gogledd Cymru, cyfrifiad 2011

Tabl 8: Poblogaeth DLlE yn ôl Ardal Awdurdod Lleol

Tabl 9: Pobl wedi'u cofrestru'n Anabl yn ôl Ardal Awdurdod Lleol

Tabl 10: Hunaniaeth Rywiol yn ôl Rhyw, Cymru, Ebrill - Mawrth 2009/10 a 2010/11

Tabl 11: Troseddau Cofnodedig yn ôl math o drosedd

Tabl 12: Troseddau a Riportiwyd yng ngogledd Cymru yn ôl Ardal Awdurdod Lleol (12 mis hyd Rhagfyr 2013)

Tabl 13: Cyfradd troseddau dethol fesul 1000 o'r boblogaeth (12 mis hyd Mawrth 2013)

Tabl 14: Cymorth i Ddioddefwyr – troseddau craidd

## Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1: Tueddiadau o ran troseddau cofnodedig yr heddlu a ATCLl, 1981 hyd 2012/13

Ffigwr 2: Tueddiadau yn nhroseddau rhyw cofnodedig yr heddlu 2002/03 hyd y flwyddyn yn diweddu Medi 2013

Ffigwr 3: Tueddiadau o ran trais yn ATCLl , 1981 hyd y flwyddyn yn diweddu Medi 2013

Ffigwr 4: Canran o ddioddefwyr a ddioddefodd math o drosedd dethol fwy nag unwaith (CSEW, Mehefin 2012)

Ffigwr 5: Ymateb Emosiynol Dioddefwyr Troseddau Treisgar, 2012/13 CSEW

Ffigwr 6: Ymateb Emosiynol Dioddefwyr Troseddau yn erbyn eiddo, 2012/13

Ffigwr 7: Ardaloedd Awdurdod Lleol Gogledd Cymru

Ffigwr 8: Poblogaeth a Thrwch: Cymru ac Awdurdodau Lleol, 2011

Ffigwr 9: Canran y boblogaeth sydd yn 75 oed a throsodd yn ôl Awdurdod Lleol

Ffigwr 10: Gorchmynion Ardaloedd Plismona Lleol Heddlu Gogledd Cymru

Ffigwr 11: Lleoliad a Darpariaeth Gwasanaethau yng ngogledd Cymru

Ffigwr 12: Llwybr dioddefwyr yn y system CT yng Nghymru

## Talfyriadau

YG: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

BAWSO: Black Association of Women Step Out

ATP: Arolwg Trosedd Prydain

CAADA: Gweithredu Cydlynol yn erbyn Camdriniaeth Ddomestig (Co-ordinated Action Against D.V.)

CISVA: Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol Plant (Children's Independent Sexual Violence Advocate)

GEG: Gwasanaeth Erlyn y Goron

PDC: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

ATCLl: Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr

TDaThRh: Trais Domestig a Thrais Rhywiol

FfTD: Fforwm/Fforymau Trais Domestig

GLlEM: Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi

ETDA/IDVA: Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (Independent Domestic Violence Advocates)

RhTI: Rheolaeth Troseddwyr Integredig

ETRhA/ISVA: Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol (Independ Sexual Violence Advocates)

MARAC: Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (Multi-Agency Risk Assessment Conference)

MASH: Canolfan Diogelu Amlasiantaeth ( Multi-Agency Safeguarding Hub)

YWG: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

HGC: Heddlu Gogledd Cymru

SYG: Swyddfa Ystadegau Gwladol

CHTh: Comisiynydd Heddlu a Throsedd

RASA: Gwasanaeth Trais Rhywiol a Chamdriniaeth Rywiol (Rape and Sexual Abuse Service)

SARC: Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhyw (Sexual Assault Referral Centre)

SDVC: Llys Trais Domestig Arbenigol (Specialist Domestic Violence Court)

CLG: Cytundeb Lefel Gwasanaeth

CiDd: Cymorth i Ddioddefwyr

CiF: Cymorth i Ferched

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r astudiaeth hwn yn ystyried anghenion dioddefwyr yng ngogledd Cymru gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o ddata ansoddol a gasglwyd gan amrywiaeth o asiantaethau ac a ddadansoddwyd ar y cyd â data ansoddol a gafwyd o gyfres o gyfweliadau gyda darparwyr gwasanaethau a dioddefwyr troseddau.

Cydnabyddir yn yr adroddiad hwn bod asesu anghenion yn broses ddynamig ac ailadroddol ac felly disgwylir y bydd yn ddarn o waith parhaus. Cyhoeddi'r asesiad hwn o anghenion yw dechrau'r siwrnai o ran comisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr. Mae'r adroddiad yn creu sylfaen ar gyfer dod i ddeall anghenion dioddefwyr yng ngogledd Cymru yn well ac ar gyfer rhagor o waith datblygu wrth fireinio'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yng ngogledd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar anghenion sydd wedi'u diwallu a heb eu diwallu. Er ei fod yn cwmpasu'r amrediad o wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a chanfyddiadau yn eu cylch, nid yw'n ystyried yn benodol effeithiolrwydd y gwasanaethau sydd ar gael.

Casgliadau allweddol yr astudiaeth yw:

**Ynglŷn â Throsedd ac Erledigaeth**

1. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'n ymddangos bod y posibilrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd yng ngogledd Cymru wedi gostwng yn ddramatig. Er hynny, yn ôl arolygon cenedlaethol, mae dioddef trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhywbeth fydd yn digwydd i un person o bob pump bob blwyddyn.

2. Mae rhai troseddau, oherwydd eu bod yn ymwthiol yn gorfforol neu'n seicolegol, yn cael eu hadnabod yn y llenyddiaeth fel rhai sy'n debygol iawn o beri niwed i'r sawl sy'n eu dioddef. Y troseddau hyn yw rhai treisgar a rhywiol, troseddau y bydd unigolyn yn eu dioddef eildro neu fwy a throseddau yn erbyn pobl fregus neu bobl sydd wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol

3. Mae cyfraddau trosedd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Nid yw'n fawr o syndod bod y nifer o ddigwyddiadau a'r tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd yn ymddangos yn uwch yn y dwyrain ble mae poblogaethau'n dueddol o ymgynnull a ble mae tlodi ac allgau cymdeithasol yn dueddol o fod yn fwy o broblem.

**Ynglŷn ag Anghenion Dioddefwyr**

4. Mae darparwyr gwasanaethau yn awgrymu bod angen 5 peth sylfaenol ar ddioddefwyr: diogelwch ac amddiffyniad rhag erledigaeth yn y dyfodol; cyfiawnder; gwneud synnwyr o'u profiad; teimlo bod ganddynt reolaeth ar y sefyllfa, a chymorth ymarferol a allai gynnwys help i ddelio â materion iechyd meddwl,

problemau camddefnyddio cyffuriau, llety, materion cyfreithiol neu faterion yn ymwneud â mewnfudo .

**Ynglŷn â Diwallu Anghenion**

5. Bydd cymorth i ddioddefwyr yn cysylltu'n awtomatig â dioddefwyr troseddau craidd yng ngogledd Cymru ac yn cynnig gwasanaeth iddynt. Fodd bynnag ni chysylltir yn awtomatig â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau nad ydynt yn rhai craidd.

6. Mewn perthynas â'r angen i 'ddiogelu ac amddiffyn rhag niwed yn y dyfodol', mae llwybr clir o ddarpariaeth gwasanaethau'n gysylltiedig â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig y'i hasesir fel bod mewn perygl uchel o niwed. Nid yw'r un llwybr clir yn bodoli mewn perthynas â dioddefwyr trais domestig a asesir fel bod mewn risg canolig/isel.

7. Nid oedd ymatebwyr yr heddlu yn sicr sut y prosesir atgyfeiriadau i Cymorth i Ddioddefwyr. Mae hyn yn awgrymu bob posibilrwydd na fydd rhai pobl sydd angen gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr (ond nad ydynt yn ddioddefwyr troseddau craidd) yn cael eu hatgyfeirio.

8. Bydd Cymorth i Ddioddefwyr yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynllunio diogelwch gyda llawer o ddioddefwyr trosedd. Bydd Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol (ETDA/IDVA)) yn darparu gwasanaeth tebyg ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a asesir fel bod yn rhai risg uchel.

9. Yn effeithio ar rai achosion o gamdriniaeth ddomestig sy'n ymwneud â'r asiantaethau cyfiawnder troseddol, efallai y bydd Cymorth i Ddioddefwyr, staff yr Uned Diogelu'r Cyhoedd Leol, yr IDVA neu Gymorth i Ferched yn cysylltu â'r dioddefwr yn y lle cyntaf. Wedi hynny efallai y bydd Gwasanaethau Tystion yn cysylltu â'r dioddefwr. Mae yma felly bosibilrwydd y bydd gwaith/gweithredoedd yn cael eu dyblygu ynghyd â diffyg 'meddwl ar y cyd' yn narpariaeth gwasanaethau i ddioddefwyr o'r fath.

10. Ym mhob ardal awdurdod lleol yng ngogledd Cymru roedd darpariaeth ar gyfer 'caledu targed' ac fe'i hystyriwyd yn werthfawr iawn o ran camau cynllunio diogelwch uniongyrchol.

11. Yn effeithio ar yr angen i deimlo bod 'cyfiawnder yn cael ei wneud' dywedodd darparwyr gwasanaethau bod dioddefwyr angen teimlo bod asiantau'r system cyfiawnder troseddol 'yn eu coelio' pan oeddent yn riportio trosedd ac na fyddent yn 'cael eu beio' am y sefyllfa yr oeddent ynddi.

12. Os bydd rhywun yn dioddef trosedd drwy law unigolyn ifanc neu blentyn, dywedodd darparwyr gwasanaethau y byddai Timau Troseddau Ieuenctid fel arfer yn defnyddio opsiynau cyfiawnder adferol. Barnwyd bod y ffaith nad oes darpariaeth gyffelyb mewn achosion perthnasol yn ymwneud ag oedolion yn fwlch.

13. Yn effeithio ar yr 'angen i wneud synnwyr o'u profiad', roedd Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithredu rhwydwaith o wirfoddolwyr a allent ymweld â

dioddefwyr trosedd yn eu cartrefi neu leoliad arall. Gallai IDVAs a sefydliadau eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â Chymorth i Ferched ddarparu gwasanaethau tebyg i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig.

14. Roedd gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol yn gyfyngedig oherwydd nad oes dim ond un IDVA ar gyfer gogledd Cymru i gyd ynghyd ag oedi sylweddol o ran cael gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr troseddau o'r fath

15. Roedd gwasanaethau cefnogi ar gyfer camdriniaeth ddomestig ar gael yn eang ond nid oeddent bob amser yn darparu ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.

16. Mewn perthynas â'r angen sydd gan dioddefwyr i deimlo bod ganddynt reolaeth ar y sefyllfa, dywedodd yr heddlu wrthym fod protocolau yn bodoli sy'n nodi pryd a pha mor aml y dylid cysylltu â dioddefwyr trosedd i roi diweddariad iddynt ar gynnydd eu hachosion. Fodd bynnag dywedodd swyddogion heddlu wrthym mai blaenoriaeth isel a roddir i'r dasg hon oni bai bod rhywbeth i'w adrodd.

17. Roedd Uned Tystion (rhan o GEG) yn gweithredu yng ngogledd Cymru er mwyn diweddaru tystion ynghylch sut yr oedd materion yn datblygu drwy'r llysoedd.

18. Roedd ymatebwyr yn teimlo mewn rhai achosion o gamdriniaeth ddomestig ac/neu drais rhywiol lle nad oedd IDVA neu ISVA yn chwarae rhan, y byddai'r angen am wybodaeth a chefnogaeth drwy'r broses cyfiawnder troseddol yn fwy aml na pheidio yn mynd heb ei ddiwallu.

19. Yn effeithio ar y gallu i ddiwallu 'anghenion ymarferol' dioddefwyr, deallwyd bod gan rai dioddefwyr trosedd nifer o wahanol anghenion a'u bod felly angen ymateb amlasiantaeth.

20. Sefydlwyd 'siopau un stop' mewn rhai ardaloedd gan olygu y gallai dioddefwyr gael mynediad i lawer o wasanaethau drwy un pwynt cyswllt unigol.

21. Ystyriwyd bod gwasanaethau lloches/llety wedi'u datblygu'n dda yn ogystal â gwasanaethau allgymorth symudol yn y rhan fwyaf o ardaloedd, er bod darpariaeth i ddynion weithiau yn gyfyngedig.

22. Er y dywedwyd bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gyffredinol yn cael eu disgrifio fel rhai hygyrch, dywedwyd bod gwasanaethau iechyd meddwl yn anodd eu cael heb aros yn hir amdanynt.

**Ynglŷn â'r Rhwystrau o ran diwallu Anghenion Dioddefwyr**

23. Roedd darparwyr gwasanaeth yn ystyried bod heriau penodol yn bodoli o ran darparu gwasanaethau effeithiol mewn ardaloedd gwledig. Roedd yr heriau hyn yn gysylltiedig â chostau a hwyluso mynediad cyfrinachol at wasanaethau.

24. Mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig, roedd darparwyr yn ystyried bod gwasanaethau generig ar gyfer pob dioddefwr yn fwy priodol na llawer o wasanaethau arbenigol gwahanol yn targedu defnyddwyr gwasanaeth penodol. Serch hynny dywedodd sawl un bod angen gwneud mwy o waith i godi

ymwybyddiaeth o'r faith fod gwasanaethau 'ar agor' i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau e.e. dynion hoyw sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig.

25. Roedd yr eithriad yn y cyswllt hwn yn ymwneud â rhai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig o'r gymuned DELl. Tynnwyd sylw dro ar ôl tro at bwysigrwydd BAWSO oherwydd eu harbenigedd gyda materion mewnfudo a gweithio gyda chymunedau mewnfudol.

**Ynglŷn â Gwerthuso'r Gwasanaeth**

26. Ychydig iawn o sylw a roddwyd i werthuso canlyniadau ymyriadau'n rymus gyda dioddefwyr.

27. Fodd bynnag roedd canlyniad ymgysylltiad IDVA ac ISVA gyda dioddefwyr troseddau yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol iawn ac yn cefnogi erlyniadau llwyddiannus.

**Ynglŷn â'r Dyfodol**

28. Afreolaidd erbyn hyn y cynhelir Fforymau Camdriniaeth Ddomestig (FfCDd) yng ngogledd Cymru ac ychydig sy'n eu mynychu. Am y rheswm hwn arweiniodd cydlynwyr Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gwynedd/Môn, Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam strategaeth ar gamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn eu hardaloedd perthnasol.

29. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o gamdriniaeth ddomestig a'r 'effaith coeden Ywen' wedi effeithio ar allu gwasanaethau i ddiwallu'r galw. Dywedwyd dro ar ôl tro bod gormod o bwysau ar IVDAs ac ISVAs a'u bod yn gorfod darparu gwasanaeth cyfyngedig er mwyn rheoli galw.

30. Roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i'r MARACs yn dod gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Er y bu gwelliannau yn ddiweddar, dywedodd darparwyr gwasanaeth bod rhagor o waith eto i'w wneud i annog staff iechyd, camddefnyddio sylweddau a gofal cymdeithasol i wneud atgyfeiriadau priodol.

31. Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau yn byw gydag ansicrwydd ynghylch trefniadau ariannu sydd yn ei dro yn arwain at broblemau gyda dal gafael ar staff a gorfod neilltuo llawer o amser ar gyfer cwblhau ceisiadau am grantiau.

32. Roedd gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yn cael eu hariannu o amrywiaeth o wahanol ffynonellau e.e. arian Loteri, Cefnogi Pobl, y gronfa Trais yn Erbyn Merched, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r grant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Oherwydd bod penderfyniadau ynglŷn ag ariannu yn aml yn cael eu gwneud heb edrych yn iawn ar amodau lleol, roedd teimlad bod gwasanaethau mewn rhai ardaloedd yn cael eu datblygu ar sail ad hoc, oportiwnaidd.

# Pennod 1: Cyflwyniad

## 1.0 Dulliau'r Astudiaeth

### 1.1 Nodau'r Astudiaeth

Bwriad y prosiect oedd cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion er mwyn adnabod ac archwilio'r hyn sydd ei angen ar ddioddefwyr yng ngogledd Cymru. Roedd yr amcanion fel a ganlyn:

1. Edrych ar y data a'r llenyddiaeth sy'n bodoli ynghylch niferoedd a natur dioddefwyr trosedd yn chwe sir gogledd Cymru a sut y gallai'r mathau o droseddau a ddioddefir amrywio yn ôl daearyddiaeth.

2. Edrych ar y data oedd ar gael ynghylch darpariaeth gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bodloni anghenion dioddefwyr ar draws chwe sir gogledd Cymru ac archwilio maint a natur y gwasanaethau hyn.

3. Ar y cyd â rhanddeiliaid, edrych ar natur anghenion dioddefwyr a digonoldeb a chynaladwyedd y ddarpariaeth bresennol i ddiwallu'r anghenion hynny – gan gynnwys gweld os oes bylchau mewn darpariaeth ar draws chwe sir gogledd Cymru ac os felly ymhle.

4. Ar y cyd â rhanddeiliaid, edrych ar sut y mae dioddefwyr trosedd yn cael mynediad at wasanaethau ar gyfer dioddefwyr ar hyn o bryd a beth sy'n hwyluso neu'n rhwystro mynediad.

5. Ar y cyd â rhanddeiliaid, edrych ar y mecanweithiau presennol ar gyfer gwerthuso gwasanaethau o ran eu llwyddiant i helpu dioddefwyr i ymdopi â, a dod dros eu profiadau.

6. Ar y cyd â rhanddeiliaid, edrych ar ganfyddiadau ynghylch sut y dylid blaenoriaethu a datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen ac yng ngoleuni patrymau o erledigaeth sy'n dod i'r amlwg ar draws gogledd Cymru.

Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ddata ansoddol a gasglwyd gan amrywiaeth o asiantaethau ac a ddadansoddwyd ochr yn ochr â data ansoddol o gyfres o gyfweliadau gydag unigolion sy'n gweithio gyda dioddefwyr neu unigolion a oedd wedi dioddef trosedd. Roedd yr astudiaeth yn seiliedig ar:

- Adolygiad o lenyddiaeth ynghylch anghenion dioddefwyr yn gyffredinol ac yng ngogledd Cymru yn benodol

- Data ystadegol ar erledigaeth yng ngogledd Cymru a gasglwyd gan asiantaethau statudol ac sydd ar gael mewn cronfeydd data

- Dadansoddiad o'r data sy'n bodoli ynghylch darpariaeth leol ar gyfer dioddefwyr (a gedwir gan asiantaethau statudol)
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag unigolion sy'n rhan o gyrff sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr trosedd
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda dioddefwyr trosedd

Datblygwyd strategaeth recriwtio a samplo ymatebwyr yn dilyn trafodaeth gyda'r noddwyr. Mae SCHTh yn gweithredu o fewn 'Deg Egwyddor Ymgysylltiad' Cyfranogiad Cymru felly gwahoddwyd gweithwyr a rhanddeiliaid o amrywiaeth o asiantaethau i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Cyfrannodd staff o Heddlu Gogledd Cymru, y Ganolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhyw, Tîm Amethyst, y Gwasanaeth Trais a Chamdriniaeth Rywiol, Cymorth i Ddioddefwyr, Hafan Cymru, Age Concern Cymru, Stepping Stones, BAWSO, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, grwpiau sy'n gweithio ochr yn ochr â Chymorth i Ferched, IDVAs, ISVAs Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Gwasanaeth Erlyn y Goron at yr ymchwil.

Cafwyd cymorth rhanddeiliaid i adnabod dioddefwyr a allent gynorthwyo gyda'r astudiaeth. Roedd cyfweliadau gydag ymatebwyr yn lled-strwythuredig gydag amcanion yr ymchwil yn eu harwain.

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 33 o ddarparwyr gwasanaeth mewn galwedigaethau sy'n dod â nhw i gysylltiad â dioddefwyr, ac 8 dioddefwr trosedd (1 x ymddygiad gwrthgymdeithasol 1 x arson, 1 x camdriniaeth rywiol a 5 x camdriniaeth ddomestig).

Roedd cyfweliadau gyda darparwyr gwasanaethau'n canolbwyntio ar bobl mewn ar rolau oedd dod â nhw i gysylltiad â dioddefwyr ac ar eu barn ynglŷn ag anghenion dioddefwyr - pa anghenion oedd yn cael eu diwallu a pha rai oedd ddim, pa 'grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau' oedd yn manteisio ar wasanaethau a pha rai oedd ddim, y rhwystrau sy'n bodoli o ran diwallu anghenion dioddefwyr a'r hyn a allai hwyluso darpariaeth y gwasanaethau.

Roedd cyfweliadau gyda dioddefwyr yn canolbwyntio ar eu profiadau a'u hanghenion ar ôl iddynt ddioddef trosedd, ar ba mor dda y diwallwyd yr anghenion hyn ac a oedd bylchau yn bodoli yn y ddarpariaeth.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfweliadau mewn lleoliadau gwaith a chafodd pob un ond tri eu recordio'n awdio ddigidol gyda chaniatâd yr ymatebwyr. Cynhaliwyd dau gyfweliad dros y ffôn. Lle na chafodd cyfweliad ei recordio, cymerwyd nodiadau manwl.

## 1.2 Dadansoddiad Data Ansoddol

Cafodd yr holl recordiadau awdio eu trawsgrifio'n llawn. Dadansoddwyd cyfweliadau data ansoddol gan ddefnyddio dull cymharu cyson. Darllenwyd y trawsgrifiadau gan y tîm prosiect a datblygwyd fframwaith dadansoddol, yn seiliedig ar themâu oedd yn dod i'r amlwg. Yng nghorff yr adroddiad, amlygir themâu gan ddefnyddio'r codau data canlynol:

Rhanddeiliaid: Cod S1 - S33

Cyflwynir cyfraniadau'r dioddefwyr fel naratif darluniol gan ddefnyddio'r ffugenwau Nia, Michael, Jill, Nancy, Jo, Tina, Natasha ac Anna.

Mae enwau pobl/llefydd yn y data wedi'u newid er mwyn diogelu cyfrinachedd.

1.3 Materion moesegol

Goruchwyliwyd y prosiect ac agweddau moesegol yr ymchwil gan grŵp llywio oedd yn cynnwys staff HGC ac unigolion sy'n gweithio yn SCHTh. Cadwodd yr astudiaeth at yr arferion ymchwil moesegol gofynnol (fel y'i pennir gan y Gymdeithas Gymdeithasegol Brydeinig) ac egwyddorion cydsyniad gwybodus gwirfoddol ac anhysbysrwydd. Rhoddwyd gwybodaeth i gyfranogwyr ynghylch yr astudiaeth a chafwyd eu cydsyniad drwy lofnod neu wedi'i gofnodi ar lafar cyn y cyfweliadau.

Trafodwyd cyfarfodydd â dioddefwyr gyda darparwyr gwasanaethau. Eglurwyd natur yr ymchwil cyn y cyfweliadau a gofynnwyd am ganiatâd gwybodus. Roedd yr holl gyfranogiad yn wirfoddol. Rhoddwyd sicrwydd i'r holl gyfranogwyr y byddant yn aros yn ddienw oni bai eu bod yn datgelu manylion troseddau nad oedd yr heddlu'n gwybod amdanynt, neu os oedd materion yn ymwneud â diogelu plant yn codi.

Cadwyd at ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr gael eu cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd un ymatebydd eisiau cyfweliad Cymraeg.

# Pennod dau: Cefndir

## 2.0 Cyflwyniad

Ym maes erledigaeth mae sensitifrwydd terminolegol yn bodoli. I ddibenion yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio'r term 'dioddefwr' yn hytrach na 'goroeswr' trosedd. Defnyddiwn y term 'dioddefwr' oherwydd bod y rhai a gyfrannodd at yr ymchwil wedi defnyddio'r term hwn eu hunain ac oherwydd eu bod i gyd yn 'ddioddefwyr' o safbwynt eu statws o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Rydym yn defnyddio'r term 'camdriniaeth ddomestig' oherwydd ei fod yn cwmpasu'n well yr amrediad o ymddygiadau sy'n gysylltiedig â thrais yng nghyd-destun perthnasau personol a dyma'r term a ddefnyddiwyd gan y rhai a soniodd am y mater hwn wrth gyfrannu at y prosiect. Yn olaf rydym yn cyfeirio at 'droseddau casineb' gan fod hwn yn derm y mae'r cyhoedd yn ei adnabod a dyma'r term a ymddangosodd yn y rhan fwyaf o ddogfennau polisi a llenyddiaeth yr edrychom arnynt.

Nid yw ymgymryd â dadansoddiad o 'anghenion' yng nghyd-destun gwasanaethau i ddioddefwyr yn dasg hawdd. Y rheswm am hyn yw nad yw 'angen' yn y cyd-destun hwn yn hawdd i'w ddehongli. Yng nghyd-destun gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr mae i 'angen' ddimensiwn goddrychol nad oes modd ei fesur heblaw drwy'r hyn y mae pobl yn ei ddweud yw eu hanghenion, a gallai'r 'anghenion' hyn amrywio o'r awydd i ddial i'r awydd i gael cyfiawnder neu i faddau. Mater arall yw ceisio gwahaniaethu rhwng beth mae rhywun ei 'eisiau' a beth mae rhywun ei 'angen'. Gellir dehongli 'angen' fel rhywbeth y mae ei wirioneddol angen ar unigolyn i aros yn iach, a rhywbeth y mae unigolyn ei 'eisiau' fel rhywbeth dymunol ond nid hanfodol. Oherwydd bod diffinio a dilysu 'angen' yn ddyrys, nododd Maguire (1985) bod sefydliadau gwirfoddol wedi ymwneud llai ag archwilio beth yw 'anghenion' nag y maent â'r dasg ymarferol o geisio darganfod sut y gallant fod o'r help ymarferol mwyaf i ddioddefwyr a chofnodi pa wasanaethau sy'n cael eu defnyddio[1].

Mae astudiaethau wedi dangos bod stereoteipiau yn bodoli mewn perthynas â dioddefwyr trosedd sy'n eu gosod ar un o ddau begwn eithafol, sef dioddefwyr sydd 'yn wyneb eu herledigaeth' yn oddefgar a diymadferth neu ar fai ac yn gyfrifol. Mae'r ddau gynrychioliad yn broblemus, yn yr achos cyntaf oherwydd bod diwylliant y Gorllewin yn gweld gwerth mewn grym unigol a gallai cael eu gweld fel rhywun 'mewn angen' fod yn broblemus i grwpiau megis dynion a phobl ifanc. Yn yr ail achos, mae'r cynrychioliad yn broblemus oherwydd y gallai arwain at erledigaeth eilaidd sy'n digwydd fwyaf amlwg pan fydd dioddefwyr yn profi triniaeth annigonol neu ansensitif yn y system cyfiawnder troseddol.

---

[1] Simmonds, L. (2009) "What victims want! Victim support, an objective or relative approach to victims' needs", Social & Public Policy Review, 3, 2, pp. 11-29.

Mae'r llenyddiaeth sydd ar gael yn nodi fod bod y profiad o fod yn ddioddefwr yn un cymhleth. Bydd gwahanol droseddau'n effeithio ar ddioddefwyr mewn sawl gwahanol ffordd: yn ymarferol, emosiynol, seicolegol a chorfforol. Ar lefel ymarferol gall erledigaeth arwain at golledion y bydd yn amhosibl i'r dioddefwr wneud yn iawn amdanynt oni bai fod ganddo yswiriant neu arian wrth gefn. Mae beio eu hunain am yr hyn ddigwyddodd yn ymateb emosiynol cyffredin i erledigaeth. Mae teimlo ofn a phoeni ynghylch y posibilrwydd o fod yn ddioddefwr am yr eildro neu fwy yn adweithiau cyffredin, felly hefyd gorfod newid ffordd o fyw er mwyn ymdopi a'r hyn ddigwyddodd. Gall effeithiau seicolegol erledigaeth chwalu teimlad unigolyn bod pethau dan reolaeth, mewn trefn ac yn gweithio'n effeithiol yn y byd, yn ogystal â chwalu eu ffydd mewn pobl eraill. Mewn rhai achosion gall erledigaeth fod ag effeithiau corfforol y bydd yn anodd os nad yn amhosibl dod drostynt.

Mae rhai troseddau, yn enwedig y rhai hynny sy'n cynnwys trais rhywiol neu gorfforol, yn cael eu dynodi yn y llenyddiaeth sydd ar gael fel troseddau sy'n debygol o adael dioddefwyr ag ôl–effeithiau difrifol a pharhaol. Oherwydd y gall effeithiau dioddef trosedd fod yn gronnus, deellir hefyd y gall effeithiau dioddef trosedd eildro neu fwy fod yn arbennig o niweidiol. Yn ychwanegol, oherwydd bod teimlad o fod yn fwy agored i niwed na'r arfer yn un o sgil effeithiau erledigaeth, dengys ymchwil bod y rhai hynny y mae trosedd yn effeithio fwyaf arnynt yn dueddol o fod yn agored i niwed eisoes oherwydd amgylchiadau corfforol, seicolegol neu gymdeithasol. Yn olaf, oherwydd bod gallu unigolyn i ymdopi â, a dod dros erledigaeth yn amrywio yn ôl y mathau o systemau o gefnogaeth sydd ar gael iddynt, dengys ymchwil bod y rhai hynny y mae erledigaeth yn effeithio fwyaf arnynt yn dueddol o fod wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol neu wedi'u hynysu. O'r casgliadau hyn felly mae'n dilyn, er y gall y math o drosedd a ddioddefwyd nodi angen posibl, y gall anghenion dioddefwyr fod yn berthnasol hefyd i'r unigolyn ei hun yn hytrach na'u bod yn llwyr gysylltiedig â'r math o drosedd a brofwyd.

Ymddengys dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf bod y posibilrwydd y bydd rhywun yn dioddef trosedd wedi disgyn yn ddramtig[2]. Serch hynny, yn ôl arolygon cenedlaethol, bydd un o bob pump yn dioddef trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau ar gyfer dioddefwyr trosedd yn gymhleth gydag amrediad eang o sefydliadau statudol a gwirfoddol yn cynnig gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr a thystion. Dros y degawdau diwethaf gwelwyd buddsoddiad sylweddol yn narpariaeth cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr troseddau gyda nawdd gan y Llywodraeth o tua £151 miliwn bob blwyddyn (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2012)[3].

Cyn bo hir fodd bynnag bydd y modd yr ariennir rhai gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yn newid. Yn 2011, dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, diddymwyd Awdurdodau Heddlu a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb dros leihau trosedd ac anhrefn i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) newydd. Ers mis Tachwedd 2012 CHTh sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol plismona yn ardaloedd eu heddluoedd. Fel y nodir yn y Fframwaith Comisiynu Gwasanaethau,[5]

[2] Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr 2012/13

[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) 'Getting it Right for Victims and Witnesses: The Government Response. London: The Stationery Office

[4] Bydd mabwysiadwyr cynnar yn cymryd cyfrifoldeb yn Hydref 2014, a bydd y gweddill yn dilyn yn Ebrill 2015

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013)Fframwaith Comisiynu Gwasanaethau ar gyfer Dioddefwyr Mai 2013

o safbwynt dioddefwyr mae’r newid hwn yn rhan o ymgais strategol i symud tuag at ddarpariaeth gwasanaethau mwy lleol a phersonol a buddsoddiad yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

Bydd rhai gwasanaethau yn parhau i gael eu comisiynu’n genedlaethol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd y gwasanaethau a gomisiynir yn genedlaethol yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer:

- pobl sydd wedi’u masnachu
- y rhai sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i ddynladdiad
- dioddefwyr trais rhywiol (drwy Ganolfannau Trais a Chamdriniaeth Rywiol)
- tystion yn y llys

Gall y gwasanaethau a gomisiynir yn genedlaethol hefyd gynnwys llinellau cymorth cenedlaethol a rhai gwasanaethau arbenigol eraill ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth rywiol neu ddomestig. Gyda’r nod gyffredinol o sicrhau bod dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael mynediad at wasanaethau sy’n diwallu eu hanghenion, bydd yr holl wasanaethau eraill yn cael eu comisiynu gan y CHTh dan bwerau perthnasol Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014.

Y weledigaeth yw creu economi cymysg o ddarparwyr gwasanaethau cenedlaethol a lleol i gefnogi dioddefwyr i ymdopi ag effeithiau uniongyrchol trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a’u cynorthwyo i ddod dros unrhyw niwed a brofwyd.

Canolbwyntio ar ogledd Cymru

Yn 2013/2014 ac fel rhan o adolygiad o’r Cynllun Heddlu a Throsedd, amlinellodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y deilliannau yr oedd ef, mewn ymgynghoriad ag eraill, gan gynnwys grwpiau dioddefwyr, yn teimlo y dylent fod yn flaenoriaethau ar gyfer yr ardal. Yn cael blaenoriaeth amlwg yn y cynllun mae deilliannau sy’n arbennig o berthnasol i ddioddefwyr: lleihau troseddau seiliedig ar ddioddefwyr a gweithio tuag at sicrhau fod pobl yn teimlo’n “ddiogel ac yn saff ac nad ydynt yn teimlo ofn oherwydd trosedd, troseddwyr na bygythiadau o unrhyw ffynhonnell” . Mae’r Cynllun Heddlu a Throsedd yn cyfeirio’n benodol at yr angen i’r heddlu ddarparu ymatebion effeithiol i ddigwyddiadau o gamdriniaeth ddomestig. Yn ychwanegol, mae’n cyfeirio at yr angen am wasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr troseddau o’r fath. Amlygwyd y ffaith y dylai’r heddlu ddangos cynnydd cyson o ran meithrin hyder dioddefwyr yn ymateb yr heddlu i droseddau rhyw sy’n cael eu riportio iddynt. Roedd y cynllun yn cydnabod na fyddai’n bosibl sicrhau’r deilliannau dymunol, sef bod pobl yn ddiogel ac yn saff heb weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau, sefydliadau a chymunedau lleol eraill.

Mae’r cyd-destun y bydd comisiynu yn digwydd ynddo yn un cymhleth. Mae pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhwym wrth y Ddyletswydd Gydraddoldeb (sy’n ymwneud ag wyth nodwedd warchodedig) a nodir yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb

2010. Yn ychwanegol, mae'r DU wedi ymrwymo i gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar hawliau dioddefwyr trosedd a sut i'w cefnogi a'u diogelu, a chyhoeddwyd Cod Dioddefwyr newydd yn 2013. Mae'r Cod yn cynnwys cyfres o ddyletswyddau y mae'n rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol eu cyflawni er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaethau a'r wybodaeth gywir pan fyddant eu hangen. Yn olaf, yng Nghymru mae dyletswyddau'n deillio o Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

> Canolbwyntio ar Ogledd Cymru
>
> Yng ngogledd Cymru mae'r ymrwymiad i'r dyletswyddau hyn wedi'i ymgorffori yng Nghyd Gynllun Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae CHTh Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n dilyn yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Fel rhan o ddatblygiad trefniadau comisiynu gwahoddwyd CHTh i ymgymryd ag asesiad o anghenion dioddefwyr yn ardaloedd eu heddluoedd eu hunain. Mynegwyd pryderon bod anghenion dioddefwyr yn rhy aml yn cael eu cyfethol gan asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddibenion datblygu system erlyniadau troseddol mwy effeithiol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryder hwn gofynnwyd i CHTh ystyried nid yn unig anghenion y rhai hynny sy'n riportio troseddau ond hefyd anghenion y rhai sydd ddim. O ystyried cyfeiriadedd comisiynu yn y dyfodol, gwahoddwyd CHTh hefyd i ganolbwyntio eu hasesiadau o anghenion nid dim ond ar gwmpasu anghenion sydd eisoes yn bodoli ond hefyd ar gwmpasu anghenion y dyfodol yng ngoleuni tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

## 2.1 Maint a Natur erledigaeth yng Nghymru a Lloegr

Yn draddodiadol mae dwy ffordd o gasglu data ystadegol am ddioddefwyr ac erledigaeth. Mae'r ffordd gyntaf yn ymwneud â chasglu ystadegau gan yr heddlu ynglŷn â throseddau a riportiwyd a'r ail yn ymwneud ag arolygon erledigaeth o'r boblogaeth yn gyffredinol.

Nid yw'r berthynas rhwng troseddau cofnodedig yr heddlu ac erledigaeth yn gwbl glir. Am amrywiaeth o resymau nid yw pawb yn riportio troseddau i'r heddlu. Amcangyfrifir mai dim ond tua thraean o'r holl droseddau ar gyfartaledd sy'n cael eu riportio i'r heddlu gyda niferoedd yn amrywio yn ôl y math o drosedd. Yn y cyd-destun hwn efallai y gall arolygon dioddefwyr roi gwell syniad o gyfraddau erledigaeth ond nid yw'r berthynas rhwng erledigaeth, fel yr adroddir yn ei gylch mewn arolygon, a gwir erledigaeth yn gwbl glir 'chwaith. Y rheswm dros hyn yw bod llawer o achosion ble nad yw unigolion yn barod i riportio erledigaeth hyd yn oed mewn arolygon dienw, a daw rhai unigolion o gymunedau 'anodd eu harolygu' e.e. teithwyr.

Mae data trosedd a gyflwynir i, neu a gesglir gan, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn fanwl iawn ac nid yw'n bosibl ei ddadansoddi mewn unrhyw ddyfnder yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag amlygir y materion allweddol isod.

2.1.1 Troseddau Cofnodedig yr Heddlu

Ers 2009 mae 43 heddlu tiriogaethol Cymru a Lloegr a Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn cyflwyno ffigyrau troseddau cofnodedig drwy'r Swyddfa Gartref i'r SYG. Yn sgil hyn mae cywirdeb data trosedd cofnodedig yr heddlu wedi bod yn destun peth beirniadaeth. Yn wir, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, aseswyd ystadegau seiliedig ar ddata trosedd cofnodedig yr heddlu yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol a'r casgliad oedd nad ydynt yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig i'w dynodi'n 'Ystadegau Cenedlaethol'. Wedi dweud hynny, roedd casgliad adroddiad 'cofnodi data' interim a gynhaliwyd gan AHEM ym Mawrth 2014 yn awgrymu bod gan Heddlu Gogledd Cymru gyfradd gydymffurfiad uchel â'r safon gofnodi genedlaethol. [6]

Serch hynny, yn ôl y data, yn y 12 mis hyd Medi 2013, cofnododd heddluoedd Cymru a Lloegr 3,725,281 o droseddau gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn droseddau seiliedig ar ddioddefwyr.

**Tabl 1: Cyfanswm Troseddau Cofnodedig yr Heddlu – nifer a chyfraddau troseddau**

| Troseddau Cofnodedig Cymru a Lloegr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ebrill 02-Maw 03 | Ebrill 07-Maw 08 | Hydref 11-Medi 12 | Hydref 12-Medi 13 |
| Cyfanswm Troseddau Cofnodedig - (yn cynnwys twyll) | 5,974,960 | 4,952,277 | 3,838,279 | 3,725,281 |
| Troseddau seiliedig ar ddioddefwyr | 5,403,458 | 4,338,485 | 3,363,463 | 3.129,841 |
| Troseddau eraill yn erbyn cymdeithas | 387,821 | 542,656 | 424,832 | 394,405 |
| Cyfanswm Troseddau Twyll | 183,681 | 71,135 | 149,984 | 201,035 |
| Cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth | | | | |
| Cyfanswm Troseddau Cofnodedig - (yn cynnwys twyll) | 114 | 92 | 69 | 66 |
| Troseddau seiliedig ar ddioddefwyr | 103 | 80 | 59 | 56 |
| Troseddau eraill yn erbyn cymdeithas[7] | 7 | 10 | 8 | 7 |
| Cyfanswm Troseddau Twyll | 4 | 1 | 3 | |

Troseddau cofnodedig yr heddlu SYG hyd Medi 2013

Mae troseddau eiddo yn yrrwr pwysig o ran troseddu yn gyffredinol ac yn cyfrif am 72% o'r holl droseddau a gofnodir gan yr heddlu. Mae tua 20% o'r holl droseddau a gofnodir yn ymwneud â thrais. Cofnododd yr heddlu 601,134 o droseddau o drais yn erbyn yr unigolyn yn y 12 mis hyd Medi 2013.

---


[6] AHEM (2014) 'Crime recording: A matter of fact'. Interim o'r arolwg o unplygrwydd data trosedd yn heddluoedd Cymru a Lloegr.

[7] (h.y. troseddau lle nad oes dioddefwr penodol y gellir ei adnabod, megis troseddau cyffuriau a meddu ar arfau)

Yn ystod yr un cyfnod cofnodwyd 53,700 o droseddau rhyw, 71% ohonynt yn drais rhywiol neu fathau eraill o ymosodiadau rhyw difrifol.[8]

Mae'r 3.75 miliwn o droseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2013 yn cynrychioli gostyngiad o 3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn parhau'r tueddiad heb fod yn unionlin o droseddau'n gostwng ers 1995.


**Ffigwr 1: Tueddiadau mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu ac ATCLl, 1981 hyd 2012/13**




Dengys data dadelfenedig bod achosion o'r rhan fwyaf o fathau o droseddau wedi bod yn gostwng ers 1995. Fodd bynnag gwelwyd cynnydd o 4% mewn dwyn o siopau a chynnydd o 7% mewn achosion o ddwyn oddi ar unigolyn. Mae'r nifer o droseddau rhyw a gofnodwyd gan yr heddlu hefyd wedi cynyddu 17% yn y 12 mis yn diweddu Medi 2013. Deellir bod y cynnydd yn y categori hwn o drosedd yn gysylltiedig â'r effaith 'Coeden Ywen' - hynny yw mwy o barodrwydd ar ran dioddefwyr troseddau rhyw i riportio achosion o'r fath i'r heddlu yn seiliedig ar y cyhoeddusrwydd yn ymwneud ag achos Jimmy Saville.

[8] Nid yw'n bosibl adnabod achosion trais domestig o'r ffigyrau troseddau cofnodedig a gyflwynodd heddluoedd i'r Swyddfa Gartref ac a gyhoeddwyd gan y SYG gan fod y ffigyrau hyn yn seiliedig ar gyfrifiadau trosedd dan y dosbarth priodol o drosedd ac nid oes unrhyw fanylion am y berthynas rhwng y troseddwr-dioddefwr.

**Ffigwr 2: Tueddiadau mewn troseddau rhyw a gofnodwyd gan yr heddlu 2002/03 hyd y flwyddyn y diweddu Medi 2013**




Mae data YG yn arbennig o anodd ei ddehongli oherwydd bod amrywiadau cenedlaethol arwyddocaol yn bodoli o ran dosbarthu a chofnodi digwyddiadau o YG ar draws y gwahanol heddluoedd. Yn ôl ystadegau'r heddluoedd a gyflwynwyd i'r SYG fodd bynnag, roedd 2.2 miliwn o ddigwyddiadau o YG yn y flwyddyn y diweddu Rhagfyr 2012. Mae ffigyrau ar gyfer y cyfnod 2007/08 - 2010/11 hefyd yn dangos gostyngiadau yn y nifer o ddigwyddiadau o YG a gofnodwyd gan yr heddlu sy'n gyson â'r tueddiadau yn yr holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu.

Yn y data a gyflwynir gan yr heddluoedd nodir tri math o YG: digwyddiadau 'Niwsans', sy'n ymwneud â gweithred, cyflwr, peth neu berson yn achosi trafferth, niwsans, poen, anghyfleustra, tramgwydd neu ddioddefaint yn y gymuned yn gyffredinol yn hytrach nag i ddioddefwr unigol; digwyddiadau 'Personol' sy'n cynnwys digwyddiadau sy'n cael eu gweld fel rhai a dargedwyd at unigolyn neu grŵp, neu sy'n cael effaith ar unigolyn neu grŵp yn hytrach nag ar y gymuned yn gyffredinol; digwyddiadau 'Amgylcheddol' sy'n cynnwys digwyddiadau ble bydd unigolion a grwpiau yn dylanwadu ar eu hamgylchedd gan gynnwys amgylcheddau naturiol, adeiledig a chymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2013, dosbarthwyd 66% o'r digwyddiadau o YG a gofnodwyd gan yr Heddlu fel rhai 'Niwsans', 28% fel 'Personol' a 6% fel 'Amgylcheddol'.

Ar lefel genedlaethol neu leol nid yw data trosedd bob amser yn cael ei ddadelfennu mewn perthynas â nodweddion allweddol y dioddefwr oherwydd yn aml iawn mae'r math o drosedd yn cael mwy o sylw na'r math o ddioddefwr mewn prosesau casglu data swyddogol. Mae'r eithriad yma yn ymwneud â Throseddau Casineb y'i diffinnir gan Gymdeithas y Prif Swyddogion a Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru a Lloegr fel:

*Unrhyw drosedd sy'n cael ei weld gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall fel trosedd a ysgogwyd gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd neu anabledd canfyddedig unigolyn.*

Y pum edefyn sy'n cael eu monitro yw: hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a hunaniaeth rywiol. Yn ôl data cofnodedig yr heddlu, o'r 43,748 o droseddau casineb a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru a Lloegr yn 2011/12 roedd:

- 35,816 (82%) yn droseddau casineb ar sail hil
- 1,621 (4%) yn droseddau casineb ar sail crefydd/cred
- 4,252 (10%) yn droseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol
- 1,744 (4%) yn droseddau casineb ar sail anabledd
- 315 (1%) yn droseddau casineb ar sail trawsrywedd.

Yn y flwyddyn honno cofnodwyd 1,809 o droseddau casineb yng Nghymru gyda phatrwm eithaf tebyg:

- 1,368 (76%) yn droseddau casineb ar sail hil
- 54 (3%) yn droseddau casineb ar sail crefydd/cred
- 244 (13%) yn droseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol
- 122 (8%) yn droseddau casineb ar sail anabledd
- 21 (1%) yn droseddau casineb ar sail trawsrywedd.

### 2.1.2 Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (ATCLl)

Mae Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr yn astudiaeth sefydledig ac yn un o'r arolygon ymchwil cymdeithasol mwyaf a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Cyn Ebrill 2012 yr enw ar yr arolwg oedd Arolwg Trosedd Prydain ac fe'i cynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref. Yn Ebrill 2012 trosglwyddodd y cyfrifoldeb am yr arolwg i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac fe'i hailenwyd yn Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr (ATCLl/CSEW). Yn wahanol i ddata a gesglir gan yr heddlu, mae'r data a gesglir gan ATCLl yn ymwneud yn bennaf ag erledigaeth ac ynddo gofynnir i ymatebwyr am eu profiadau.

Mae'r arolwg yn casglu data cyfanredol ynghylch troseddau yng Nghymru a Lloegr gan sampl cynrychiolaidd cenedlaethol o 35,000 oedolyn a 3,000 o blant (10-15 oed). Y cyfraddau ymateb i'r arolygon yn 2012/13 oedd 73% a 67% yn y drefn honno. Er bod y data hwn yn ddefnyddiol iawn, ni chaiff fel arfer ei ddadelfennu'n ddata poblogaeth is-genedlaethol felly mae ei ddefnyddioldeb ar lefel leol yn gyfyngedig.

Mae prif bwyntiau'r arolwg yn cynnwys amcangyfrif y bu 8.0 miliwn o droseddau yn erbyn cartrefi a'r bobl oedd yn preswylio ynddynt yng Nghymru a Lloegr yn y 12 mis tan Medi 2013.

Mae ATCLl (hyd Mawrth 2013) yn dal i awgrymu fod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddioddef trosedd nag unrhyw grŵp oedran arall. Yn wir wrth i bobl fynd yn hŷn, mae canran o bobl sy'n riportio eu bod wedi dioddef trosedd yn lleihau. Mae dynion ifanc yn fwy tebygol o ddioddef trosedd na merched ifanc, ond mae'n glir erbyn hyn bod trais a chamdriniaeth ddomestig yn ffactor amlycach ym mywydau merched ifanc na dynion ifanc.

**Tabl 2: Canran sydd wedi dioddef trosedd yn ôl oed a rhyw (12 mis hyd Mawrth 2013)**

| | Pob trosedd ATCLI | Trosedd Personol |
|---|---|---|
| Pob oedolyn | 18.7 | 5.2 |
| 16-24 | 26.4 | 11.7 |
| 25-34 | 23.0 | 6.8 |
| 35-44 | 22.4 | 5.6 |
| 45-54 | 19.6 | 4.3 |
| 55-64 | 15.6 | 2.9 |
| 65-74 | 9.8 | 1.8 |
| 75+ | 6.3 | 1.3 |
| | | |
| Dynion | | |
| | | |
| 16-24 | 26.7 | 12.8 |
| 25-34 | 22.8 | 6.5 |
| 35-44 | 22.6 | 6.1 |
| 45-54 | 20.0 | 4.7 |
| 55-64 | 16.5 | 2.9 |
| 65-74 | 9.7 | 1.5 |
| 75+ | 6.2 | 0.7 |
| | | |
| Merched | | |
| | | |
| 16-24 | 26.1 | 10.5 |
| 25-34 | 23.1 | 7.1 |
| 35-44 | 22.1 | 5.1 |
| 45-54 | 19.3 | 3.9 |
| 55-64 | 14.7 | 3.0 |
| 65-74 | 10.0 | 2.1 |
| 75+ | 6.4 | 1.9 |

Mae'r risg o ddioddef trosedd yn fwy i bobl o gymunedau DLIE yng Nghymru a Lloegr.

**Tabl 3: Canran sydd wedi dioddef trosedd yn ôl Grŵp Ethnig (hyd Mawrth 2013)**

| Grŵp Ethnig | Pob Trosedd ATCLI | Trosedd Personol |
|---|---|---|
| Gwyn | 18.4 | 5.0 |
| Heb fod yn wyn | 20.8 | 6.8 |
| *Cymysg/aml ethnig* | 24.8 | 11.1 |
| *Asiaidd/Asiaidd Prydeinig* | 21.8 | 6.1 |
| *Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig* | 18.3 | 7.2 |
| *Grŵp Ethnig Arall* | 16.0 | 5.2 |

Dengys ATCLI bod y rhai hynny nad ydynt mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o brofi trosedd na'r rhai hynny sydd mewn cyflogaeth gyda myfyrwyr yn arbennig o debygol o ddioddef.

**Tabl 4: Canran Sydd Wedi Dioddef Trosedd yn ôl Statws Cyflogaeth**

| Statws Cyflogaeth yr Ymatebydd | Pob Trosedd | Trosedd Personol |
|---|---|---|
| Mewn cyflogaeth | 21.3 | 6.0 |
| Di-waith | 23.1 | 9.0 |
| Economaidd Anweithredol | 13.9 | 3.6 |
| *Myfyriwr* | 25.7 | 10.6 |
| *Edrych ar ôl teulu/cartref* | 19.1 | 3.7 |
| *Sâl hirdymor/dros-dro* | 21.9 | 5.6 |
| *Wedi ymddeol* | 8.9 | 1.7 |
| *Anweithredol arall* | 17.6 | 6.3 |

Mae ATCLI yn dangos gwahaniaethau arwyddocaol o ran y profiad o ddioddef trosedd rhwng ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol.

**Tabl 5: Canran Sydd Wedi Dioddef Trosedd yn ôl Daearyddiaeth**

| Math o Ardal | Pob Trosedd | Trosedd Personol | Trosedd yn y Cartref |
|---|---|---|---|
| Trefol | 20.1 | 5.6 | 15.6 |
| Gwledig | 13.4 | 3.7 | 9.8 |

Roedd ATCLI 2012/13 yn amcangyfrif bod 1.9 digwyddiad treisgar yn erbyn oedolion yng Nghymru a Lloegr. Amcangyfrifwyd bod 2% o ferched a 0.5% o ddynion wedi profi ymosodiad rhywiol o ryw fath (gan gynnwys ceisiadau i ymosod) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Amcangyfrifwyd bod 7.1% o ferched a 4.4% o ddynion wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth ddomestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyfwerth ag amcangyfrif o 1.2 miliwn o ddioddefwyr trais domestig benywaidd a 700,000 o ddioddefwyr gwrywaidd. Ar y cyfan amcangyfrifwyd bod 30.0% o ferched a 16.3% o ddynion wedi profi rhyw fath o drais domestig ers pan oeddent yn 16 oed, cyfwerth ag amcangyfrif o 4.9 miliwn dioddefwr trais domestig benywaidd a 2.7 miliwn dioddefwr gwrywaidd. Roedd merched yn fwy tebygol na dynion o fod wedi profi trais personol ar draws pob pennawd o drais yr holwyd yn ei gylch.

Roedd ATCLI yn amcangyfrif bod 278,000 o droseddau casineb ar gyfartaledd yng Nghymru a Lloegr yn 2011/12 a 2012/13[9]. Y ffactor ysgogol tebygol mwyaf cyffredin a riportiwyd mewn digwyddiadau troseddau casineb oedd hil, gyda chyfartaledd o154,000 o ddigwyddiadau bob blwyddyn yn ôl arolygon 2011/12 a 2012/13.


Yr ail ffactor ysgogol tebygol mwyaf cyffredin oedd crefydd (70,000 digwyddiad bob blwyddyn). Ymosodiadau fyddai mwyafrif y troseddau casineb (gyda mân anaf neu heb anaf) a digwyddiadau o fandaliaeth

[9] y Swyddfa Gartref, Y swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) Trosolwg o Droseddau Casineb yng Nghymru a Lloegr. I'w weld yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/266358/hate-crime-

2013.pdf

Er gwaethaf y lefel hon o droseddu yn erbyn pobl, roedd troseddau yn erbyn pobl a gafodd eu riportio i lawr 10% o gymharu ag arolwg y flwyddyn flaenorol, a dyma'r amcangyfrif isaf ers pan ddechreuodd yr arolwg yn 1981. Dangosodd ATCLl ostyngiad o 13% yn lefelau trais yn seiliedig ar y cyfweliadau a gynhaliwyd yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2013 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


**Ffigwr 3: ATCLl, tueddiadau o ran trais 1981 hyd y flwyddyn yn diweddu Medi 2013**




Yn 1995 (pan oedd troseddu ar ei anterth) dioddefodd 5.3% o bob oedolyn 16 oed a throsodd drosedd treisgar. Mae hyn yn cymharu â chyfradd o 2.6% yn ATCLl 2012/13. Mae gostyngiad mewn trais domestig rhwng ATCLl 2004/05 a 2012/13 hefyd yn amlwg.

Mae dadansoddiad agos o ATCLl yn dangos tueddiadau cenedlaethol diddorol o safbwynt ail erledigaeth. Dioddefwyr camdriniaeth ddomestig oedd fwyaf tebygol o riportio eu bod wedi dioddef fwy nag unwaith yn y 12 mis blaenorol. Dwyn oddi ar yr unigolyn ac ysbeiliad oedd y troseddau lleiaf tebygol o gael profi fwy nag unwaith

**Ffigwr 4: Canran y dioddefwyr a ddioddefodd fwy nag unwaith yn ôl mathau o droseddau (ATCLl, Mehefin 2012)**



Mae'r casgliadau hyd Medi 2013 yn dangos pwysigrwydd ail erledigaeth o ran dylanwadu ar y gostyngiad mewn tueddiadau trosedd. Mae pob trosedd cysylltiedig ag eiddo wedi dangos gostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau o gymharu ag ATCLl 1995. Ac eithrio dwyn oddi ar unigolyn ac ysbeiliad, mae'r gostyngiad yn y nifer sydd wedi dioddef troseddau eildro neu fwy wedi bod yn fwy amlwg nag yn y nifer o ddioddefwyr troseddau 'unwaith yn unig'. Mewn perthynas â lladradau cysylltiedig â cherbydau y gwelwyd y gostyngiad mwyaf o ran pobl a ddioddefodd troseddau am yr eildro neu fwy, gyda gostyngiad o 85% rhwng arolygon 1995 a 2012/13.

Ar draws y mathau o droseddau, mae'r canlyniadau'n awgrymu nad yw dioddefwyr yn cael eu hail-dargedu i'r un graddau a arferai ddigwydd. Yn ATCLl 2012/2-13 er enghraifft, roedd y ganran oedd wedi dioddef camdriniaeth drwy law eu partner a riportiodd eu bod wedi cael eu cam-drin fwy nac unwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol yn arwyddocaol is nag yn 2004/05 (29% yn 2012/2013 o gymharu â 34% yn 2004/2005).

Mae ATCLl yn cynnwys cwestiynau ynglŷn ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Yn ATCLl y flwyddyn y diweddu Rhagfyr 2013, roedd 12% o oedolion yn teimlo bod lefel uchel o YG yn eu hardal leol, gostyngiad o 2% ers y flwyddyn flaenorol. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd ATCLl y flwyddyn hyd Rhagfyr 2013 yn dangos gostyngiadau yn y canrannau o oedolion oedd yn teimlo bod problemau cysylltiedig â'r pedwar math o YG: pobl yn eu harddegau yn loetran o amgylch y strydoedd; pobl yn feddw neu'n stwrllyd mewn mannau cyhoeddus; fandaliaeth, graffiti a difrod bwriadol arall i eiddo a cherbydau wedi'u gadael neu eu llosgi. Gwelwyd gostyngiadau hefyd yn y categorïau: sbwriel o amgylch y lle; pobl yn defnyddio neu'n delio cyffuriau a chymdogion a phartïon swnllyd, ond nid cymaint o ostyngiad fel ei fod yn ystadegol arwyddocaol.


Ychwanegwyd cwestiynau newydd ynghylch gwir brofiadau ymatebwyr o YG yn eu hardal leol at ATCLl 2011/12. Roedd y cwestiynau hyn yn gofyn a oedd yr ymatebwyr eu hunain wedi profi neu wedi bod yn dyst i YG yn eu hardal leol ac os felly, pa fathau. Nododd 28% o oedolion yn y flwyddyn y diweddu 2013 eu bod yn bersonol wedi profi neu weld o leiaf un o'r problemau YG yr holwyd yn eu cylch yn eu hardal leol yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag roedd hyn i lawr o 29% ers y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2012.

### <u>2.1.3 ATCLl: Nodweddion Dioddefwyr</u>

Mae data cysylltiedig â phrofiadau ac anghenion dioddefwyr yn ATCLl (ac ATP cyn hynny) yn dangos yn gyson bod ymatebion i ddioddef troseddau yn amrywio yn ôl natur y trosedd a nodweddion unigolion, cartrefi a chymdogaethau.


Yn gyffredinol, y mwyaf mewnwthiol yw'r trosedd, y mwyaf tebygol ydyw o effeithio'n ddirfawr ar y dioddefwr. Felly, mewn perthynas â dioddefwyr digwyddiadau treisgar, dywedodd 83% o ymatebwyr bod y digwyddiad wedi 'effeithio'n emosiynol' arnynt a dywedodd 24% bod y digwyddiad wedi 'effeithio'n fawr iawn' arnynt. Mae canran y dioddefwyr troseddau treisgar y cafodd y digwyddiad 'effaith fawr iawn' arnynt yn uwch nag mewn perthynas â mathau eraill o droseddau (er enghraifft fandaliaeth - 12%). Dioddefwyr camdriniaeth ddomestig brofodd yr ymateb emosiynol mwyaf gyda 92% o ddioddefwyr wedi'u 'heffeithio'n emosiynol' a 49% wedi'u 'heffeithio'n fawr iawn'.

**Ffigwr 5: Ymateb Emosiynol Dioddefwyr Troseddau Treisgar 2012/13 ATCLl**




Yn cyd fynd â hyn, dioddefwyr byrgleriaethau oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi'u 'hffeithio'n fawr iawn' gan y trosedd (27% o ddioddefwyr) ac mae'n bosibl fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y lleidr/lladron wedi ymwthio i 'le personol' y dioddefwr. Mewn gwrthgyferbyniad, dywedodd 7% o ddioddefwyr lladradau y tu allan i'r cartref neu fath arall o ladrad/ddwyn o'r cartref bod y digwyddiad wedi 'effeithio'n fawr iawn' arnynt. Roedd lladradau y tu allan i gartref a mathau eraill o ladradau o gartrefi yn dueddol o fod yn lladradau dodrefn gardd ac eitemau o'r tu allan i'r cartref ac yn llai tebygol o gael eu gweld fel achosion a effeithiodd ar breifatrwydd yr unigolyn.

**Ffigwr 6: Ymateb Emosiynol Dioddefwyr Troseddau'n Ymwneud ag Eiddo 2012/13**



2.1.4 Dioddefwyr Troseddau – ymchwil arall

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch digwyddiadau a chyfraddau troseddu'n gyfyngedig i ddata a gofnodir gan yr heddlu neu yn ATCLl. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae profiadau dioddefwyr trosedd o wahanol grwpiau wedi'u harchwilio'n eang mewn amrywiaeth o bapurau academaidd, papurau ymchwil cymhwysol ac adroddiadau Arolygiaethau. Mae cwmpas y prosiect hwn yn cyfyngu ar y graddau y gellir adolygu'r llenyddiaeth hwn ond mae'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch digwyddiadau o droseddau casineb, er enghraifft, yn cael ei ychwanegu ato gan ymchwil YouGov yn 2012. Ar ran Stonewall, arolygodd YouGov dros 2,5000 o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol ar draws Prydain er mwyn ymchwilio eu profiadau o droseddau casineb homoffobig[10]. Peintiodd yr arolwg ddarlun o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dioddef llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth yn amrywio o ymosodiadau corfforol i fygythiadau o drais drwodd i aflonyddu, difrïo geiriol a difrod i'w heiddo. At ei gilydd riportiodd 1 o bob 6 unigolyn lesbiaidd, hoyw a deurywiol eu bod wedi profi trosedd neu ddigwyddiad casineb homoffobig.

Gall troseddau, yn enwedig troseddau difrifol a'r rhai hynny sy'n cael eu cyflawni dro ar ôl tro yn erbyn yr un unigolyn, beri i'r dioddefwr ddatblygu problemau iechyd meddwl. Yn ychwanegol at hyn, mae pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl yn aml yn ynysig ac yn ddiamddiffyn o ganlyniad i'w cyflwr. Nid yw'n syndod felly bod ymchwil ddiweddar yn awgrymu fod pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn grŵp o ddioddefwyr sy'n annhebygol o fod wedi'u cynnwys yn nata troseddau cofnodedig yr heddlu, ac ni fyddant ychwaith wedi'u cynnwys mewn astudiaethau ynghylch dioddefwyr troseddau[11]. Cymharodd astudiaeth yn 2014 brofiadau pobl â salwch meddwl gyda phrofiadau'r boblogaeth yn gyffredinol. Canfuwyd bod bron hanner y bobl oedd â rhyw fath o salwch meddwl wedi profi trosedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pobl â salwch meddwl difrifol bum gwaith yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad ac roedd merched â salwch meddwl difrifol 10 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad. Dywedodd chwech o bob deg merch yn y grŵp hwn eu bod wedi dioddef trais rhywiol fel oedolion.

Yn ddiweddar mae'r ffordd y caiff pobl anabl eu trin gan y System Cyfiawnder Troseddol wedi bod yn destun cyd adolygiad thematig rhwng Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi.[12] Casgliad yr adroddiad terfynol oedd bod tan riportio troseddau casineb anabledd yn bryder arwyddocaol y mae angen rhoi sylw iddo. Gan gydnabod bod nifer fawr o fentrau yn ddiweddar wedi ceisio gwella'r ffordd y caiff pobl anabl eu trin yn y System Cyfiawnder Troseddol, roedd yr adroddiad yn argymell bod angen cymryd camau pellach i wella hyder pobl anabl i riportio materion i'r heddlu. Yn ychwanegol roedd yn dadlau bod angen gwell cefnogaeth i ddioddefwyr, y dylid caniatáu iddynt roi eu tystiolaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y llys a bod angen datblygu dulliau mwy priodol o roi gwybod i bobl anabl beth sy'n digwydd gyda'u hachos.

[10] Stonewall (2013) Homophobic Hate Crime: The Gay British Crime Survey 2013. Stonewall: London.

## 2.2 Tueddiadau Troseddu yn y Dyfodol

Fel y nodwyd ar dudalen 20, yng ngoleuni cyfeiriadedd comisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yn y dyfodol, mae'n bwysig ystyried tueddiadau sy'n dechrau dod i'r amlwg. Mae'n ymddangos bod trosedd yn gostwng. Mae'r nifer o ddioddefwyr a dioddefwyr am yr eildro neu fwy hefyd yn gostwng. Fwy nag erioed o'r blaen mae dioddefwyr troseddau rhyw difrifol yn dod ymlaen i riportio eu profiadau. Mae'r tueddiadau hyn yn gadarnhaol ond mae Garside ac eraill wedi rhybuddio rhag hunanfodlonrwydd.

2.2.1 Dioddefwyr Troseddau Treisgar

Mae'r DU ar hyn o bryd yn dechrau codi allan o ddirwasgiad. Syndod efallai felly yw gweld na wnaeth troseddu gynyddu ond yn hytrach gostwng yn ystod y dirwasgiad . Wrth edrych ar droseddau treisgar fodd bynnag, casgliad Garside yw mai yn fuan ar ôl ac nid yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad y mae troseddau o'r fath yn codi – felly hefyd droseddau'n ymwneud ag eiddo. Gan ddefnyddi data ATP/ATCLl gydag 1981 fel sylfaen o 100, mae'n olrhain tueddiadau mewn tri chategori o drais rhyngbersonol: yn y cartref, rhwng pobl sy'n adnabod ei gilydd a rhwng dieithriad o ddechrau'r dirwasgiad diwethaf yn 1981 hyd 2012.
Mae Garside yn dadlau fod yr ymarfer yn amlygu rhai tueddiadau pwysig. Mae un yn ymwneud â thrais yn gyffredinol, sy'n cynyddu yn ystod y dirwasgiad o 1981 i 1995 cyn disgyn yn ôl i'r man cychwyn. Mae trais rhwng dieithriad yn aros yn sefydlog drwy gydol yr adeg. Ar y llaw arall cododd trais rhwng pob oedd yn adnabod ei gilydd a phartneriaid agos yn sydyn tuag at ddiwedd ac ar ôl dirwasgiad y 1980au - rhwng 1990 a 1999 gan ddangos yr hyn y mae'n ei alw'n effaith 'ton hir'.

Mae Garside yn dadlau bod "dirwasgiadau yn niweidiol mewn llawer o wahanol ffyrdd: pobl yn colli eu swyddi; teuluoedd yn cael trafferth dwyn dau ben llinyn ynghyd; hunan-barch unigolion yn dioddef; problemau iechyd meddwl a phroblemau iechyd corfforol yn cynyddu". Mae'n dadlau y cydnabyddir yn eang fod y rhan fwyaf o bobl, yn arbennig merched a phlant, mewn llawer mwy o berygl o ddioddef niwed drwy law'r rhai y maent yn eu hadnabod ac yn eu caru na thrwy law dieithriaid. Mae'r data, meddai, yn awgrymu y gallai effeithiau dirwasgiad waethygu rhai mathau o risg yn arwyddocaol ond ei bod yn bosibl mai dim ond dros amser y bydd yr effeithiau yn dod i'r amlwg[13].

---

[11] Pettitt,B., Greenhead,S., Khalifeh,H., Drennan,V. Hart,T.,Hogg,J. Borschmann,R.,Mamo,E. a Moran,P. (2014) At Risk Yet Dismissed The criminal victimisation of people with mental health problems. Cymorth i Ddioddefwyr a MIND.
[12] ACEM, AHEM AGEGEM (2013) Living in a Different World: Joint Review of Disability Hate Crime
[13] http://www.crimeandjustice.org.uk/resources/property-crime-violence-and-recessions

2.2.2 Troseddau Rhyw

Er ar hyn o bryd bod dioddefwyr troseddau rhyw i'w gweld yn fwy parod i riportio'r troseddau, efallai mai ffenomen byrdymor yw hwn oherwydd yn yr hirdymor, efallai na fydd amlygu troseddau rhyw a gyflawnwyd gan bobl amlwg/enwog yn gwneud dim i herio'r ddealltwriaeth gyffredin ynghylch troseddwyr rhyw na'u dioddefwyr. Mae'r tueddiad presennol yn awgrymu mai 'ym mynd y sêr' y mae'r perygl i ferched a phlant yn hytrach nag yn y lle y mae'n bodoli fel arfer - yn y cartref. Mae'n cysylltu'r broblem â phobl anarferol fel Saville ac â'r aml-berthnasau a'r rhyddid rhywiol a gysylltir â'r diwylliant enwogion yn hytrach nag a'r 'norm dau berson' mwy cyffredin. Mae'r anawsterau ymarferol cysylltiedig ag erlyn achosion hanesyddol o gamdriniaeth rywiol a'r tueddiad i reithgorau beidio â choelio y gallai pobl enwog fod yn euog o droseddau difrifol (Chamberlain et al. 2006),[14] yn gosod y llwyfan ar gyfer nifer uchel o ryddfarniadau a fydd yn sicr yn arwain at ragor o gwestiynau ynghylch credadwyaeth dioddefwyr mewn achosion yn ymwneud â throseddau rhyw.

2.2.3 Troseddau Cefn Gwlad

Yn y blynyddoedd diwethaf codwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn troseddau mewn ardaloedd gwledig ac yn enwedig troseddau 'fferm' yn ymwneud â dwyn da byw a pheiriannau amaethyddol mawr. Oherwydd hyn, ym mis Tachwedd 2011, cynhaliodd CPSH seminar troseddau cefn gwlad o'r enw 'Cau'r Giât Ar Droseddau Cefn Gwlad'. Yn y digwyddiad hwn nodwyd bod plismona ardaloedd gwledig, sy'n dueddol o fod yn ynysig, yn cyflwyno sawl her i heddluoedd. Dywedwyd bod plismona yn yr ardaloedd gwledig yn gofyn am ymdriniaeth blismona seiliedig ar adeiladu a datblygu rhwydweithiau anffurfiol yn y gymuned amaethyddol a cheisio cymorth aelodau o'r gymuned i leddfu'r pwysau ar adnoddau plismona ffurfiol' (Jones and Phipps 2012)[15]. Mynegwyd pryderon bod dulliau o blismona ardaloedd gwledig a adeiladwyd ar y strategaeth hon yn golygu nad yw'r heddlu wedi gwneud dim heblaw trosglwyddo'r baich o blismona ardaloedd gwledig i ysgwyddau'r cymunedau gwledig. I'w roi mwn geiriau eraill – nid yw'r cydbwysedd rhwng plismona ffurfiol ac anffurfiol mewn ardaloedd gwledig wedi bod yn gywir.

2.2.4 Troseddau/Twyll ar y Rhyngrwyd

Yn y blynyddoedd diweddar gwelwyd twf cyflym mewn mynediad i'r rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o ddyfeisiadau symudol sy'n galluogi mynediad i'r rhyngrwyd ar draws yr holl grwpiau cymdeithasol ddemograffig, ond yn enwedig pobl ifanc. Amcangyfrifir bod tua 4 o bob 5 cartref â mynediad i'r rhyngrwyd, gyda thair dyfais sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd ar gyfartaledd ym mhob un.[16] Mae datblygiadau technolegol yn parhau i wella'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu ac ymgysylltu ond maent hefyd yn creu cyfleoedd newydd i gyflawni troseddau. Mae pryderon ynghylch troseddau seiber wedi dod i'r amlwg ac mae'n ymddangos ar hyn o bryd eu bod yn cynyddu.

---

[14] Chamberlain,J., Miller,M.K. and Jehle,A. (2006) 'Celebrities in the courtroom: legal responses, psychological theory and empirical research'. Vanderbuilt Journal of Entertainment and Technology Law. Vol.8, no. 3 , pp. 551-572

[15] Jones, J. and Phipps, J. (2012) Policing farm crime in England and Wales, Papurau o'r Gynhadledd Droseddeg Brydeinig, Cyfrol, Vol. 12: 3-24. Ar gael yn http://www.britsoccrim.org/volume12/pbcc_2012_Jones.pdf

2.2.5 Troseddau Casineb ar Sail Anabledd

Mae'n ymddangos bod troseddau yn erbyn pobl yn y gymuned sydd ag anableddau dysgu wedi denu mwy a mwy o sylw yn y cyfryngau dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Bu sawl achos proffil uchel yn ymwneud â throseddau casineb anabledd yn ystod y cyfnod hwn ble ymddengys fod y System Cyfiawnder Troseddol wedi methu â rhoi'r gwasanaeth iawn i ddioddefwyr ag anableddau. Oherwydd bod canran sylweddol o droseddu yn erbyn pobl ag anableddau yn ymwneud ag unigolion sy'n cam-fanteisio ar y ffydd sydd gan y dioddefwr ynddynt, gan eu bod yn cymryd arnynt i fod yn ffrind i'r dioddefwr, mae term newydd wedi'i fathu sy'n disgrifio'r fath droseddau fel 'troseddau cyfaill'.

2.2.6 Masnachu Pobl

Yn 2013, cofnodwyd 581 achos o oedolion wedi'u masnachu i ddibenion ecsbloetio rhywiol yn y DU (18 yng Nghymru). Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 53% (80% yng Nghymru) o gymharu â 2012, er nad yw'n glir i ba raddau y mae'r cynnydd hwn wedi digwydd o ganlyniad i gynnydd mewn riportio yn hytrach na chynnydd yn y nifer o achosion.

## 2.3 Crynodeb o'r Bennod

Mae cynnwys y bennod yn rhoi cefndir ar gyfer y prosiect ymchwil presennol.

- Mae bod yn ddioddefwr trosedd yn brofiad cymhleth ond nodir yn y llenyddiaeth bod rhai troseddau (sy'n ymwneud â thrais, aildroseddu neu droseddu yn erbyn y diamddiffyn) yn fwy tebygol o fod ag ôl-effeithiau hirdymor.

---

[16] ONS (2013) Internet Access - Households and Individuals, 2013

- Mae'n ymddangos bod niferoedd ac achosion o droseddu yn gostwng yng Nghymru a Lloegr .

- Mae gostyngiad yn y niferoedd sy'n dioddef am yr eildro neu fwy wedi cyfrannu tuag at y gostyngiad mewn troseddu yn gyffredinol

- Yn ôl arolygon cenedlaethol fodd bynnag, mae dioddef trosedd yn rhywbeth fydd yn digwydd i un o bob pum person bob blwyddyn.

- Mae'r llenyddiaeth helaeth sydd ar gael am ddioddefwyr trosedd yn awgrymu bod profiadau rhai grwpiau yn cael eu tanriportio ac na wneir digon i fynd i'r afael â nhw

- Mae ymwybyddiaeth o'r troseddu a brofir gan gymunedau gwledig, ar-lein a gan bobl anabl yn dod i'r amlwg.

- Mae globaleiddio wedi codi pryderon ynghylch masnachu pobl a throseddau seiber ac efallai nad yw effeithiau ton hir y dirywiad economaidd byd-eang a'r effeithiau Coeden Ywen wedi dechrau dod i'r amlwg eto.

# Pennod Tri: Casgliadau – Anghenion dioddefwyr yng ngogledd Cymru

Mae'r bennod hon yn ymateb i amcan cyntaf y prosiect ymchwil hwn:

> Cwmpasu'r data a'r llenyddiaeth sy'n bodoli ynghylch graddau a natur dioddefwyr trosedd yn chwe sir gogledd Cymru a gweld sut y gallai hyn amrywio yn ôl daearyddiaeth.

## 3.0 Y Cyd-destun[17]

**Ffigwr 7: Ardaloedd Awdurdod Lleol Gogledd Cymru**




Adeg y cyfrifiad diwethaf poblogaeth Gogledd Cymru oedd 687,800. Mae chwe Awdurdod Lleol (ALl) yn yr ardal – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Fel y mae tabl 6 isod yn ei ddangos, Sir y Fflint yn y gogledd ddwyrain sydd â'r boblogaeth fwyaf, sef 152,500 ac Ynys Môn yn y gogledd orllewin sydd â'r boblogaeth leiaf, sef 69,700.

**Tabl 6: Poblogaeth y 6 Awdurdod Unedol yng Ngogledd Cymru**


| Awdurdod Lleol | Poblogaeth |
|---|---|
| Ynys Môn | 69, 700 |
| Gwynedd | 121, 900 |

[17] Ffynhonnell Data: http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/LPHTeamsDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/1f8cc80f2b5f90d4802579a500550008/$FILE/NorthWalesProfileUpdate2011_Final1CJ_x.pdf

| | |
|---|---|
| Conwy | 115, 200 |
| Sir Ddinbych | 93, 700 |
| Sir y Fflint | 152, 500 |
| Wrecsam | 134, 800 |

Fel y gwelir yn ffigwr 8, mae pump o chwe sir gogledd Cymru ymysg deng sir leiaf poblog Cymru.

**Ffigwr 8: Poblogaeth a Thrwch: Cymru ac Awdurdodau Unedol, 2011**




Er y dynodir y rhan fwyaf o siroedd fel rhai â phoblogaethau isel, mae 62 ardal yng ngogledd Cymru sydd wedi'u dosbarthu'n rhai 'trefol' (h.y. â phoblogaeth o 1,500 neu fwy). Mae 14 ardal â phoblogaeth o 10,000 o bobl neu fwy (Tabl 7). Fel y dangosir isod mae'r prif grynoadau o boblogaeth i'w canfod yn ardaloedd dwyreiniol gogledd Cymru .

**Tabl 7: Prif ardaloedd trefol Gogledd Cymru, cyfrifiad 2011**

| Ardal | Ardal Awdurdod Lleol | Poblogaeth Breswyl |
|---|---|---|
| Wrecsam | Wrecsam | 42,576 |
| Bae Colwyn | Conwy | 30,269 |
| Y Rhyl | Sir Ddinbych | 25,390 |

| | | |
|---|---|---|
| Shotton (+ Penarlâg) | Sir y Fflint | 24,751 |
| Prestatyn | Sir Ddinbych | 18,496 |
| Bwcle | Sir y Fflint | 18,268 |
| Brymbo/Gwersyllt | Wrecsam | 17,912 |
| Abergele | Conwy | 17,574 |
| Cei Connah | Sir y Fflint | 16,526 |
| Bangor | Gwynedd | 15,280 |
| Llandudno | Conwy | 14,872 |
| Rhosllanerchrugog | Wrecsam | 13,246 |
| Y Fflint | Sir y Fflint | 11,936 |
| Caergybi | Ynys Môn | 11,237 |

Mae amddifadedd daearyddol yn gysyniad anodd ei feintioli a gellir ei fesur drwy gyfeirio at amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys incwm teuluol, dosbarth cymdeithasol, y nifer o blant sy'n cael prydau ysgol am ddim ac yn y blaen. Mesur o amddifadedd daearyddol a ddefnyddir yn gyffredin yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) sy'n cofnodi amddifadedd yn ôl yr hyn a elwir yn Ardal Gynnyrch Ehangach Is (AGEI/LSOA). Yn seiliedig ar y mesur hwn ac yn canolbwyntio ar ogledd Cymru, yn sir Ddinbych y mae'r nifer fwyaf o bobl sy'n byw yn y 10% mwyaf difreintiedig o AGEI ac yn Wrecsam y mae'r nifer fwyaf o bobl sy'n byw yn yr 20%, 30% a 50% mwyaf difreintiedig o AGEI.

Ystadegau nodedig ar gyfer gogledd Cymru yw bod cyfartaledd y boblogaeth Ddu a Lleiafrifol Ethnig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 2.4% o gymharu â 4.4%. Mae Tabl 8 yn dangos, ar lefel Awdurdod Lleol, bod ffigyrau DLlE yn amrywio o 1.5% yn Sir y Fflint i 3.5% yng Ngwynedd

**Tabl 8: Poblogaeth DLlE yn ôl Ardal Awdurdod Lleol**

| Ardal | Gwyn | DLlE | Cymysg |
|---|---|---|---|
| Cymru | 95.6 | 4.4 | 1.0 |
| Ynys Môn | 98.3 | 1.7 | 0.6 |
| Gwynedd | 96.5 | 3.5 | 0.8 |
| Conwy | 97.7 | 2.3 | 0.7 |
| Sir Ddinbych | 97.4 | 2.6 | 0.8 |
| Sir y Fflint | 98.5 | 1.5 | 0.5 |
| Wrecsam | 96.1 | 3.1 | 0.7 |

Mae gan 88,600 o bobl o oedran gweithio yng ngogledd Cymru anabledd. Canran y bobl o oedran gweithio sydd ag anabledd yng ngogledd Cymru yw 21.4% sydd yn is na'r ganran yng Nghymru, sef 24.4%. Fel y mae Tabl 9 yn ei ddangos, yn sir Ddinbych y mae'r ganran uchaf o bobl ag anableddau yng ngogledd Cymru ac yng Ngwynedd y mae'r ganran isaf.

**Tabl 9: Pobl a gofnodwyd fel bod yn Anabl yn ôl Ardal Awdurdod Lleol**

| Ardal | Number | % |
|---|---|---|
| Cymru | 463,300 | 24.4 |
| Ynys Môn | 8,900 | 21.5 |
| Gwynedd | 14,100 | 19.3 |
| Conwy | 13,900 | 21.7 |
| Sir Ddinbych | 13,800 | 23.6 |
| Sir y Fflint | 19,300 | 20.3 |
| Wrecsam | 18,600 | 21.7 |


Yr Arolwg Cartrefi Integredig yw'r arolwg cymdeithasol mwyaf a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ychwanegwyd cwestiynau ynghylch hunaniaeth rywiol at yr arolwg yn 2009 ac fe'u gofynnir i ymatebwyr 16 oed a throsodd. Nid yw'n bosibl dadelfennu ystadegau Cymru er mwyn gweld ystadegau gogledd Cymru ond ymddengys yn annhebygol y byddai'r canlyniadau yn amrywio'n arwyddocaol:

**Tabl 10: Hunaniaeth rywiol yn ôl Rhyw, Cymru, Ebrill - Mawrth 2009/10 a 2010/11**

| Cyfeiriadedd | Canran |
|---|---|
| Heterorywiol | 94.2 |
| Hoyw/Lesbiaidd | 0.9 |
| Deurywiol | 0.3 |
| Arall | 0.3 |
| Ddim yn gwybod/gwrthod dweud | 2.9 |
| Dim ymateb | 1.4 |

Yng ngogledd Cymru, canran y boblogaeth sydd yn 75 oed a throsodd yw 9.3%, sydd yn uwch na'r gyfran yng Nghymru gyfan, sef 8.6%. Eto, mae amrywiadau ar draws gogledd Cymru. Mae canran uchaf y bobl 75 oed a throsodd yn byw yn ardal ALl Conwy, sef 11.7% a'r ganran isaf yn Sir y Fflint, sef 7.3%. Mae pedair o'r chwe ardal ALl â chanrannau uwch o'r boblogaeth yn 75 oed a throsodd sydd yn adlewyrchu'r tueddiad i bobl ymddeol yn ardal gogledd Cymru

**Ffigwr 9: Canran y Boblogaeth sydd yn 75 oed neu fwy yn ôl Ardal Awdurdod Lleol**




Mae'n bwysig nodi y rhagwelir bydd y grŵp oedran 65 oed a throsodd yng ngogledd Cymru wedi cynyddu 60% erbyn 2033.

Mae canran y bobl dros tair oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio o 12.9% yn Wrecsam i 65.4% yng Ngwynedd.


Mae Gogledd Cymru wedi profi mewnlifiad o weithwyr ymfudol, yn enwedig o Ddwyrain Ewrop, dros y blynyddoedd diwethaf (yn arbennig o Wlad Pwyl a Phortiwgal).

Mae Gogledd Cymru yn gyrchfan dwristiaid boblogaidd ac mae trefi glan y môr Llandudno, y Rhyl a Phrestatyn yn arbennig o boblogaidd gydag ymwelwyr o ogledd orllewin Lloegr. Mae crynoadau uchel o feysydd carafán ar hyd llain arfordirol gogledd Cymru, yn bennaf o amgylch Bae Cinmel a Thowyn.

## 3.1 Heddlu Gogledd Cymru

Mae tua 1450 swyddog Heddlu, 250 Swyddog Cefnogi Cymuned a dros 800 aelod o staff ategol yn gweithio i Heddlu Gogledd Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gyfrifol am blismona chwe ardal awdurdod lleol gogledd Cymru drwy gyfarwyddyd o'r canol ar gyfer rhai materion plismona, megis rheoli digwyddiadau mawr ac ymdrin â throseddau trefnedig, ond mae'r rhan fwyaf o'i weithgareddau plismona wedi'u gwreiddio'n gadarn yn y deng ardal blismona lleol sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, sef:

**Ffigwr 10: Ardaloedd Plismona Lleol Heddlu Gogledd Cymru**




Rhwng Ebrill 2013 a Chwefror 2014 derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru 76,243 galwad frys '999' a chyfanswm o 297,612 o alwadau ar rifau difrys gan gynnwys y rhif 101 (galwadau llinell Gymraeg 19,922; galwadau llinell Saesneg 277,690). Yn yr un cyfnod gwnaed13,513 arest.[18]

Mae pedair Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng ngogledd Cymru. Ers 2012/13, mae Ynys Môn a Gwynedd wedi gweld newidiadau yn eu prosesau partneriaeth gyda chyfuniad y ddwy ardal yn un strwythur Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae Conwy/Sir Ddinbych hefyd wedi cyfuno i greu un Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ond mae Sir y Fflint a Wrecsam yn parhau i weithredu ar wahân.

## 3.2 Trosedd a dioddefwyr trosedd yng Ngogledd Cymru

Mae data a roddwyd i'r ymchwilwyr gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu y bu 36,448 trosedd cofnodedig ar draws gogledd Cymru yn y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2012

**Tabl 11: Troseddau Cofnodedig yn ôl math o drosedd**

| Trosedd | 2013 | % newid 2013 | 2012 | % newid 2012 i | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn unigolyn | 9603 | -4.8% | 10085 | 5.9% | 10719 |
| Trosedd rhyw | 903 | 4.2% | 867 | 29.4% | 670 |
| Ysbeiliad | 128 | -14.1% | 149 | -6.3% | 159 |

[18] Data gan SCHTh

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Byrgleriaeth | 1657 | 6.1% | 1562 | -16.6% | 1872 |
| Byrgleriaeth (heb fod o annedd) | 2877 | -3.8% | 2991 | -14.5% | 3499 |
| Cyffuriau | 1789 | 6.2% | 1684 | -4.4% | 1762 |
| Dwyn cerbyd | 1606 | -9.3% | 1870 | -8.4% | 20141 |
| Cymryd cerbyd heb ganiatâd | 509 | 12.4% | 581 | -18.1% | 709 |
| Ymyrryd â Cherbyd | 163 | 15.6% | 141 | -29.1% | 199 |
| Dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn | 9525 | 4.6% | 9107 | -15.5% | 10776 |
| Arson | 290 | -14.5% | 339 | 4.3% | 325 |
| Difrod Troseddol | 6719 | -7.9% | 7295 | -14.0% | 8483 |
| Trosedd - Arall | 589 | -2.0% | 601 | -17.4% | 728 |
| Crynodeb | 36448 | -2.2% | 37272 | -11.1% | 41942 |

Fel y mae'r data'n awgrymu, ac fel sy'n wir ar lefel Cymru a Lloegr, mae troseddau eiddo a thrais yn erbyn yr unigolyn yn elfennau pwysig mewn troseddu yn gyffredinol. Yn ychwanegol mae trosedd yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn gostwng. Rhwng 2010/11 a 2012/13 yn ardal HGC disgynnodd troseddau cofnodedig (ac eithrio twyll) 9%. Dros y cyfnod hwn hefyd disgynnodd troseddau seiliedig ar ddioddefwr 7%[19].

Mae'r data yn dangos gostyngiadau flwyddyn ar flwyddyn yn y rhan fwyaf o fathau o drosedd ar draws gogledd Cymru, ond mae cynnydd wedi'i gofnodi yn y deuddeg mis hyd Medi 2013 mewn troseddau rhyw, byrgleriaeth, troseddau cyffuriau, rhai troseddau cysylltiedig â cherbydau a throseddau dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn.

Cafwyd data Troseddau Cofnodedig ar gyfer pob ardal awdurdod lleol gan y SYG yn Ebrill 2012 wrth i'r adroddiad hwn gael ei roi at ei gilydd. Mae'r ffigyrau canlynol yn berthnasol i'r 12 mis yn diweddu Rhagfyr 2013

**Tabl 12: Troseddau Cofnodedig Gogledd Cymru yn ôl Ardal Awdurdod Lleol (12 mis hyd Rhagfyr 2013)**

| Trosedd | Môn | Conwy | Dinbych | Fflint | Gwynedd | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob trosedd o ddwyn arall | 376 | 763 | 671 | 1064 | 802 | 1137 |
| *Cyfradd fesul 1000 o'r boblogaeth* | *5.4* | *6.6* | *7.1* | *7.0* | *6.6* | *8.4* |
| Dwyn beics | 32 | 103 | 64 | 143 | 67 | 146 |
| *Cyfradd fesul 1000* | *0.4* | *0.5* | *0.7* | *0.9* | *0.5* | *1.1* |

[19] Yr holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu lle mae dioddefwr uniongyrchol. Gallai'r dioddefwr hwn fod yn unigolyn, yn sefydliad neu'n gorff corfforaethol. Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddau treisgar wedi'u hanelu at unigolyn/unigolion penodol, troseddau rhyw, ysbeiliad, dwyn (yn cynnwys byrgleriaeth a throseddau cerbyd), difrod troseddol ac arson

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *o’r boblogaeth* | | | | | | |
| Difrod troseddol ac arson | 592 | 124 | 917 | 1412 | 1114 | 1788 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *8.5* | *10.8* | *9.8* | *9.3* | *9.1* | *13.2* |
| Byrgleriaeth o Annedd | 78 | 26 | 228 | 370 | 145 | 629 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *1.1* | *2.3* | *2.4* | *2.4* | *1.2* | *4.6* |
| Troseddau Cyffuriau | 182 | 34 | 288 | 261 | 410 | 360 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *2.6* | *3.* | *3.1* | *1.7* | *3.4* | *2.7* |
| Dynladdiad | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *n/a* | *n/a* | *n/a* | *n/a* | *n/a* | *n/a* |
| Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas | 57 | 61 | 57 | 81 | 67 | 114 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *0.8* | *0.5* | *0.6* | *0.5* | *0.5* | *0.8* |
| Byrgleriaethau heb fod o Annedd | 153 | 455 | 279 | 724 | 392 | 918 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *2.2* | *3.9* | *3.0* | *4.7* | *3.2* | *6.8* |
| Troseddau meddu ar arf | 17 | 31 | 22 | 19 | 30 | 32 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *0.2* | *0.3* | *0.2* | *0.1* | *0.2* | *0.2* |
| Troseddau trefn gyhoeddus | 130 | 248 | 236 | 214 | 318 | 350 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *1.9* | *2.1* | *2.5* | *1.4* | *2.6* | *2.6* |
| Ysbeiliad | 12 | 16 | 19 | 17 | 11 | 43 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *n/a* | *n/a* | *n/a* | *n/a* | *n/a* | *n/a* |
| Troseddau Rhyw | 64 | 139 | 149 | 157 | 147 | 226 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | 0.9 | *1.2* | *1.6* | *1.0* | *1.2* | *1.7* |
| Dwyn o Siopau | 292 | 725 | 486 | 639 | 617 | 1063 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | | *6.* | *5.2* | *4.2* | *5.1* | *7.9* |
| Dwyn oddi ar yr unigolyn | 17 | 2 | 24 | 26 | 33 | 67 |
| *Cyfradd fesul 1000 o’r boblogaeth* | *1.7.7* | *0.* | *0.3* | *0.2* | *0.3* | *0.5* |
| Troseddau Cerbyd | 152 | 37 | 221 | 543 | 355 | 818 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyfradd fesul 1000 o'r boblogaeth* | *2.2* | *3.2* | *2.4* | *3.9* | *2.9* | *6.1* |
| Trais gydag anaf | 239 | 653 | 668 | 792 | 632 | 966 |
| *Cyfradd fesul 1000 o'r boblogaeth* | *3.4* | *5.7* | *7.1* | *5.2* | *5.2* | *7.2* |
| Trais heb anaf | 432 | 733 | 664 | 680 | 743 | 963 |
| *Cyfradd fesul 1000 o'r boblogaeth* | *6.2* | *6.4* | *7.1* | *4.5* | *6.1* | *7.1* |
| Cyfansymiau | 2817 | 6160 | 4973 | 7122 | 5862 | 9598 |
| *Cyfradd fesul 1000 o'r boblogaeth* | *.40.1* | *50.4* | *53.0* | *46.5* | *48.0* | *71.0* |

Nid yw'n syndod mae'n debyg o ystyried y wybodaeth ynghylch poblogaeth a gyflwynwyd eisoes, bod cyfraddau uwch o droseddau cofnodedig yn Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy nag yng Ngwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn.

Mae cyfraddau dioddef trosedd fesul fil o'r boblogaeth fodd bynnag yn awgrymu bod dioddef trosedd yn rhywbeth sy'n digwydd yn fwy cyffredin yn Wrecsam a Sir Ddinbych nag yn unman arall.

Mae'r data trosedd cyfanredol yn cuddio rhai amrywiadau. Er bod cyfraddau'r rhan fwyaf o droseddau yng ngogledd Cymru yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, nid dyma'r achos mewn perthynas â 'difrod troseddol ac arson' a 'throseddau treisgar a rhywiol.' Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng ngogledd Cymru (fesul pen o'r boblogaeth) o gymharu â gweddill Cymru a Lloegr.[20] Gellir gweld yn y 12 mis hyd Mawrth 2012 bod cyfraddau trais yn erbyn yr unigolyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Tabl 13: Cyfraddau trosedd dethol fesul 1000 o'r boblogaeth (12 mis hyd Mawrth 2013)**

| | Cyfradd fesul 1000 o boblogaeth Gogledd Cymru | Cyfradd fesul 1000 o boblogaeth Cymru a Lloegr |
|---|---|---|
| Trosedd (heb gynnwys twyll) | 54.0 | 61.4 |
| Troseddau seiliedig ar ddioddefwr | 47.9 | 54.5 |
| Byrgleriaeth | 6.6 | 8.2 |

[20] AHEM (2013) Ymateb Heddlu Gogledd Cymru i'r her ariannu

| | | |
|---|---|---|
| Trais yn erbyn yr unigolyn | 12.1 | 10.6 |
| Digwyddiadau YG | 36.6 | 40.7 |

Mae cyfraddau riportio achosion o drais rhywiol yng ngogledd Cymru hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 30.3 o gymharu â 22 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Yma wrth gwrs daw dehongli'r data yn broblemus. Deellir yn gyffredinol bod rhai mathau o droseddau'n cael eu tanriportio'n sylweddol. Felly mae cyfraddau uchel o gofnodi rhai mathau o droseddau e.e. ymosodiadau rhywiol, yn fwy tebygol o gael ei ddehongli fel arwydd o ymatebolrwydd yr heddlu i ddioddefwyr yn hytrach na bod mwy o achosion o'r trosedd penodol hwnnw yn digwydd mewn unrhyw ardal.

## 3.3 Ymchwil i Anghenion Dioddefwyr yng ngogledd Cymru

3.3.1 Prosiect Eiriolwr Gwasanaethau ar gyfer Dioddefwyr (EGD)[21]

Yn 2011, mewn paratoad ar gyfer yr adeg pan fyddai CHTh yn cymryd cyfrifoldeb dros gomisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr, gofynnodd cyn gomisiynydd dioddefwyr a thystion Cymru a Lloegr i Gymorth i Ddioddefwyr holi ynghylch anghenion dioddefwyr yng Nghymru a Lloegr. Yn dilyn y cais hwn cynhaliwyd Prosiect Eiriolwr Gwasanaethau ar gyfer Dioddefwyr (EGD) a arweiniodd at adroddiadau ynghylch anghenion dioddefwyr ym mhob un o'r 42 ardal trosedd ac anhrefn. Roedd yr adroddiad terfynol a gynhyrchwyd ar gyfer gogledd Cymru yn anelu at:

1. Roi darlun o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr yng ngogledd Cymru
2. Adnabod yr hyn y mae dioddefwyr yng ngogledd Cymru ei angen gan wasanaethau lleol
3. Awgrymu sut y dylai'r CHTh ddiwallu'r anghenion hyn.

Roedd y prosiect 12 mis yn canolbwyntio yn bennaf ar wasanaethau ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, camdriniaeth ddomestig, trais rhywiol, troseddau casineb, dioddefwyr trosedd ifanc a'r rhai sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i lofruddiaeth neu ddynladdiad. Cwblhawyd y prosiect mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid lleol ac yn dilyn grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda dioddefwyr trosedd. Yn arwyddocaol, roedd yn rhaid i lawer o waith yr EGD gael ei arwain gan gasgliadau cenedlaethol ynghylch anghenion dioddefwyr a hynny oherwydd ei bod 'yn anodd dod o hyd i fawr ddim ymchwil oedd wedi'i wneud yn lleol.'

Casgliad yr adroddiad oedd:

[21] Gwrando a Dysgu: Gwella Cefnogaeth ar gyfer Dioddefwyr yng ngogledd Cymru

- Y sector gwirfoddol sy'n darparu'r rhan fwyaf o gefnogaeth i ddioddefwyr yn yr ardal ond roedd cynaladwyedd hirdymor llawer o wasanaethau yn aneglur gan eu bod yn dibynnu ar ffynonellau nawdd bregus.

- Diffyg grwpiau cefnogi ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol (sef 47% o'r holl bobl sy'n cysylltu â'r heddlu yng ngogledd Cymru), plant a phobl ifanc a dioddefwyr o grwpiau diamddiffyn.

- Roedd dioddefwyr yn fodlon ar y cyfan â chyswllt yr heddlu ond er bod yr heddlu yn hyderus fod pob dioddefwr yn cael ei gyfeirio at Cymorth i Ddioddefwyr, roedd dioddefwyr yn llai sicr bod hyn yn digwydd.

- Roedd y rhai hynny oedd yn riportio eu bod wedi dioddef trosedd eildro neu fwy yn awgrymu nad oedd staff y system cyfiawnder troseddol yr oeddynt yn siarad â nhw yn aml yn ymwybodol o'r hanes.

- Roedd dioddefwyr camdriniaeth ddomestig ac ymosodiadau rhyw yn gadarnhaol ynghylch eu cyswllt cyntaf a'r heddlu, ond yn bwysig iawn nid oeddynt yn cael eu cyfeirio at y grwpiau cefnogi priodol nac yn cael eu diweddaru wrth i'r ymchwiliadau fynd yn eu blaen.

- Roedd pobl ifanc eisiau'r un gwasanaethau â dioddefwyr eraill ond yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag amheuaeth.

Yn seiliedig ar eu casgliadau gwnaeth y EGD yr argymhellion canlynol ar gyfer datblygu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr:

- Dylid rhoi blaenoriaeth i wella cyfathrebiadau rhwng SCT a dioddefwyr. Yn y cyswllt hwn dylid ystyried neilltuo un pwynt cyswllt unigol ar gyfer dioddefwyr

- Dylid lansio ymgyrch i roi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ei anelu at y cyhoedd a phobl broffesiynol yn y maes. Dylent hefyd godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod cefnogaeth ar gael ar gyfer mathau o gamdriniaeth ddomestig nad ydynt yn droseddol, er enghraifft camdriniaeth feddyliol ac ariannol.

- Dylid ystyried yn ofalus yr holl wasanaethau cefnogi sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dylid datblygu rhwydwaith er mwyn sicrhau bod y grwpiau'n diwallu anghenion yr ardal heb fod dyblygu gwaith diangen yn digwydd.

- Dylid ymchwilio'r angen i ehangu'r Ganolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhyw (SARC) a darpariaeth yr Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol.

- Dylid adolygu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a datblygu ymdriniaeth gyson ar draws gogledd Cymru. Dylai hyn gynnwys datblygu proses fonitro perfformiad rhyngasiantaeth sy'n cysylltu'r sefydliadau proffesiynol sy'n gyfrifol am gefnogi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws gogledd Cymru.

- Dylid helpu asiantaethau i fod yn ymwybodol o'r ffynonellau o nawdd sydd ar gael. Er mwyn sicrhau fod gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr pob math o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i gefnogi'r rhai hynny sydd eu hangen fwyaf, dylid rhedeg y ffynonellau hyn am isafswm o dair blynedd a'u rhoi allan am dendr o leiaf dri mis cyn cychwyn y contractau tair blynedd newydd.

3.3.2 AHEM: Camdriniaeth Ddomestig[22]

Ym Medi 2013, comisiynodd yr Ysgrifennydd Cartref AHEM i edrych ar ymateb heddluoedd i drais domestig. Casglodd AHEM ddata ac adolygwyd ffeiliau gan y 43 heddlu a noddir gan y Swyddfa Gartref; siaradwyd â 70 dioddefwyr camdriniaeth ddomestig mewn grwpiau ffocws a chynhaliwyd arolwg ar-lein gyda 100 o ddioddefwyr. Yn ogystal holwyd 200 o bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Casgliad yr adroddiad oedd, er bod y rhan fwyaf o heddluoedd a CHTh yn dweud fod camdriniaeth ddomestig yn flaenoriaeth yn eu hardaloedd, nid oedd hyn wedi troi yn realiti gweithredol. Yn ôl yr adroddiad, er bod cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn dros y ddegawd ddiwethaf, nid yw arweinwyr pob heddlu yn sicrhau bod camdriniaeth ddomestig yn flaenoriaeth i'w heddlu, ac yn wir mewn rhai ardaloedd roedd yn berthynas dlawd i weithgareddau plismona eraill.

O safbwynt gogledd Cymru canfu AHEM risgiau allweddol, sef nad oes gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau y gellir bob amser adnabod dioddefwyr agored i niwed a phobl sydd wedi dioddef fwy nag unwaith. Roedd risg felly nad oedd rhai dioddefwyr yn cael y lefel gywir o ymateb gan yr heddlu ar y cyfle cynharaf bosibl ac nad oedd swyddogion oedd yn mynychu digwyddiadau bob amser yn meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol a gedwir gan yr heddlu wrth fynd ati i asesu a dosbarthu'r lefel o risg i'r dioddefwr. Ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o achosion o gamdriniaeth ddomestig gan swyddogion lleol nad ydynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ymchwilio na thrais domestig arbenigol, ychwanegol. Nid oedd eu cydymffurfiad â rhai polisïau (e.e. yr angen i gwblhau asesiadau risg) yn cael ei fonitro. O ganlyniad i hyn nid oedd arolygwyr AHEM yn hyderus fod y risg i ddioddefwyr yn cael ei asesu'n gyson (gan ddefnyddio DASH) a'i adolygu ym mhob achos.

Ar ddiwedd yr adroddiad cynhwysfawr gwnaed y deng argymhelliad canlynol:

[22] http://www.hmic.gov.uk/wp-content/uploads/2014/03/north-wales-approach-to-tackling-domestic-abuse.pdf

- Dylai'r heddlu sefydlu system briodol a fydd yn helpu i adnabod pobl sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig eisoes yn ogystal â dioddefwyr agored i niwed ar y pwynt cyswllt cyntaf.

- Dylai'r Heddlu ystyried creu math o 'gymorth cof' electronig i gynorthwyo trinwyr galwadau yn ystod y cyswllt cychwynnol i gael gwybodaeth berthnasol ynghylch pa mor agored i niwed yw galwr, neu a yw'r galwr wedi ffonio o'r blaen mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig.

- Byddai darpariaeth polisi camdriniaeth ddomestig penodol ar gyfer yr heddlu yn rhoi mwy o eglurder parthed y diffiniadau, y prosesau a'r gweithdrefnau i'w defnyddio mewn ymateb i ddigwyddiadau o gamdriniaeth ddomestig.

- Dylai'r heddlu adolygu ei hyfforddiant camdriniaeth ddomestig. Dylid adnabod y staff hynny sy'n ymwneud ag achosion o gamdriniaeth ddomestig a sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant priodol.

- Dylai'r Heddlu adolygu ac egluro rolau'r Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig (CCDd) a'r Swyddog Trais Domestig (STD).

- Wrth glustnodi adnoddau ar gyfer ymchwilio i achosion, dylai'r heddlu adolygu lefelau o fygythiad, risg a pherygl i ddioddefwyr.

- Yr heddlu i adolygu cyfrifoldeb a pherchnogaeth o gynlluniau diogelwch ac adolygiadau o risg.

- Yr heddlu i wella goruchwyliaeth o ffurflenni DASH a ffeiliau ymchwilio i achosion o drais domestig er mwyn darparu cysondeb ac atebolrwydd.

- Yr heddlu i adolygu strwythur presennol y MARAC a chyfarfodydd y fforwm camdriniaeth ddomestig lleol.

- Yr heddlu i adolygu'r broses o adnabod cyflawnwyr troseddau gan ddefnyddio bygythiad, niwed a risg i hysbysu'r asesiadau.

Fel rhan o'r arolygiad o ymateb yr heddlu o drais domestig adolygodd AHEM weithrediad y MARAC yng ngogledd Cymru. Gwelwyd bod lefel risg pob dioddefwr camdriniaeth ddomestig yn cael ei adolygu'n ddyddiol gan swyddogion arbenigol; fodd bynnag nid oedd cynllunio diogelwch parhaus ar gyfer achosion risg canolig a safonol mor gyson a chlir ag yr oedd gydag achosion risg uchel. Yn ychwanegol mae capasiti cyfredol cynadleddau asesu risg amlasiantaeth (MARACs) a'u gallu i drafod pob achos ble'r oedd y risg i ddioddefwyr wedi'i adnabod fel risg uchel yn peri pryder. Nid oedd rhai dioddefwyr risg uchel yn cael eu trafod mewn MARAC oherwydd nad oedd digon o gapasiti i wneud hynny.

Canfu AHEM mewn dwy ardal yng ngogledd Cymru 'Banelau Camdriniaeth Ddomestig' sy'n cael eu cynnal gan bartneriaethau lleol y tu allan i'r broses MARAC er mwyn trafod achosion risg uchel a chanolig ac i ddarparu ymyriadau dynamig yn y cyfnod rhwng dyddiad riportio'r digwyddiad a dyddiad y MARAC. Bydd achosion risg uchel yn cael sylw yn y MARAC hefyd, ni waeth pa gamau a gymerodd y panel, gan olygu felly bod posibilrwydd o ddyblygu gwaith a rhoi pwysau diangen ar adnoddau asiantaethau.

3.3.3 Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan[23]

Yn 2013 gwnaeth Grŵp Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan ymchwil i droseddau casineb yng Nghymru. Cwblhaodd cyfanswm o 1810 ymatebydd arolwg yng Nghymru a nododd 564 eu bod yn ddioddefwyr troseddau casineb. Soniodd nifer fawr o ddioddefwyr am heriau sylweddol o ran cael cefnogaeth ac, o ganlyniad, eu bod yn 'dioddef mewn distawrwydd'. Mewn llawer o achosion roedd pobl yn teimlo'n fwy ynysig a diamddiffyn oherwydd:

- Anabledd
- Byw mewn ardal wledig
- Diffyg rhwydwaith teulu cryf

Defnyddiwyd canlyniadau gwaith ymchwil i droseddau casineb yng Nghymru i hysbysu'r camau gweithredu yn 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' LlCC a oedd yn amlinellu'r camau yr oedd angen eu cymryd yng Nghymru i fynd i'r afael â materion cysylltiedig â Throseddau Casineb. Roedd y camau hynny'n cynnwys:

- Mynd i'r afael â than riportio am y rheswm nad yw llawer o ddioddefwyr troseddau casineb yn riportio digwyddiadau neu droseddau yn eu herbyn, yn enwedig mewnfudwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches, sipsiwn a theithwyr.

- Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb oherwydd nad yw rhai dioddefwyr yn ymwybodol fod y gamdriniaeth y maent wedi'i dioddef yn drosedd.

- Herio stereoteipiau er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth a goddefgarwch o wahanol ddiwylliannau, cefndiroedd, hil a ffordd o fyw.

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol ymysg plant mewn ysgolion.

- Hyfforddi staff sector cyhoeddus a gwirfoddol i weld arwyddion o gasineb wrth weithio yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys y 500 Swyddog Cefnogi Cymuned a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

[3] http://www.refweb.org.uk/files/Wales%20Hate%20Crime%20Report.pdf

- Cynhyrchu gwybodaeth glir ac uniongyrchol ar sut i riportio troseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru.

- Sicrhau bod pob asiantaeth – yr heddlu, cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill, yn dod at ei gilydd i gefnogi a diogelu dioddefwyr.

- Cadw llygad ar densiynau yn y gymuned er mwyn taclo problemau cyn iddynt ddigwydd.

3.3.4 Goroeswyr sy'n Oedolion a'u Teuluoedd: Asesiad o Anghenion[24]

Pwrpas yr ymchwil hwn yn 2012 gan Cymorth i Ddioddefwyr a Phrifysgol Bangor oedd casglu tystiolaeth a fyddai'n sylfaen ar gyfer datblygiadau mewn polisi, arfer a darpariaeth gwasanaeth i oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant. Roedd yn cynnwys cyfweliadau yng ngogledd Cymru yn ystod 2010/2011 gyda 30 darparwr gwasanaeth a wyneb yn wyneb gyda 30 o oroeswyr troseddau rhyw.

Casgliad yr adroddiad oedd bod goroeswyr yn ei chael yn anodd ffurfio perthnasau gydag eraill ar ôl eu profiadau o gamdriniaeth. Roeddent yn dweud eu bod yn cael problemau o ran ymddiried mewn pobl eraill ac yn byw gyda synnwyr o fod ar wahân i bobl eraill ac yn ynysig. 'Bod rhywun yn eu coelio' oedd y peth pwysicaf iddynt o ran bod yn barod i rannu eu profiadau.

Barn yr adroddiad hefyd oedd bod oedolion oedd wedi dioddef camdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant yn 'grŵp anodd eu cyrraedd' oherwydd y stigma sydd yn gysylltiedig â chamdriniaeth rywiol. Roedd gwasanaethau ar gyfer oedolion a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant yn gyfyngedig yng ngogledd Cymru ac roedd angen mynd i'r afael â diffyg nawdd ariannol er mwyn unioni'r sefyllfa. Barnwyd fod yr angen am ragor o fuddsoddiad yn broblem benodol mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Roedd recriwtio a chadw staff arbenigol a gweithwyr cefnogi gwirfoddol (yn arbennig dynion) yn her.

Roedd bylchau yn narpariaeth gwasanaethau cefnogi ar gyfer:

- Goroeswyr trawsrywiol.

- Goroeswyr sydd yn y carchar (gan gynnwys y rhai hynny a ddywedodd am eu profiadau cyn eu dedfryd a'r rhai a ddywedodd tra yn y carchar).

- Cyflawnwyr camdriniaeth a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol eu hunain pan oeddent yn blant.

[24] http://www.cfmhas.org.uk/assets/Uploads/Adult-survivors-and-their-families-final-report-17-01-12.pdf

- Goroeswyr sy'n profi anawsterau gyda pherthnasau ac/neu broblemau rhywiol.

- Gwneud ceisiadau am iawndal anafiadau troseddol, yn ogystal â chyngor cyfreithiol mwy cyffredinol.

- Teuluoedd a phobl eraill arwyddocaol.

3.3.5 Llywodraeth Cymru: Arolwg Annibynnol o Wasanaethau ar gyfer Dioddefwyr yng Nghymru[25]

Ym Mai 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gasgliadau arolwg annibynnol o drais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a gwasanaethau trais rhywiol yng Nghymru.

Casgliad yr arolwg oedd y gellir dosbarthu'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru (gan gynnwys gogledd Cymru) yn bum prif fath:

1. Rhai sy'n canolbwyntio ar atal (atal trais a chamdriniaeth rhag digwydd yn y lle cyntaf)

2. Rhai sy'n adnabod ac yn atgyfeirio dioddefwyr

3. Rhai sy'n canolbwyntio ar ddiogelu ac amddiffyn

4. Rhai sy'n anelu at gynyddu diogelwch ac amddiffyniad drwy ymdrin â'r troseddwyr

5. Rhai sy'n cefnogi adferiad ac integreiddiad cymdeithasol


Gwelwyd fod llawer o asiantaethau yng Nghymru yn darparu mwy nag un o'r gwasanaethau hyn ac yn ymdrin ag amrywiaeth eang o brofiadau h.y. nid dim ond yn canolbwyntio ar gamdriniaeth ddomestig ond hefyd ar drais rhywiol ac ar ddynion a merched. Fodd bynnag roedd gwasanaethau ar gyfer merched yn fwy cyffredin.

Ychydig iawn o wasanaethau oedd yn gwneud gwaith ataliol. Roedd gwaith i hyrwyddo hyfforddiant ayyb sy'n rhoi grym i ddioddefwyr bregus, yn eu dysgu sut i wrthsefyll camdriniaeth ac i fod yn fwy hyderus yn fwy prin fyth. Ychydig iawn o wasanaethau ddywedodd eu bod yn gweithio â'r rhai oedd wedi cyflawni trais (o.n.- nid oedd yr ymchwil yn ystyried asiantaethau cyfiawnder troseddol).

Yn ddiddorol, mewn ymarfer mapio'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau drwy arolwg oedd yn archwilio'r ardaloedd daearyddol dan sylw, roedd traean o'r gwasanaethau a ymatebodd yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru

[25] http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/2014/140430-violence-against-women-domestic-abuse-sexual-violence-services-en.pdf

**Ffigwr 11: Lleoliad a Darpariaeth Gwasanaethau yn ôl Rhanbarthau Cymru**




Dywed yr awduron mewn perthynas â hyn:

> Mae hyn yn annisgwyl, o ystyried fod y ddwy ddinas fwyaf yng Nghymru...yn y de, ac mai canolbarth Cymru yw'r ardal ddaearyddol fwyaf ac yn cynnwys y tri awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae'n bosibl bod yr arolwg wedi'i ddosbarthu'n well ac wedi ennyn mwy o ddiddordeb yng ngogledd Cymru ond nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o hyn.

Mewn perthynas â'r math o 'help' a gynigir gan ddarparwyr gwasanaethau, lluniwyd y rhestr isod:

Cyngor
Gwybodaeth am Hawliau
Mynediad cydlynol/atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill
Diogelwch personol
Camau asesu
Cynllunio eiriolaeth
Cymorth ymarferol
Addysg
Hyfforddiant
Triniaeth (gan gynnwys cwnsela)
Llety
Cymorth ariannol
Cefnogaeth gyfreithiol
Ymgyifeillio amser hamdden
Gofal/tendio

Mewn perthynas ag ymchwil gyda dioddefwyr, casgliad yr arolwg oedd bod llawer o ferched yn gyndyn mynd at asiantaethau statudol oherwydd eu bod yn ofni y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ddiarwybod iddynt. Roedd "Hygyrchedd, lleoliad a stigma" yn bryderon allweddol ychwanegol a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Gwelwyd bylchau yn narpariaeth gwasanaethau ar draws Cymru, yn fwyaf amlwg yn narpariaeth lloches a darpariaeth arbenigol ar gyfer merched DLlE. Dynododd rhanddeiliaid fwlch penodol yng ngogledd Cymru cysylltiedig ag oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant a rhaglenni cymunedol ar gyfer cyflawnwyr troseddau o'r fath. Yn gyffredinol roedd rhanddeiliaid yn ystyried bod rhoi'r sylw mwyaf i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig risg uchel yn aml yn digwydd ar draul achosion risg canolig ac isel.

Roedd dioddefwyr a ymatebodd yn gwerthfawrogi'r llinell gymorth 24 awr sydd ar gael yn ogystal â'r ddarpariaeth siop un stop (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) ond dywedwyd y gallai dod o hyd i lety amgen fforddiadwy fod yn broblemus.

Mae argymhellion yr awduron yn canolbwyntio ar gasglu gwell ystadegau ar ddioddefwyr er mwyn hysbysu gwell darpariaeth gwasanaeth. Maent hefyd yn cynnwys sicrhau ffynonellau o nawdd mwy diogel ar gyfer gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr, y dylid gwreiddio sgrinio am gamdriniaeth mewn cyd-destunau darparu eraill megis ysbytai ac y dylid datblygu rhaglenni atal sy'n canolbwyntio ar ysgolion ymhellach.

## 3.4 Crynodeb o'r Bennod

Roedd y bennod hon yn ymwneud yn bennaf ag amcan cyntaf y prosiect ymchwil hwn sef:

> Cwmpasu'r data a'r llenyddiaeth sy'n bodoli ynghylch niferoedd a natur dioddefwyr trosedd yn chwe sir gogledd Cymru ac edrych ar sut y gallai'r mathau o droseddau a ddioddefir amrywio yn ôl daearyddiaeth.

- Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'n ymddangos bod y siawns o fod yn ddioddefwr trosedd yng ngogledd Cymru wedi disgyn yn ddramatig.

- Mae'r nifer o achosion o'r rhan fwyaf o fathau o droseddau yng ngogledd Cymru yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ar wahân i ddifrod troseddol ac arson a throseddau treisgar a rhywiol'.

- Nid yw'n syndod o ystyried demograffeg a chrynodiad poblogaeth yn ardaloedd trefol y dwyrain bod mwy o droseddau'n cael eu riportio yn Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy nag yng Ngwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn.

- Mae'r nifer o ddioddefwyr fesul 1000 o'r boblogaeth fodd bynnag yn awgrymu bod dioddef trosedd yn digwydd yn fwy cyffredin yn ardaloedd Wrecsam a Sir Ddinbych nag unman arall.

- Mae dehongli'r data er mwyn adnabod amrywiadau lleol 'arwyddocaol' yn gofyn am ymdriniaeth ansoddol fwy manwl nag sy'n bosibl o fewn cylch gorchwyl yr adroddiad hwn.

- Mae ymchwil sy'n bodoli i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr yng ngogledd Cymru ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael.

- Gwelir bylchau fodd bynnag mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, dioddefwyr camdriniaeth ddomestig risg canolig/isel a dioddefwyr troseddau rhyw.

- Mae ymchwil sy'n bodoli i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr yng ngogledd Cymru yn adnabod meysydd ble dyblygir gwaith a ble mae rhai anawsterau o safbwynt cydweithio er mwyn diwallu anghenion y dioddefwr.

- Diffyg capasiti i ddiwallu'r galw o fewn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau.

# Pennod Pedwar: Darpariaeth Statudol ar gyfer Dioddefwyr yng ngogledd Cymru

Mae'r bennod hon a'r nesaf yn mynd i'r afael ag Amcan 2 y prosiect ymchwil

> Edrych ar y data sydd ar gael ynghylch darpariaeth gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bodloni anghenion dioddefwyr ar draws chwe sir gogledd Cymru ac archwilio lefel a natur y gwasanaethau hyn.

## 4.0 Cyflwyniad

Tra bod angen cofio na fydd darpariaeth statudol yn ffurfio rhan o unrhyw broses gomisiynu yn y dyfodol, yn yr adran hon rydym yn disgrifio'r gwasanaethau statudol a ddarperir ar gyfer dioddefwyr trosedd er mwy rhoi darlun mor gyflawn â phosibl o wasanaethau ar gyfer dioddefwyr yn ardal gogledd Cymru.

Mae'r disgrifiad canlynol o ddarpariaethau statudol ar gyfer dioddefwyr troseddau a sut y'i darperir yng ngogledd Cymru yn seiliedig yn rhannol ar ymchwil desg ac ar yr hyn a ddywedodd y rhai a gyfrannodd at yr ymchwil hwn wrthym.

## 4.1 Darpariaethau Statudol

Daeth cod ymarfer newydd ar gyfer dioddefwyr troseddau i rym ym mis Rhagfyr 2013 (YWG 2013). Yng ngogledd Cymru gweithredir darpariaethau'r siarter dioddefwyr yn bennaf drwy weithgareddau'r prif asiantaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r System Cyfiawnder Troseddol:

### 4.1.1 Heddlu Gogledd Cymru

Fel yn y rhan fwyaf o ardaloedd, gyda gwasanaeth yr heddlu y bydd y rhan fwyaf o ddioddefwyr troseddau yn cael y cyswllt cyntaf â'r system cyfiawnder troseddol.

Yn ogystal â'r gwasanaeth ffôn 999 a 101 mae gan Heddlu Gogledd Cymru bresenoldeb ar-lein sylweddol a gellir dod o hyd i fanylion cyswllt timau plismona cymdogaethau, swyddogion unigol neu dimau yn:
http://www.north-Wales.police.uk/your_neighbourhood.aspx

Os caiff trosedd ei riportio neu os bydd rhywun yn cael eu gweld yn cyflawni trosedd, bydd staff Heddlu Gogledd Cymru yn mynychu ac yn cofnodi'r trosedd. Bydd manylion am y trosedd yn cael eu cynnwys ar restr a anfonir bob 24 awr i Uned Gofal Dioddefwyr, Cymorth i Ddioddefwyr yng Nghaerdydd. Bydd y wybodaeth yn cynnwys manylion am y trosedd, manylion y dioddefwr a'r swyddog riportio a manylion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd staff yr Uned yn didoli'r wybodaeth ac yn cysylltu â dioddefwyr 'troseddau craidd', fel sydd wedi'u nodi yn y tabl isod:

**Tabl 14: ‘Troseddau Craidd’ Cymorth i Ddioddefwyr**

| | |
|---|---|
| Ymgais i Lofruddio | Achosi marwolaeth drwy gymryd cerbyd gwaethygedig |
| Achosi marwolaeth drwy yrru peryglus | Babanladdiad |
| Dynladdiad | Llofruddio |
| Clwyfo neu gyflawni gweithred sy’n peryglu bywyd | Defnyddio sylwedd neu wrthrych i beryglu bywyd |
| Meddu ar eitem i beryglu bywyd | Ymosod a churo cyffredin |
| Achosi niwed corfforol difrifol yn anfwriadol | Gwir niwed corfforol ac anafiadau eraill |
| Gwenwyno neu lurgunio organau rhyw merched | Ymosodiad cyffredin gwaethygedig ar sail hil neu grefydd |
| Clwyfo gwaethygedig ar sail hil neu grefydd | Gwir niwed corfforol gwaethygedig ar sail hil neu grefydd |
| Aflonyddu gwaethygedig ar sail hil neu grefydd | Ofn, dychryn neu ofid cyhoeddus gwaethygedig ar sail hil neu grefydd |
| Cipio plentyn | Treisio benyw 16 oed a throsodd |
| Treisio gwryw 16 oed a throsodd | Gweithgaredd rhywiol ayyb gydag unigolyn ag anhwylder meddwl |
| Ymosodiad rhywiol ar fenyw 13 oed a throsodd | Ymosodiad rhywiol ar wryw 13 oed a throsodd |
| Masnachu i ddiben ecsbloetio rhywiol | Achosi gweithgaredd rhywiol heb ganiatâd |
| Ysbeiliad o eiddo busnes | Ysbeilio eiddo personol |
| Byrgleriaeth waethygedig mewn adeilad ar wahân i annedd | Byrgleriaeth waethygedig mewn annedd |
| Byrgleriaeth mewn annedd | Dwyn oddi ar berson |
| Dwyn o annedd heb fod o beiriant neu fesurydd awtomatig | Difrod troseddol i annedd |
| Difrod troseddol i annedd gwaethygedig ar sail hil neu grefydd | Racially or religiously aggravated other criminal damage |
| Blacmel | Herwgipio |

Fel y mae’r rhestr uchod yn ei ddangos felly, nid fydd Cymorth i Ddioddefwyr yn cysylltu â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a dioddefwwyr troseddau megis dwyn neu losgi cerbydau er mwyn cynnig gwasanaeth iddynt.

Mae Uned Gofal Dioddefwyr Cymorth i Ddioddefwyr ar agor 6 diwrnod yr wythnos (nid dydd Sul) ac mae ganddi darged o gysylltu ag achosion perthnasol o fewn 48 awr i dderbyn y wybodaeth.

Mae nodweddion ychwanegol strwythur plismona yng ngogledd Cymru yn dylanwadu ar brofiad y dioddefwr. O 2010 ymlaen, defnyddiwyd arian o’r strategaeth Trais yn Erbyn Merched a Chamdriniaeth Ddomestig yng Nghymru, ac arian gan y Swyddfa Gartref, tuag at agor chwe Chanolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhyw (SARC) ar draws Cymru i daclo trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Y chwe ardal oedd Caerdydd, Bae

Colwyn, Merthyr Tudful, Risca, Abertawe a Chaerfyrddin. Agorwyd SARC gogledd Cymru ym Mae Colwyn yn 2011 ac mae'n darparu gwasanaeth am ddim, cyfrinachol i ddioddefwyr ymosodiadau rhyw pa un a ydynt yn riportio materion i'r heddlu neu ddim. Yn y ganolfan hefyd mae Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) sy'n rhoi cyngor ac eiriolaeth annibynnol i ddioddefwyr.

Daethpwyd â staff arbenigol o bob rhan o ogledd Cymru at ei gilydd yn y SARC ym mis Mehefin 2012 i ffurfio tîm Amethyst, sef tîm dynodedig i ymchwilio i achosion o drais rhywiol. Mae'r tîm yn cynnwys ditectif arolygydd, tri ditectif ringyll, 12 ditectif gwnstabl, chwe swyddog wedi'u hyfforddi'n arbennig a dadansoddwr ac maent yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chydweithwyr trydydd sector er mwyn sicrhau ymateb ymchwiliol i bob adroddiad o drais rhywiol.

Ym mhob un o'r tair canolfan blismona sy'n gofalu am y deng ardal blismona mae swyddogion cyswllt trais a thrais rhywiol (SAVO), swyddogion cyswllt teuluoedd (FLO) a chydlynwyr camdriniaeth/trais domestig (y'i gelwir yn DACs yn y dwyrain a DVOs yn y Gorllewin)

Mae'r SAVO yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cyngor i swyddogion sy'n mynychu achosion o ymosodiad rhywiol. Os mai nhw sy'n cael y cyswllt cyntaf gyda dioddefwr byddant yn eu cyfeirio at y SARC a gall hyn arwain at i'r dioddefwyr fanteisio ar wasanaethau a gynigir gan ISVA. Nid yw'r ISVA yng ngogledd Cymru yn darparu gwasanaeth i bob dioddefwyr trosedd rhyw - dim ond i'r rhai hynny ble caiff cyhuddiad ei ddwyn.

Bydd y SAVO neu'r ISVA yn creu cynlluniau diogelwch gyda'r dioddefwr ac yn asesu'r angen am unrhyw addasiadau i'r cartref megis marcwyr rhybudd, larymau/cloeon ayyb. Bydd y SAVO neu'r ISVA neu staff eraill y SARC yn cyfeirio'r dioddefwr at asiantaethau partner fydd yn gallu darparu gwasanaethau megis cyngor am lety. Bydd y SAVO neu'r ISVA fel arfer yn aros mewn cysylltiad â'r dioddefwr drwy gydol y cyfnod ymchwilio gan roi gwybod iddynt beth sy'n digwydd gyda'u hachos. Bydd y SAVO/ISVA yn cysylltu â'r Uned Gofal Tystion (gweler isod) ac yn cynorthwyo â materion megis ymweliadau â'r llys cyn treial a darparu cefnogaeth yn y llys. Ble bynnag y bo hynny'n briodol byddant yn cymryd yr arweiniad o ran cynnal asesiad o effaith ar ddioddefwr.

Mae Swyddogion Cyswllt teuluoedd yn darparu gwasanaethau tebyg mewn achosion ble credir bod pwynt cyswllt rhwng yr heddlu a theulu yn briodol, er enghraifft mewn ymchwiliad i achos o blentyn ar goll.

Yn aml mae DVOs/DACs wedi'u lleoli yn Unedau Diogelu'r Cyhoedd yr heddlu ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth mewn achosion yn ymwneud â chamdriniaeth ddomestig.

Tan yn ddiweddar roedd arfer cysylltiedig â materion diogelu plant neu oedolion yn debyg ar draws chwe awdurdod lleol gogledd Cymru. Ble bynnag y codwyd pryderon ynghylch diogelu ac/neu os cyflawnwyd trosedd a bod oedolyn diamddiffyn neu blentyn naill ai'n bresennol neu'n rhan o'r digwyddiad, byddai'r heddlu wedi llenwi ffurflen CID16 a'i hanfon at Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu. Ffurflen atgyfeirio

electronig yw CID 16 y bydd swyddogion yn ei llenwi ar ôl mynychu digwyddiadau'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig, cam-drin plant ac oedolion diamddiffyn – gyda'r categori olaf yn cael ei ddehongli'n eang, nid dim ond fel materion 'capasiti'. Didolir ffurflenni'n wythnosol a gwneir atgyfeiriadau'n i'r IDVAs a'r MARACs mewn achosion risg uchel neu i gyrff cysylltiedig â Chymorth i Ferched mewn achosion risg canolig ac isel.

Yn Wrecsam caiff achosion eu didoli ar hyn o bryd drwy'r Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth. Yn Sir y Fflint a Chonwy bydd yn digwydd drwy 'Banel Camdriniaeth Ddomestig' sy'n cynnwys staff o asiantaethau statudol a darparwyr gwasanaethau megis Hafan Cymru a Chymorth i Ferched Cymru.

Yng Nghymru a Lloegr mae atgyfeiriadau CID-16 yn cael eu hanfon fwyfwy i ganolfannau a elwir yn Ganolfannau Diogelu Amlasiantaeth (Multi-Agency Safeguarding Hubs – MASH) Mae'r canolfannau hyn yn cynnwys asiantaethau statudol (yr heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaeth prawf) ac maent yn derbyn, yn asesu ac yn rhannu gwybodaeth ynghylch pob atgyfeiriad yn ymwneud â phlant neu oedolion diamddiffyn. Sefydlwyd MASH yn Wrecsam ym Mawrth 2014 ac yn sgil y datblygiad hwn diddymwyd Panel Camdriniaeth Ddomestig yr ardal.

Efallai y bydd yr heddlu'n ymgysylltu mewn amrywiaeth o weithredoedd neu'n gwneud cais am amrywiaeth o orchmynion a fyddant o bosibl yn diwallu anghenion dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys posibiliadau megis pennu amodau mechnïaeth ar droseddwyr neu wneud cais am Orchmynion Atal Troseddwyr Rhyw. Datblygiad newydd yw'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS) a elwir yn gyffredin yn Gyfraith Clare. Nod y cynllun yw rhoi gwybodaeth i bobl a allent fod mewn perygl o fod yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'r DVDS yn cyflwyno dwy wahanol broses ar gyfer datgelu'r wybodaeth. Ysgogir y broses gyntaf yn dilyn cais gan aelod o'r cyhoedd ('Hawl i Ofyn'). Ysgogir yr ail gan yr heddlu pan fyddant yn gwneud penderfyniad rhagweithiol i ddatgelu gwybodaeth er mwyn diogelu dioddefwr posibl ('Hawl i Wybod'). Datblygiad diweddar arall yw y gall yr heddlu erbyn hyn wneud cais am orchmynion Atal Trais Domestig (DVPO) Cyflwynwyd DVPOs dan Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010 ac maent yn galluogi'r heddlu i sefydlu mesurau diogelwch ar gyfer dioddefwr yn syth ar ôl i gamdriniaeth ddomestig ddigwydd. Gyda DVPO gellir atal troseddwr rhag dychwelyd i breswylfa a rhag cael cyswllt â'r dioddefwr am hyd at 29 diwrnod gan ganiatáu i'r dioddefwr gael amser i ystyried eu hopsiynau. Y nod yw diogelu'r dioddefwr ar unwaith. Os yn briodol gellir rhedeg y broses ochr yn ochr ag achos troseddol.

### 4.1.2 Uned Gofal Tystion

Dros yr ugain mlynedd ddiwethaf ac mewn cyfres o gynlluniau strategol, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud addewid y bydd yn rhoi blaenoriaeth i ddioddefwyr a thystion o fewn y system. Y cyntaf o'r datblygiadau mwyaf o ran darpariaeth yr addewid oedd ymrwymiad i gefnogi pobl i fynychu'r llys i roi tystiolaeth drwy greu Uned Gofal Tystion (UGT) sy'n cael ei rhedeg ar y cyd gan yr heddlu a GEG. Ar y cychwyn roedd yr UGT yn gyfrifol, drwy bwynt cyswllt unigol yn yr Uned, am roi gwybod i ddioddefwyr a thystion beth oedd yn digwydd gyda'u hachos, gan gynnwys

manylion ynglŷn â chynnydd tuag at unrhyw wrandawiad. Erbyn hyn mae'n dod y fwy cyffredin yn yr achosion mwyaf difrifol bod y cyfrifoldebau hyn yn cael eu datganoli drwy'r Uned Gofal Tystion i'r swyddogion heddlu arbenigol a grybwyllwyd eisoes. Ar hyn o bryd mae staff yr UGT yn HGC yn rhoi gwybodaeth i dystion a rhai dioddefwyr am gynnydd achosion troseddol yn uniongyrchol neu drwy swyddogion arbenigol. Maent yn trefnu bod unrhyw anghenion arbennig yn cael eu diwallu er enghraifft mynediad i'r anabl i lysoedd a chodi sgrin ar gyfer tyst wrth iddo roi tystiolaeth yn y llys ayyb .

4.1.3 Gwasanaeth Tystion

Mae gan Cymorth i Ddioddefwyr bresenoldeb ym mhob llys ynadon yng ngogledd Cymru dan faner y Gwasanaeth Tystion.

4.1.4 Timau Cyfiawnder yr Ifanc

Mae Timau Cyfiawnder yr Ifanc Gogledd Cymru wedi'u lleoli yn y Felinheli (ALl Gwynedd ac Ynys Môn), Bae Colwyn (ALl Conwy a Sir Ddinbych), Yr Wyddgrug (ALl Sir y Fflint) a Wrecsam (ALl Wrecsam). Bydd staff y timau hyn yn cysylltu fel mater o drefn â dioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc, sydd yn aml yn bobl ifanc eu hunain. Bydd y timau yn cyfeirio dioddefwyr ble bo hynny'n briodol, at asiantaethau cefnogi megis Cymorth i Ddioddefwyr. Yn ychwanegol, ble credir bod hynny'n bosibl ac yn debygol o fod yn fanteisiol, cynigir cyfle i ddioddefwyr gyfarfod â'r troseddwyr ifanc, gwneud datganiad ynglŷn ag effaith y trosedd arnynt a chael llythyr o ymddiheuriad gan y troseddwr, neu bydd y troseddwr yn gwneud iawn mewn rhyw ffordd am yr hyn a wnaethant.

4.1.5 Ymddiriedolaeth Prawf Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Prawf Cymru yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â dioddefwyr rhai troseddau a gall ddarparu gwasanaethau i unrhyw ddioddefwyr os ydynt yn asesu, a bod y dioddefwr yn cytuno, y byddai'r fath ymgysylltiad yn fuddiol neu'n angenrheidiol. Mae dyletswyddau statudol yn berthnasol i ddioddefwyr troseddau treisgar a throseddau rhyw ble cafodd y dioddefwr ei ddedfrydu i gyfnod o 12 mis neu fwy yn y carchar. Bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn rhoi gwybod i droseddwyr am gynnydd troseddwr drwy'r system cyfiawnder troseddol ar ôl ei ddedfrydu gan roi cyfle iddynt wneud sylwadau ar unrhyw gynlluniau rhyddhau. Fel arfer bydd unigolion a ddedfrydir i dros 12 mis o garchar yn dod yn destun trefniadau diogelu'r cyhoedd amlasiantaeth (MAPPA).

Os yw troseddwyr yn destun goruchwyliaeth statudol am droseddau cysylltiedig â chamdriniaeth ddomestig bydd 'Gweithwyr Diogelwch Merched' a rheolwyr troseddwyr yn rhoi sylw i faterion diogelwch. Gallai hyn gynnwys ymweliadau â, a chynllunio diogelwch, gyda'r dioddefwr. Os yw'n ofynnol i'r troseddwr dan sylw fynychu 'rhaglen cyflawnwr camdriniaeth ddomestig' fel rhan o amodau eu gorchymyn statudol yna efallai yr ymestynnir y cyswllt hwnnw.

4.1.6 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Trais Domestig

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar sut i ddelio ag achosion Camdriniaeth Ddomestig yn ardal gogledd Cymru yn bodoli rhwng GEG Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, GLlEM Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Gweler Atodiad A.

## 4.2 Trefniadau Camdriniaeth Ddomestig Amlasiantaeth

Yn gynyddol dros yr ugain mlynedd diwethaf mae darparu 'gwell amddiffyniad a chefnogaeth' ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig wedi dod yn fater o bryder allweddol i lywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru. O 2003 ymlaen felly sefydlwyd Fforymau Camdriniaeth Ddomestig (FfCDd), Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (LlTDA) a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth ar draws Cymru a Lloegr.

Lansiwyd 'Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru yn 2010. Yr hyn sy'n berthnasol yma yw mai blaenoriaethau allweddol y strategaeth oedd codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig, darparu cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr, diogelu plant a gwella ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill i drais domestig. Yn 2012-2013 nawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ag ymateb i drais yn erbyn Merched a Chamdriniaeth Ddomestig oedd £4.336m. Gwnaed cyfraniad ariannol tuag at ddarparu cydlynwyr trais domestig ar draws y 22 PDC yng Nghymru, cyflogi IDVAs i gefnogi gwaith BAWSO a sefydlu llinell gymorth Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan.

Ym Mehefin 2014 bydd Mesur Trais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Nodau cyffredinol y mesur fydd hyrwyddo arweinyddiaeth gryfach a thaclo unrhyw fath o drais yn erbyn merched gan gynnwys camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Wedi'u cynnwys hefyd mae darpariaethau ar gyfer gwella addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus/broffesiynol o drais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol a chryfhau ac integreiddio gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr ymddygiad o'r fath.

Mae'n bwysig nodi er nad yw DAFs, SDVCs a MARACS yn orfodol drwy statud ar hyn o bryd[26], maent yn bodoli yn y rhan fwyaf o heddluoedd ac mae llawer o ddarparwyr gwasanaeth yn rhoi statws statudol iddynt.

Crëwyd Fforymau Camdriniaeth Ddomestig, y caiff cynrychiolwyr yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd meddwl, cyfiawnder troseddol, tai ac asiantaethau gwirfoddol eu gwahodd iddynt er mwyn cydlynu polisi ac ymarfer yn strategol a mynd i'r afael â ac ymateb i gamdriniaeth ddomestig. Mae pedwar FfCDd - Gwynedd/Môn, Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ac maent yn cyfarfod tua thair gwaith y flwyddyn.

[26] Gallai newidiadau ddigwydd yn ddilyn Mesur Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Mae SDVCs, sy'n cael eu staffio a'u hyfforddi gan ynadon ac erlynyddion, yn llysoedd arbenigol sy'n delio ag achosion o gamdriniaeth ddomestig - mae dau yng ngogledd Cymru - un yn Wrecsam ac un yn yr Wyddgrug.

Mae MARACs yn cynnwys llawer o'r un asiantaethau ag sy'n rhan o'r Fforymau Camdriniaeth Ddomestig, gan ddarparu gwasanaeth amlasiantaeth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig unigol sy'n cael eu hasesu (gan ddefnyddio'r rhestr wirio camdriniaeth ddomestig, stelcio, aflonyddu a thrais seiliedig ar anrhydedd - DASH) fel bod mewn risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol. Mewn MARACs caiff amgylchiadau dioddefwyr a chamau i'w diogelu nhw, ac yn aml eu plant, eu hadnabod. Yr hyn sy'n bwysig yma yw nodi bod atgyfeiriadau i MARAC gan ddefnyddio DASH yn dod o amrywiaeth o ffynonellau, nid dim ond asiantaethau cyfiawnder troseddol. Caiff MARACs eu galw a'u cydlynu gan Gydlynwyr MARAC, sef staff heb fod mewn lifrai a gyflogir gan yr heddlu. Mae pedwar MARAC yng Ngogledd Cymru: Ynys Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Yn 2005 ac mewn ymateb i natur dameidiog ac amrywiol y gwasanaethau eiriolaeth oedd yn bodoli ar y pryd, datblygodd CAADA (Coordinated Action Against Domestic Abuse – elusen genedlaethol) declynnau ymarferol, ac yn ddiweddarach hyfforddiant achrededig i safoni a chefnogi darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Arweiniodd y datblygiad hwn at greu IDVAs. Ar ôl cysylltu â dioddefwr camdriniaeth ddomestig bydd IDVAs yn gweithio gyda nhw i ddatblygu cynllun diogelwch personol sy'n cynnwys manylion ynghylch y camau y gellid eu cymryd a phwy y gall y dioddefwr gysylltu â nhw, yn ychwanegol at yr heddlu, pe bai rhagor o gamdriniaeth yn digwydd.

Yng ngogledd Cymru mae gwasanaeth IDVA ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol gyda staff yn cael eu noddi ac wedi'u lleoli mewn cyrff sy'n gweithio ochr yn ochr â Chymorth i Ferched Cymru (Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych), un yn Hafan Cymru (Conwy) ac yn un yn Gorwel (Tai Eryri) (Gwynedd)

Fel y nodwyd eisoes mae 'Panelau Camdriniaeth Ddomestig' yn gweithredu yn Sir y Fflint a Chonwy. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r MARACs ond maent yn trafod achosion risg uched/canolig yn ogystal â rhai risg is. Y rhesymeg y tu ôl i'w bodolaeth yw eu bod yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod camau di-oed yn cael eu cymryd ym mhob achos a rhwng y cyfarfodydd MARAC misol. Mae'r Panelau yn perfformio rôl debyg i MASH (gwler isod) oherwydd eu bod yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth am atgyfeiriad yn cael ei rhannu cyn gynted ag y derbynnir yr atgyfeiriad.

## 4.3 Diogelu Plant ac Oedolion Diamddiffyn:

Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004 sy'n darparu'r prif gyd-destun deddfwriaethol ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan ac yn rhoi dyletswydd ar gyrff dynodedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r gweithdrefnau'n adlewyrchu'r gwerthoedd a'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Datblygodd Llywodraeth Cynulliad

Cymru y gwerthoedd a'r egwyddorion hyn yn 'Plant a Phobl Ifanc: yr Hawl i Weithredu 2004', a mabwysiadodd nodau ac amcanion craidd y mae'n ymrwymedig i'w dilyn wrth weithio gyda phob plentyn ac unigolyn ifanc. Mae'r deilliannau allweddol ar gyfer gwella lles plant o'u cenhedliad hyd yn oedolion yn cynnwys y gofyniad bod plant yn byw mewn amgylchedd diogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed. Cyhoeddwyd arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd' dan Ddeddf Plant 2004 yn unol â Deddf Plant 2004 a dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970, sy'n darparu sail ymarferol i'r gweithdrefnau.

Yn ychwanegol, yng ngogledd Cymru, mae Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Diogelu Oedolion diamddiffyn yn bodoli yn seiliedig ar brotocol a gomisiynwyd gan bedwar Fforwm Diogelu Oedolion rhanbarthol Cymru.


Fel y trafodwyd, datblygiad diweddar ymarferol a weithredwyd am y tro cyntaf yn Wrecsam yn Ebrill 2014 yw'r Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth – MASH. Cawsant eu datblygu er mwyn gwella rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau er mwyn diogelu'r plant a'r oedolion mwyaf diamddiffyn rhag niwed, esgeulustod a chamdriniaeth. Fel arfer cydleolir staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Gofal Cymdeithasol Plant a Diogelu Oedolion mewn swyddfa MASH.

Bydd MASH yn derbyn atgyfeiriadau diogelu gan bobl broffesiynol a ble byddant yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymgysylltiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd cynrychiolwyr asiantaethau MASH yn casglu gwybodaeth o'u ffynonellau perthnasol er mwyn cael darlun o amgylchiadau'r achos a'r risgiau cysylltiedig. Y bwriad yw y bydd gwell cydlyniad rhwng asiantaethau yn arwain at well gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd.

## 4.4 Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Ym mhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol mae swyddog camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol arweiniol sy'n arwain ac yn cyfeirio'n uniongyrchol weithredoedd perthnasol i daclo troseddau o'r fath. Yr unigolion hyn sy'n arwain o ran gwneud cais am arian ar gyfer gweithgareddau mor amrywiol â phrosiectau atalion mewn ysgolion ac ar gyfer IDVAs. Maent hefyd yn gyfrifol am riportio ar faterion yn ymwneud â pherfformiad a llywodraethu MARACs. Cawsom wybod gan nifer o ddarparwyr gwasanaethau bod y gweithwyr hyn yn cydlynu gweithredoedd perthnasol i DASV yn eu hardaloedd. Mae swyddogion arweiniol ar wahân yn bodoli ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Ffigwr 12 Llwybr Dioddefwyr CT Cymru**
**(drwy garedigrwydd Cymorth i Ddioddefwyr)**



# 5.0 Pennod Pump: Gwasanaethau Dioddefwyr Anstatudol

Mae'r bennod hon yn parhau i roi sylw i Amcan 2 o'r prosiect ymchwil gan ganolbwyntio ar wasanaethau dioddefwyr anstatudol yng ngogledd Cymru:

> Edrych ar y data sy'n bodoli ynghylch darpariaeth gwasanaethau cysylltiedig â diwallu anghenion dioddefwyr ar draws chwe sir gogledd Cymru ar edrych ar lefel a natur y gwasanaethau a ddarperir.

## 5.1 Cyflwyniad

Gellir llunio rhestr o ddarparwyr gwasanaethau anstatudol ar gyfer dioddefwyr drwy gyfeirio at wahanol baramedrau. Er enghraifft, gellir cymryd bod y gwasanaeth 999 brys yn wasanaeth sy'n diwallu anghenion dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Mae'r un peth yn wir am wasanaethau Meddygon Teulu lleol sy'n trin anafiadau corfforol pobl neu'n eu hatgyfeirio am wasanaethau cwnsela pan fo angen. Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth dros y ffôn y gall pobl sydd wedi'i dioddef troseddau, sy'n cael anawsterau ymdopi â bywyd ac sydd angen rhywun i siarad â nhw ei ddefnyddio. Yn olaf, mae'n amlwg bod gwasanaethau tai awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i roi cymorth i rai dioddefwyr trosedd, yn enwedig rhai sy'n ceisio ffoi rhag erledigaeth eu partneriaid neu ymddygiad gwrthgymdeithasol eu cymdogion.

Er bod y gwasanaethau hyn yn bwysig ac yn ddefnyddiol ar gyfer rhai dioddefwyr, mae'r asiantaethau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector hyn yn darparu gwasanaethau arbenigol, ond nid cefnogaeth ac eiriolaeth ar gyfer dioddefwyr yw eu prif faes o weithgaredd. Am y rheswm hwn nid ydynt yn cael eu hystyried yn yr adran hon. Hefyd yn cael eu gadael allan mae amrywiaeth o grwpiau hunan gymorth ar y rhyngrwyd ar gyfer dioddefwyr troseddau sydd wedi dod i'r amlwg dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan grwpiau Facebook megis Gwarchod Ceffylau Gogledd Cymru a Gwarchod Ffermydd Gogledd Cymru yn debygol o gynyddu dros y blynyddoedd i ddod wrth i lythrennedd cyfrifiadurol ddod yn fwy o'r norm ac wrth i fynediad i'r rhyngrwyd band eang cyflym gynyddu. Fodd bynnag, er mwyn canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny ar gyfer dioddefwyr sy'n debygol o ddod o fewn cwmpas SCHTh yn y dyfodol, mae'r adran hon yn rhoi sylw yn bennaf i sefydliadau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n fwy amlwg ac uniongyrchol ar ddiwallu anghenion dioddefwyr.

Yr eithriadau yn y cyswllt hwn yw sefydliadau sy'n rhoi cefnogaeth i unigolion a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth cydraddoldeb fel rhai â nodweddion gwarchodedig neu sy'n gweithio gyda grwpiau diamddiffyn eraill. Yr enghreifftiau amlycaf yw Stonewall sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer grwpiau LGBT ac Age Concern sy'n canolbwyntio ar rai dros 50. Nid cefnogaeth ac eiriolaeth ar gyfer dioddefwyr yw prif faes gweithgaredd y sefydliadau hyn, fodd bynnag maent yn bodoli i raddau helaeth oherwydd bod yr unigolion y maent yn eu cynrychioli yn hanesyddol wedi profi

gorthrwm a chamwahaniaethu sefydliadol (ac felly erledigaeth) fel rhan reolaidd o'u bywydau.

Mae paramedrau'r adolygiad yn seiliedig ar y ddealltwriaeth a gafwyd yn rhannol o'r data a gyflwynwyd ym mhennod un, sef er y gall angen godi yn sgil unrhyw drosedd, mae'n benodol berthnasol i ddifrifoldeb y trosedd neu'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a brofwyd, pa mor aml y'i profwyd (mae rhai mathau o erledigaeth yn fwy tebygol o fod yn rhan o batrwm) ac agoredrwydd i niwed yr unigolyn sy'n dioddef.

Mewn perthynas â chwmpas yr adran hon, rydym yn cyflwyno ein casgliadau gyda chyfeiriad at wasanaethau ar lefel Cymru a Lloegr, darpariaeth gwasanaeth sy'n benodol i Gymru ac yna'r gwasanaethau ym mhob un o'r 6 Awdurdod Lleol: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Dinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

## 5.2. Gwasanaethau ar gyfer Dioddefwyr yng ngogledd Cymru[27]

5.2.1 Gwasanaethau Cyffredinol:

- Cymorth i Ddioddefwyr

Cymorth i Ddioddefwyr Cymru,10 Drake Walk, Atlantic Wharf, Caerydd, CF10 4AN
Cymorth i Ddioddefwyr, Tŷ'r Binwydden, Ffordd Clayton, Yr Wyddgrug, CH7 1ST
0845 3030 900
www.victimsupport.org.uk

Mae'r elusen yn rhedeg llinell gymorth sy'n rhoi cymorth rhad ac am ddim a chyfrinachol yng Nghymru a Lloegr i ddioddefwyr, tystion, teulu, ffrindiau ac unrhyw un arall y mae trosedd yn effeithio arnynt.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig gwasanaeth i bob dioddefwr trosedd sy'n hunan atgyfeirio neu a atgyfeirir gan asiantaethau eraill.

Fel y dywedwyd eisoes, mae eu Huned Gofal Tystion yn derbyn gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru am bob trosedd a gyflawnwyd dros gyfnod o 24 awr ac yn gwneud galwadau dilynol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch anghenion dioddefwyr 'troseddau craidd' o fewn 48 awr.

Yn holl lysoedd troseddol gogledd Cymru mae Cymorth i Ddioddefwyr yn rhedeg 'gwasanaeth tystion' penodol.

[27] Y mae i'w ddisgwyl nad yw'r rhestr yn hollgynwysfawr. Dylai unigolion neu asiantaethau nad ydynt wedi'u crybwyll gysylltu â'r awduron neu SCHTh er mwyn eu cynnwys mewn unrhyw restrau darparwyr dilynol.

## 5.2.2 Camdriniaeth Ddomestig

i) Darpariaeth Cymru a Lloegr

- ❖ Refuge

0808 2000
247 www.refuge.org
.uk.

Llinell Gymorth Camdriniaeth Ddomestig Rhadffon 24-awr genedlaethol ar draws Cymru a Lloegr sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth rhwng Cymorth i Ferched a Refuge. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r sefydliadau yn rhedeg sawl lloches ar gyfer y rhai hynny sydd eisiau dianc rhag camdriniaeth ddomestig. Yng Nghymru mae 36 lloches gyda lle i 249 o bobl

- ❖ Llinell Gymorth Stelcian Genedlaethol

0808 802
03000 www.advice@stalkinghelpli
ne.org

Llinell gymorth gyfrinachol sy'n rhoi gwybodaeth gyfrinachol ac arweiniad am ddim i unrhyw un y mae stelcian yn effeithio arnynt.

- ❖ Yr Uned Priodasau Gorfodol

020 7008
0151 www.fco.gov.uk/forcedmar
riage

Menter ar y cyd rhwng y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Swyddfa Gartref sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan briodasau gorfodol. Mae ganddynt ganolfan adnoddau fyd-eang yn Llundain a llinell ffôn argyfwng yn ystod oriau swyddfa a heb fod yn ystod oriau swyddfa. Mae porth ar-lein cysylltiedig yn cael ei ddarparu gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

- ❖ Menter Man Kind

01823
334244 www.mankin
d.org.uk

Menter sy'n darparu cymorth ar gyfer dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol

ii) Darpariaeth benodol ar gyfer Cymru

- ❖ Llinell Gymorth Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan

0808
8010800. http://www.allWaleshelplin
e.org.uk/.

Mae Llinell Gymorth Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan yn wasanaeth arwyddbostio dwyieithog 24 awr sydd ar gael i helpu a rhoi arweiniad i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol ac sydd angen gwasanaethau megis cyngor, cefnogaeth ddi-oed, diogelwch a gwybodaeth ynglŷn â'u hawliau a'u hopsiynau. Rheolir y llinell gan Cymorth i Ferched Cymru .

❖ Cymorth i Ferched Cymru

Sefydliad ymbarél ar gyfer sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer merched a phlant sydd wedi profi, neu sydd yn profi camdriniaeth ddomestig (rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach). Mae'r sefydliad yn ddiweddar hefyd wedi dechrau darparu gwasanaethau ei hun e.e. Cymorth i Ferched Cymru Wrecsam.

❖ Rhwydwaith Merched o Leiafrifoedd Ethnig Cymru (MEWN Cymru)

029 20406
4445 www.mewn-
cymru.org.uk

Corff ymbarél strategol sy'n cynrychioli merched o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru o bob oed, crefydd, ethnigrwydd neu ffordd o fyw. Mae prif ganolfan y sefydliad yng Nghaerdydd. Ffôn:

❖ Cymru

Ddiogelach www.saferWales.

com

Noddir y fenter gan Lywodraeth Cymru a Dinas Ddiogelach (Safer Capital). Er yr ymddengys mai sefydliad ar gyfer Caerdydd ydyw yn bennaf, fe'i disgrifir fel bod yn gweithio gyda phobl i'w helpu i deimlo'n fwy diogel ac i wella bywyd cymunedau ar draws Cymru. Yn benodol mae eu gwefan yn awgrymu eu bod yn cynnig cefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig, troseddau casineb neu aflonydd, neu sy'n cael eu gorfodi i wneud pethau nad ydynt yn dymuno eu gwneud.

❖ Prosiect Dyn

0808 801
0321 www.dynWale
s.org

Mae Dyn project yn cynnig cefnogaeth ar gyfer dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig drwy law partner. Ceir y gefnogaeth drwy linell gymorth a phorth ar-lein.

- ❖ Llinell Gymorth i Ddynion/Men's Advice Line.

0808 801
0327. http://www.mensadviceline.o
rg.uk/

Mae'r llinell, sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad o'r enw RESPECT, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau wedi'u hanelu'n benodol at ddynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig drwy law eu partner (ond hefyd yn rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n cyflawni'r gamdriniaeth mewn rhai achosion)

iii) Darpariaeth benodol ar gyfer gogledd Cymru

Mae'n bwysig nodi fod y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yng Nghymru yn gyrff annibynnol sy'n gysylltiedig â Chymorth i Ferched Cymru. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y sefydliad ymbarél hwn hefyd yn ddarparwr. Felly, yn y rhestr isod, ble cyfeirir at wasanaeth gan gyfeirio at 'Cymorth i Ferched', fe'i darperir gan Cymorth i Ferched Cymru. Ble disgrifir gwasanaeth fel 'uned camdriniaeth ddomestig' neu 'ganolfan merched' bydd y darparwr yn gorff lleol (a reolir gan grŵp rheoli annibynnol) ond yn gysylltiedig â'r sefydliad ymbarél 'Cymorth i Ferched Cymru'. Mae cyrff/cydweithfeydd lleol nad ydynt yn cario brand Cymorth i Ferched yn darparu gwasanaeth ar gyfer unrhyw un.

- ❖ Canolfan Merched Gogledd Cymru

Mae hon wedi'i lleoli yn y Rhyl ac mae'n cynnig mynediad i wybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant ar faterion yn ymwneud ac iechyd, lles a gwaith. Mae'r ganolfan yn gweithio tuag at wella iechyd, hyder a bywoliaeth dynion a merched.

- ❖ Gwasanaeth Camdriniaeth Ddomestig Aberconwy

Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno LL30 2YP 01492 872992

Yn cynnig gwasanaeth ymateb dros y ffôn 24 awr a gwasanaeth estyn allan ar gyfer dynion a merched. Mae hefyd yn trefnu sesiynau chwarae a chlwb ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer plant y mae/y bu eu rhieni mewn lloches

- ❖ Gwasanaeth Camdriniaeth Ddomestig Gorwel, Ynys Môn.

Yr Hen Argraffdy,12 Ffordd Yr Efail, Llangefni, Ynys Môn LL77 7ER Ffôn 1: 01286 881588 Ffôn 2: 01248 750903

Mae Gorwel, rhan o wasanaeth Tai Eryri, yn cynnig gwasanaethau sy'n ymdrin â thrais domestig yn Ynys Môn. Maent yn cynnig mynediad i ddwy loches sy'n darparu llety brys (24 awr y dydd / 7 diwrnod yr wythnos) ar gyfer merched a'u plant sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig.

Mae Gorwel hefyd yn cynnig Cynllun Cefnogi Symudol ar gyfer merched a'u teuluoedd ar Ynys Môn. Mae'r gwasanaethwn hefyd yn cefnogi dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys sesiynau un i un a grŵp ar gyfer merched a dynion.

Y gwasanaeth hwn sy'n gartref i IDVA yr ardal sy'n gweithio gydag unigolion ac asiantaethau eraill i asesu'r risg a wynebir gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn sicrhau bod gwasanaeth priodol yn cael ei gynnig mewn ymateb i'r lefel o risg a ddynodir. Cynigir gwasanaeth uwchraddol i gleientiaid risg uchel a chaiff achosion eu hadolygu a'u monitro fel sy'n briodol.

Disgrifir y gwasanaeth a gynigir fel SIOP UN STOP - hynny yw canolfan ble caiff unigolion gyngor cyfreithiol a chyngor ynglyn a gofal a llety oherwydd bod cynrychiolwyr o'r asiantaethau â'r cyfrifoldebau hyn yn mynychu'r ganolfan neu fod modd eu galw yno.

- Cymorth i Ferched Bangor a'r Cyffiniau

7 Llys y Fedwen, Parc Menai, Bangor neu BDWA PO Box 873 Bangor Gwynedd LL57 2QN (01248 690077)
Llinell Gymorth 24 awr: 01248 690
077 bangorwomensaid@tiscali.co.uk

Gwybodaeth, cefnogaeth a chymorth ar gyfer merched a phlant sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Atgyfeiriadau i lochesi a llety brys arall. Gwybodaeth a chymorth â materion cysylltiedig e.e. gwaharddebau. Gwasanaeth ffôn brys y tu allan i oriau swyddfa.

Yn ddiddorol nid yw'r prosiect hwn yn darparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig gwrywaidd ar hyn o bryd ond maent yn gobeithio y bydd y cyfansoddiad wedi newid erbyn diwedd 2014 er mwyn caniatáu hyn.

- Gwasanaeth Camdriniaeth Ddomestig Gwynedd

Uned 6, Canolfan Glanpwll, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3NW

Swyddfa Pwllheli: Canolfan Felin Fach,Stryd Penlan,Pwllheli,Gwynedd,LL53 5DE

Yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer dynion a merched a gwasanaeth lloches ar gyfer merched - tai yn cael eu rhedeg a'u rhannu gan ferched a'u plant sydd yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Maent yn darparu gwasanaeth estyn allan sy'n cynnig cefnogaeth, gwybodaeth ac amser i siarad, gwybodaeth gyfrinachol a chymorth.

- Uned Diogelwch Camdriniaeth Ddomestig,

Wrenmore House 104 Chester Road East, Shotton CH5 1QD

Siop un stop ar gyfer dioddefwyr troseddau domestig. Mae IDVA Sir y Fflint yn gweithio o'r eiddo. Mae gan yr uned fynediad i lety a chefnogaeth ddwys arbenigol ar gyfer hyd at bedwar teulu ar unrhyw un adeg. Mae gwasanaeth estyn allan PROGRESS yn gweithio o'r eiddo. Yn ddiddorol, mae'r prosiect hwn wedi'i noddi gan sefydliad banc Lloyds TSB am dair blynedd. Darperir Gwasanaeth Ymyrryd Mewn Argyfwng sy'n cynnwys ymateb ar unwaith ar gyfer unigolion sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae'r uned yn rhedeg Rhaglen Rhyddid - cwrs 2 awr yr wythnos dros 10 wythnos ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, bydd o leiaf 2 neu 3 cwrs yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn.

- CAHA/ Cymorth i Ferched Delyn

  Yn darparu gwasanaethau ar gyfer merched sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig yn ne Sir y Fflint

- Uned Camdriniaeth Ddomestig Gogledd Sir Ddinbych (cymorth i ferched Rhyl a'r cyffiniau gynt)

26B Ffordd Wellington Road, y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 1BN 01745 337104

- Cymorth i Ferched Glyndŵr (Dinbych)
- Cymorth i Ferched Wrecsam

6, Temple Row, Wrexham, LL13 8LY 01978 310203

Yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi ac yn dod o hyd i lety ar gyfer merched sy'n profi camdriniaeth ddomestig, a'u plant. Mae IDVAs Wrecsam yn gweithio o'r ganolfan hon ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer dynion a merched sydd wedi dod yn rhan o'r SCT neu MARAC

- Hafan Cymru

Yn darparu gwasanaethau ar draws Dinbych, Wrecsam a Sir y Fflint (Prif Swyddfa, Stephen's Way, Pensarn, Caerfyrddin, SA31 2BG 01267 225555 www.hafancymru.co.uk

Sefydliad yw hwn sy'n gweithio ar draws Cymru i gynnig cefnogaeth a chymorth yn ogystal â gwasanaeth estyn allan a llety ar gyfer merched, dynion a phlant sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig. Mae'r sefydliad yn rhedeg y rhaglen Rhyddid ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr camdriniaeth ddomestig yn Wrecsam.

- Black Association of Women Step Out (BAWSO)

33 Grosvenor Road, Wrexham LL11 1BT
01978355818

Yn darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer dynion a merched o gefndiroedd ymfudol du ac/neu leiafrifol ethnig sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig a mathau eraill o gamdriniaeth gan gynnwys llurgunio organau merched, masnachu pobl a phuteindra.

Mae gweithiwr plant yn cefnogi plant a phobl ifanc yn lloches Wrecsam ac mae Gwasanaeth Estyn Allan yn cefnogi merched, dynion, plant a phobl ifanc ar draws gogledd Cymru sy'n profi camdriniaeth ddomestig.

- Broken Rainbow

33 Ffordd Grosvenor, Wrecsam
LL11 1BT 01978 355818
0300 999 5428
http://www.broken-rainbow.org.uk/

Yn darparu cymorth ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sy'n profi camdriniaeth ddomestig.

- Triongl Cymru

Ffôn: 0808 801 0306
www.triangleWales.co.uk

Yn darparu llety a chefnogaeth ar gyfer pobl LGB yng Nghymru

- Wardeiniaid Cymdogaeth

Mae PDC Sir y Fflint yn noddi wardeiniaid cymdogaeth. Mae'r wardeiniaid yn darparu gwasanaeth diogelu yn bennaf ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, drwy osod larymau ffenestri a drysau a'u helpu i greu ystafell ddiogel/panig.

- Gofal a Thrwsio Wrecsam

Darperir yr un gwasanaethau a ddarperir gan BDC Sir y Fflint gan Wasanaeth Gofal a Thrwsio Wrecsam ond dim ond drwy'r MARAC lleol y gwneir atgyfeiriadau iddo

- Age Connects, Wrecsam a Sir y Fflint

Y ddau yn darparu gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig sydd dros 50 oed – noddir gan Gronfa Cydraddoldeb LlCC

- Choose2Change

01745 345929
choose2change@relatecymru.org.uk

Gwasanaeth yw Choose 2 Change sy'n cynorthwyo dynion sydd eisiau newid y ffordd y maent yn ymddwyn yn eu perthnasau ac yn cynnig cefnogaeth i'w partneriaid yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan RELATE ac mae'n gweithredu fel rhaglen grŵp ble gall dynion weithio gydag eraill tuag at newid eu hymddygiad a gwella eu perthnasau. Mae RELATE yn rhedeg nifer o ganolfannau cyswllt plant ble gall plant (pan dderbynnir atgyfeiriad ffurfiol) gael cyswllt â'u rhieni dan oruchwyliaeth.

5.2.3 Ymosodiadau Rhywiol

i) Gwasanaethau Cymru a Lloegr cyfan

- Rape Crisis

0808 802
9999. www.rapecrisis.
org.uk

Yn darparu cefnogaeth ac eiriolaeth annibynnol i ferched a genethod o bobl oes sydd wedi dioddef trais rhywiol o unrhyw fath.

- The Survivors Trust

01788
550554 www.thesurvivorst
rust.org

Mae'r Survivors' Trust yn gweithredu ledled y DU ac Iwerddon fel sefydliad ymbarél ar gyfer 132 aelod sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cwnsela, therapiwtig a chefnog, gan weithio gyda dynion, merched a phlant sydd yn ddioddefwyr/goroeswyr trais, trais rhywiol a chamdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant.

- The National Association for People Abused in Childhood (NAPAC)

0800 085 3330
0808 801
0331. www.napac.
org.uk

Mae NAPAC yn darparu llinell gymorth am ddim ar gyfer oedolion sydd wedi dioddef unrhyw fath o gamdriniaeth yn ystod eu plentyndod

ii) Darpariaeth benodol i Gymru

iii) Darpariaeth benodol i ogledd Cymru

- Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Ymosodiadau Rhyw (SARC)

Mae diffiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2010, p.3) yn nodi'r gwasanaethau y dylai SARC eu darparu:

> Mae SARC yn lleoliad 'un stop' ble gall dioddefwyr ymosodiadau rhywiol gael gofal meddygol a chwnsela ar yr un pryd a chyfle i gynorthwyo'r heddlu â'u hymchwiliadau i'r troseddau honedig. Mae yno gyfleusterau archwilio fforensig o safon uchel.

Noddir y SARC i redeg fel partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a grwpiau gwirfoddol. Mae'r ganolfan yn defnyddio Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol sy'n cynnig gwasanaeth tebyg i wasanaeth IDVA mewn achosion o drais rhywiol. Cyflogir yr IDVA gan y RASA

- Canolfan Cefnogaeth Trais a Chamdriniaeth Rywiol (RASA) gogledd Cymru

PO Box 87, Caernarfon, Gwynedd, LL55 9AA
Llinell Gymorth: 0808 80 10 800
E bost: info@rasaWales.org.uk
01286
669266. www.rasaWale
s.org.uk

Mae'r ganolfan hon wedi bod mewn bodolaeth ers 1984 ac mae hefyd yn gysylltiedig â'r Survivor's Trust. Mae'n cyflogi 4 aelod o staff rhan amser, rheolwr cynorthwyol a rheolwr. Yn ychwanegol mae 35 cwnsler gwirfoddol yn gweithio i'r ganolfan yn ogystal ag 15 gweithiwr cefnogi sy'n byw ac yn gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys cwnsela a chefnogaeth gyffredinol, gwybodaeth a chyngor ar gyfer dynion a merched sydd wedi dioddef trais a chamdriniaeth rywiol a'u partneriaid. Mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw un 13 oed a throsodd pa un a ydynt wedi riportio'r hyn ddigwyddodd i'r heddlu ai peidio.

- Sefydliad Beacon Foundation

Beacon Foundation, Trwy Law: 3 Grosvenor Avenue, y Rhyl, Sir Dinbych, LL18 4HA
01745 343600

Mae'r sefydliad yn cynnig gwasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl a ddioddefodd gamdriniaeth pan oeddent yn blant (Nid o reidrwydd camdriniaeth rywiol)

- Stepping Stones

PO Box 2, Wrecsam LL11 1WY

01978
352717. http://steppingstonesnorthWales.bt
ck.co.uk/

Mae'r sefydliad yn gysylltiedig â'r Survivor's Trust ac yn disgrifio ei hun fel asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth therapiwtig ar gyfer oedolion a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant. Maent yn gwasanaethu ardaloedd Wrecsam, Sir Dinbych, Sir y Fflint a Chonwy.

Gwasanaethau a gynigir:

- Cwnsela rhad ac am ddim, cyfrinachol.
- Cwnsela unigol a sesiynau gwaith grŵp mewn lleoliadau ar draws Wrecsam, Sir Dinbych, Sir y Fflint a Chonwy

❖ Standing Ground

Standing Ground: Trinity House, Trinity Street, Wrecsam, LL11 1NL
0845 602
3694 http://dsweb.svc.ops.eu.uu.net/prod/dialspace/town/place/gei1
9/sg/

Yn rhoi gwasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth i bobl a ddioddefodd unrhyw fath o gamdriniaeth pan oeddent yn blant:

Maent wedi bod yn rhedeg llinell gymorth ar gyfer goroeswyr camdriniaeth a'u teuluoedd ers 2002 ac yn ddiweddar lansiwyd y cwrs 'Sgiliau Goroesi'

5.2.4 Troseddau Casineb

i) Gwasanaethau Cymru a Lloegr

❖ Stop Hate UK

Llinell gymorth 24 awr ar : 0800 138
1625 http://www.stophateuk.org/talk-to-us/

Mae'r sefydliad hwn yn galluogi dioddefwyr, tystion a thrydydd barion i riportio'n annibynnol, yn gyfrinachol ac yn ddidrafferth (drwy sawl platfform) ac yn cynnig cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr, tystion a thrydydd partïon

❖ True Vision:
http://www.report-it.org.uk/home

Dyma borth ar-lein sy'n cynnig cefnogaeth a chyfleuster riportio troseddau casineb

ii) Darpariaeth benodol i Gymru

❖ Canolfan Riportio a Chefnogaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan

Cymorth i Ddiddefwyr Cymru,10 Drake Walk, Atlantic Wharf, Caerdydd, CF10 4AN
Cymorth i Ddioddefwyr ,Tŷ'r Binwydden, Ffordd Clayton, Yr Wyddgrug, CH7 1ST
0845 3030
900 www.victimsupport.or
g.uk

O 8 Mai 2014 bydd Cymorth i Ddioddefwyr Cymru yn darparu llinell gymorth/gwasanaeth digwyddiadau troseddau casineb 24 awr ledled Cymru. Bydd y llinell gymorth yn cael ei hategu â chefnogaeth ddilynol wyneb yn wyneb a ddarperir gan wirfoddolwyr hyfforddedig arbenigol. Bwriedir y ddarpariaeth i annog unigolion a chymunedau i riportio troseddau/digwyddiadau casineb ac i roi cymorth i'r rhai hynny sydd wedi'u heffeithio.

- Canolfannau Riportio Trydydd Parti

Ar draws Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, datblygwyd system o ganolfannau riportio trydydd parti. Lleoliadau cymunedol ble gall dioddefwyr troseddau neu ddigwyddiadau casineb riportio'r hyn ddigwyddodd yw'r rhain. Nod Canolfannau Riportio Trydydd Parti yw cefnogi dioddefwyr i

- wneud adroddiad;
- ddod o hyd i asiantaethau fydd yn gallu darparu cefnogaeth; a
- helpu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gydlynu cefnogaeth ar gyfer y dioddefwr

Pobl Mewn Oed

- Age Cymru

Age Cymru,
Tŷ John Pathy,
13 / 14 Neptune Court,
Vanguard Way,
Caerdydd CF24 5PJ Ffôn:
029 20 431555

Age Cymru yw'r enw newydd ar yr elusennau Help the Aged ac Age Concern sydd wedi dod at ei gilydd dan un ymbarél . Maent yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys taflenni gwybodaeth ar ynglŷn â chamdriniaeth pobl hŷn ac o ble i gael cymorth. Dyma elusen genedlaethol sy'n gweithio i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

- Action on elder Abuse

Action on Elder Abuse, PO Box 60001, Streatham, SW16 9BY.
Llinell Gymorth y DU: 080 8808 8141

Mae Action on Elder Abuse (AEA) yn gweithio i ddiogelu ac atal oedolion hŷn diamddiffyn rhag cael eu cam-drin. Mae'n rhedeg llinell gymorth genedlaethol ac yn sefydliad ymbarél gyda'r gallu i arwyddbostio i gyrff cysylltiedig ar draws Cymru a Lloegr.

Pobl ag Anableddau

- Mencap Cymru

31 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GF
0808 808 1111 www.mencap.org.uk

- yn rhedeg Llinell Cymorth Anableddau Dysgu Cymru sy'n cynnig gwybodaeth a chefnogaeth ar amrywiaeth o faterion.

LGBT

- The LGBT Excellence Centre Wales

0800 023 2201

Menter gymdeithasol ac elusen sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth am ddim i bobl, sefydliadau a busnesau ar faterion cysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw

iii.)) Gwasanaethau penodol i ogledd Cymru

- Stonewall Cymru

Y Ganolfan Gydraddoldeb, Ffordd Bangor, Penmaenmawr, Conwy LL34 6LF
01492 622
233 08000
502020 www.stonewall.org.u
k/cymru

Elusen adnabyddus ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

- Sefydliad LGBT Gogledd Ddwyrain Cymru: Tŷ AVOW, 21 Stryd Egerton, Wrecsam, LL11 1ND

- Bi Cymru/Wales

Ebost: bicymru@yahoo.co.uk
Text: 07982 308812

- Encompass

Caffi Cymunedol Cyngor ar Bopeth, Cable Street, Cei Connah, CH5 4DZ. www.encompass.btik.com

Grŵp LGBT ar gyfer ardal gogledd Cymru a Swydd Gaer yw Encompass. Mae iddo ddimensiwn cymdeithasol ac mae'n cynnig cyfleoedd i aelodau gyfarfod ffrindiau newydd a dod yn rhan o grŵp cefnogol.

❖

Femme douglasaustin@hotm

ail.co.uk

Mae Femme yn grŵp ar gyfer merched lesbiaidd hŷn sy'n cyfarfod bob pythefnos ym Mae Colwyn am goffi neu ginio, tripiau a digwyddiadau

❖ The Gay Outdoor Club

01244 342066,
info@goc.org.uk

Mae'r Gay Outdoor Club yn gweithredu ledled Cymru ac yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a chwaraeon awyr agored a dan do ar gyfer dynion a merched LGBT

❖ Clwb Ciniawa pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol a'u ffrindiau –

Wrecsam, gogledd orllewin Cymru
07834 776 603.

Mae'r clwb ciniawa hwn wedi bodoli ers 2002 ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer pobl LGBT a'u ffrindiau i gyfarfod bob mis mewn bwyty yn Wrecsam.

❖ Mesmac Gogledd

Cymru www.mesmac.com
Keith Parry, 2 Bryn Difyr, Bangor Gwynedd LL57 1H
01248 363431

Mae Mesmac gogledd Cymru yn darparu ystafell sgwrsio ac amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol yn ardal gogledd Cymru.

❖ Viva – Grŵp Ieuenctid LGBT (14-25) –

VIVA, Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl, 17 Bedford St, y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 1SY
01745351293

Gwasanaeth pobl ifanc LGBT ym Mhrosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl sy'n cynnal cyfarfod grŵp wythnosol (dydd Mawrth 5pm - 8pm) ar gyfer pobl ifanc LGBT rhwng 14-25 oed yw VIVA . Mae gwasanaeth 1 i 1 hefyd ar gael drwy apwyntiad. Mae gan Viva lyfrgell adnoddau bach ac mae'n cynnig hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i sefydliadau lleol sy'n gweithio efo pobl ifanc.

5.2.5 Anhwylder Meddwl

iii.) Gwasanaethau penodol i ogledd Cymru

- Hafal

Hafal Sir Ddinbych:
Nina Parsonage, Arweinydd y Ganolfan
Bryn Y Wal
Pentre Lane
Rhuddlan
Sir Ddinbych
LL18 6LA.
Ffôn: 07805665580
E-bost: nina.parsonage@hafal.org

Hafal Wrecsam
Karen Edwards, Rheolwr y Gwasanaeth
Tŷ Luke O'Connor
Barter Court
Barrack Field
Hightown
Wrecsam LL14 8QT
Ffôn: 01978 310936
E-bost: wots@hafal.org

Hafal Gwynedd:
Arosfa
110 Stryd Fawr
Porthmadog
Gwynedd LL49 9NW
gwyneddarosfa@hafal.org
Ffôn: 01766 513800

Hafal Conwy:
Heather Russell-Hughes
Rheolwr y Gwasanaeth
Y Ganolfan Adnoddau Iechyd Meddwl

Ffordd Nant y Gamar
Craig-y-Don
Llandudno LL30 1YE
Ffôn: 01492 860926
E-bost: aberconwy@hafal.org

Hafal Sir y Fflint:
Janet Fletcher
Cydlynydd Cyswllt Teuluoedd,
Ysbyty Cymunedol Glannau Dyfrdwy
Hafal,
Aston House,
Plough Lane, Shotton,
Glannau Dyfrdwy
CH5 1XS F f ô n : 01244 834 927
Symudol: 07966 017 647
E- Bost: flintshire@hafal.org

> Sefydliad yw hwn sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol sy'n cynnwys cefnogaeth a chyngor uniongyrchol, cefnogaeth mewn argyfwng, cyswllt ag eraill dros y ffôn, eiriolaeth, cefnogaeth mewn amgylchedd grŵp, cyflwyno pobl i'w gilydd er mwyn gwneud ffrindiau a phrosiectau cyflogaeth a hyfforddiant.

5.2.6 Troseddu yn erbyn Plant

Gall plant fod yn ddioddefwyr trosedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae gan lawer o ddioddefwyr trosedd blant sy'n cael eu heffeithio gan yr hyn ddigwyddodd. Mae cyngor a chefnogaeth ar gyfer pobl sy'n profi ac yn byw ag effeithio trosedd ar gael yn genedlaethol ac yn lleol drwy nifer o ffynonellau. Er bod darpariaeth sylweddol ar gyfer plant drwy'r NSPCC a chwnsela yn yr ysgol ar gyfer pobl ifanc, meddygon teulu a cholegau yw prif ddarparwyr gwasanaethau cwnsela ar gyfer pobl ifanc sydd wedi dioddef trosedd.

i) Darpariaeth Cymru a Lloegr

- NSPCC

Llinell gymorth 0808 800 5000
Cymru 02920
267000. www.nspcc.o
rg

> Elusen gyda changhennau lleol sy'n cynnig gwasanaethau fydd yn rhoi'r cymorth, y gefnogaeth a'r amgylchedd y mae plant eu hangen i'w cadw'n ddiogel rhag niwed.

- Childline

0800 1111

Llinell gymorth am ddim adnabyddus ar gyfer plant a phobl ifanc yn y DU. Gall plant a phobl ifanc ffonio i siarad am unrhyw broblem.

- Parent Line Plus

0808 800 2222

Llinell gymorth ledled y DU ar gyfer unrhyw un sy'n gofalu am blant a phobl ifanc

- Action for Children

- Barnados

ii) Darpariaeth benodol i Gymru

- Plant yng Nghymru

Swyddfa Gogledd Cymru, Plant yng Nghymru, Unit 2 Doc Fictoria, Ffordd Balaclafa, Caernarfon LL55 1TH

Dyma elusen gofrestredig sy'n hyrwyddo buddiannau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Mewn gwirionedd dyma'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion gwirfoddol, statudol a phroffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n sefydliad aelodaeth ac er nad yw'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ei hun, mae'n cynnig arwyddbostio a chyfleoedd i aelodau rannu a chyfnewid sgiliau ac arbenigedd a chyfuno gwybodaeth a phrofiad.

iii) Darpariaeth benodol i ogledd Cymru

Mae gan bob ardal ei Wasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd ei hun a fydd yn gallu rhwydweithio teuluoedd a phlant i wasanaethau fydd yn gwella cynhwysiad cymdeithasol ac /neu'n darparu gwasanaethau cefnogi

Gwynedd-Ni (Gwasanaeth Gwybodaeth ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd)
Llyfrgell Caernafon, Pavilion Hill, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AS Ffôn: 01286 675570
E-bost: Gwynedd-Ni@gwynedd.gov.uk
Gwefan: www.Gwynedd-Ni.org.uk

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn
Canolfan Plant Llangefni,
Ffordd y Coleg,
Lôn Talwrn,
Llangefni,
Ynys Môn
LL77 7LP
Ffôn:01248 25800
E-bost: cis@anglesey.gov.uk
Gwefan: [www.younganglesey.org.uk](http://www.younganglesey.org.uk)

Gwasanaeth Gwybodaeth
Teuluoedd Conwy
The Old School Lane Centre
Church Walks
Llandudno
LL30 2HL
Ffôn: 01492 577850
E-bost: plant.children@conwy.gov.uk
Gwefan: [www.conwy.gov.uk/children](http://www.conwy.gov.uk/children)

Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd Sir Ddinbych
CanolfanMargaret Morris
Ffordd Gwaenynog
Sir Ddinbych
LL16 3RU
01745 815891
E-bost:- fis@denbighshire.gov.uk
Gwefan:- www.fisdenbighshire.co.uk <http://www.fisdenbighshire.co.uk/>.

- Prosiect Pobl Ifanc Hafan Cymru

Wrecsam,
01267 225555

Llety ar gyfer dynion ifanc diamddiffyn 16 – 25 oed.

5.2.7 Dioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

- Cydlynwyr atal ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae cydlynydd atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhob un o chwe sir gogledd Cymru. Mae gan bob un o'r landlordiaid cymdeithasol mawr (darparwyr tai) staff sy'n gallu ymgysylltu â phobl sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Bydd yr unigolion hyn yn gweithredu fel cyfryngwyr pan fydd problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn codi

Cyngor Ynys Môn
Ymholiadau Cyffredinol: 01248 752820
Tîm Gorfodaeth Tai: 01248 752836/752835
E-bost Cyf: ehealth@anglesey.gov.uk

Cyngor Gwynedd
Uned Diogelwch Cymunedol
Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon,
LL55 1BN Ffôn: 01286 682602
E-bost: communitysafetypartnership@gwynedd.gov.uk

Cyngor Conwy
Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Ffôn: 01492 575177
E-bost: communitysafety@conwy.gov.uk

Cyngor Dinbych
Canolfan Gwasanaeth Cwsmer: 01824 706101
E-bost: community.safety@denbighshire.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint
Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, neu os yn ansicr ynghylch pwy all fod o gymorth, cysylltwch â'r Cydlynydd YG ar 01352 702643.
Dylai tenantiaid y cyngor gysylltu â'r Tîm Rheoli'r Ystâd ar 01352 703532

Cyngor Wrecsam
Tai - 01978 292029
E-bost:tenancyenforcement@wrexham.gov.uk
Diogelwch Cymunedol
Ffôn: 01978 297042
E-bost: communitysafety@wrexham.gov.uk

Cymdeithasau Tai

Cartefi Conwy
Llinell Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 01492 517700
E-bost: antisocialbehaviour@cartreficonwy.org

Cartrefi Gwynedd
Ymholiadau Cyffredinol: 0300 123 8084
E-bost: enquiries@ccgwynedd.org.uk

Clwyd Alyn (Pennaf)
Ffôn: 01745 536800 neu 0800 1835757
E-bost: enquiries@clwydalyn.co.uk

Cymru a'r Gorllewin
UYG ar 0800 052 2526
E-bost: asbu@wwha.co.uk

Tai Eryri
Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Gwynedd, LL54 6LY
neu
33-35 Stryd Fawr, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7NA
Ffôn: 01286 881588 (Gwynedd) neu 01248 750359 (Ynys Môn) E-bost: enw@taieryri.co.uk <mailto:enw@taieryri.co.uk>

Tai Clwyd
54 Stryd y Dyffryn,  Dinbych LL16 3BW
Ffôn: 0345 230 3140
E-bost: taiclwyd@taiclwyd.com

Tai Gogledd Cymru
Plas Blodwel, Broad Street, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9HL
Ffôn: 01492 572727
E-bost: customerservices@nwha.org.uk

- Gwasanaeth Datrys Anghydfod

Sir Ddinbych
Neuadd Morfa, Stryd y Baddon, y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3EB
01745 345502
01978
266626 wrexham.crs@thewa
llich.net

Sir y Fflint
Tŷ St John, Ffordd Gaer, Wrecsam LL12 7AX
01978 355155 / 01978
340914 wrexham.crs@thewalli
ch.net

Wrecsam
Richmond House, Ffordd Grosvenor Road, Wrecsam,
LL11 1BT Ffôn: 01978 340914
Ffacs: 01978
448289 wrexham.crs@thewa
llich.net

Mae’r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Y Wallich, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych ac mae ar waith yn ardaloedd awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Mae’r gwasanaeth yn rhoi sylw i achosion o ddigartrefedd drwy weithio’n bennaf gyda phobl ifanc sydd mewn anghydfodau a allent beryglu eu llety. Mae’r gwasanaeth yn defnyddio cyfryngu i geisio dod o hyd i atebion sy’n dderbyniol i bawb .

- Prosiect Tai yn Gyntaf Ynys Môn

2-4 Stryd y Farchnad, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1UL
01407 765274
E-mail: hfa@thewallich.net

Y prif amcanion yw helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i gartref parhaol yn gyflym a darparu’r gefnogaeth briodol i gleientiaid. Mae’r Prosiect yn darparu gwasanaethau ar gyfer dynion  a merched digartref  25 oed a throsodd nad oes

ganddynt unrhyw fynediad i lety parhaol ac sydd ag anghenion cefnogi y gellir eu diwallu drwy gefnogaeth gysylltiedig â thai.

- St John's

St John's,  Ffordd Gaer, Wrecsam, LL12 7AX
01978 355 155
E-bostst.johns@thewallich.net

Yn darparu llety a chefnogaeth 24 awr ar gyfer dynion a merched digartref 18 +

- TASS

Richmond House, 31 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BT
01978 340915
01978 448289
E-bost: mail@thewallich.net

Mae TASS yn cynnig gwasanaeth cefnogi tenantiaid ar gyfer pobl sydd wedi'u lleoli mewn llety dros dro ar gyfer y  digartref (gan gynnwys gwely a brecwast) gan Dîm Digartrefedd Awdurdod Lleol Wrecsam.

5.2.8 Dioddefwyr Troseddau Treisgar

- Cefnogaeth ar ôl Llofruddiaeth a Dynladdiad (SAMM)

http://www.samm.org.uk/

Dyma elusen genedlaethol yn y DU sy'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol i deuluoedd sydd mewn profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad. Mae eu gwasanaethau ar gael drwy linell gymorth a phorth ar-lein.

## 5.3 Crynodeb o Gasgliadau'r Bennod

Aeth y bennod hon a'r bennod flaenorol i'r afael ag Amcan 2 y prosiect ymchwil. Edrych ar y data sy'n bodoli ynghylch darpariaeth gwasanaethau cysylltiedig ag anghenion dioddefwyr ar draws chwe sir gogledd Cymru ac edrych ar lefel a natur y gwasanaethau a ddarperir

- Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cysylltu â dioddefwyr troseddau craidd i gynnig gwasanaeth iddynt.  Fodd bynnag ni chysylltir â dioddefwyr YG a throseddau heb fod yn rhai craidd i gynnig gwasanaeth iddynt.

- Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cysylltu â dioddefwyr troseddau craidd ac yn cynnig gwasanaethau yn unol ag anghenion a aseswyd.

- Darperir gwasanaeth tystion yn holl lysoedd gogledd Cymru ac mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn arwain arfer yn y system cyfiawnder troseddol cysylltiedig â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig.

- Mae llwybr clir o ddarpariaeth gwasanaeth yn bodoli ar gyfer achosion ble asesir bod dioddefwyr camdriniaeth ddomestig mewn perygl mawr o niwed. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau i'r llys, MARAC a chefnogaeth drwy IDVA.

- Mae Panelau Camdriniaeth Ddomestig mewn Unedau Diogelu'r Cyhoedd yn arwyddbostio dioddefwyr camdriniaeth ddomestig at wasanaethau cefnogi (yn Wrecsam mae hyn bellach yn digwydd drwy'r MASH).

- Mae gan bob Awdurdod Lleol wasanaeth IDVA.

- Mae awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy yn darparu mesurau caledu targed.

- Mae gwasanaeth RASA ar gael yn ardaloedd Dwyreiniol a Gorllewinol gogledd Cymru yn ogystal â SARC canolog.

- Mae un ISVA ar gyfer ardal gogledd Cymru i gyd sy'n delio â dioddefwyr ble mae cyhuddiad wedi'i ddwyn yn erbyn y drwgweithredwr.

- Mae cyrff cysylltiedig â Chymorth i Ferched Cymru yn darparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer merched a phlant sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol.

- Mewn rhai ardaloedd mae cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd yn llai datblygedig a darperir cymorth drwy gyrff cenedlaethol megis y Dyn project.

- Mae gwasanaeth cefnogi ac eiriolaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig hŷn ar gael yn Wrecsam yn unig.

- Mae darparwyr gwasanaethau camdriniaeth ddomestig wedi'u lleoli'n bennaf mewn canolfannau trefol ond maent yn cynnig gwasanaeth estyn allan.

- Er bod gwybodaeth benodol a gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn bodoli, ni ddaethpwyd o hyd i ddarpariaeth debyg ar gyfer dioddefwyr YG neu droseddau casineb.

# 6.0 Pennod Chwech: Anghenion Dioddefwyr

Mae'r bennod hon yn cyflwyno dadansoddiad thematig o'r casgliadau o'r cyfweliadau ansoddol gyda'r rhai a gyfrannodd at yr astudiaeth ac mae'n canolbwyntio ar bedwar amcan y prosiect ymchwil sy'n weddill:

> Edrych gyda rhanddeiliaid ar natur anghenion dioddefwyr a digonoldeb y ddarpariaeth bresennol o ran diwallu'r anghenion hynny gan gynnwys gweld a oes bylchau yn y ddarpariaeth ar draws chwe sir gogledd Cymru ac os felly, ymhle.
>
> Edrych gyda rhanddeiliaid ar sut y mae dioddefwyr trosedd yn cael mynediad i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr ar hyn o bryd a beth sy'n hwyluso neu'n rhwystro'r mynediad hwnnw
>
> Edrych gyda rhanddeiliaid ar y mecanweithiau presennol ar gyfer gwerthuso deilliannau gwasanaethau o safbwynt helpu dioddefwyr i ymdopi â, a dod dros eu profiadau.
>
> Edrych gyda rhanddeiliaid ar eu canfyddiad ynghylch sut y dylid blaenoriaethu a datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen ac yng ngoleuni patrymau troseddu sy'n dod i'r amlwg ar draws gogledd Cymru.

## 6.1 Anghenion Dioddefwyr

<u>6.1.1 Diogelwch ac Amddiffyniad rhag bod yn ddioddefwr trosedd</u>

Nododd y darparwyr gwasanaethau a ymatebodd bod anghenion dioddefwyr yn amrywio o achos i achos ac yn unol â lefel y niwed yr oeddent wedi'i brofi. Un angen yr oedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn ei rannu fodd bynnag oedd yr angen i osgoi rhagor o ddioddefaint a niwed. Gellid cysylltu'r fath anghenion a'r dyhead i ddod o hyd i atebion diogelwch ymarferol megis addasiadau i'r cartref teuluol e.e. gosod larwm cartref, symud tŷ er mwyn osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu droseddwr yn cael ei garcharu am gyfnod sylweddol o amser:

> Yr hyn y maent ei angen fwy na dim arall yw bod yn ddiogel, peidio byw mewn ofn y bydd yr un peth yn digwydd drosodd a throsodd (SP 5)
>
> Mae merched yn aml yn ofnus ac i fod yn onest, angen sylfaenol iawn yw bod yn ddiogel - ac yn aml iawn dim byd arall - dim ond i'r broblem fynd i ffwrdd ac os nad yw hyn yn bosibl, iddynt deimlo'u bod yn cael eu diogelu. (SP3)

Deallwyd bod potensial i gamdriniaeth ddomestig achosi niwed seicolegol ac emosiynol mwy hirdymor nid dim ond i'r sawl sy'n cael eu cam-drin yn uniongyrchol ond i'r rhai sy'n dyst i'r fath gamdriniaeth neu sy'n cael eu dal yn ei ganol o dro i dro. O ganlyniad i hyn felly ystyriwyd bod plant angen eu diogelu mewn amgylchiadau ble'r oeddent yn dyst i gamdriniaeth ddomestig:

> Rydym yn gweithio'n bennaf gyda merched ond y gwir ydy ei bod yn fwy cymhleth na hynny oherwydd mae'n rhaid i ni yn aml iawn flaenoriaethu lles y plant. Gall lles merched a phlant fod ynghlwm a'i gilydd ond nid yw bob amser mor syml â hynny, nid y sawl yr ydw i'n siarad â nhw ydy'r prif ddioddefwr bob amser (SP7)

I un grŵp o ddioddefwyr nid ystyriwyd mai atal yr un peth rhag digwydd eto oedd y flaenoriaeth bennaf. Roedd hyn mewn perthynas â dioddefwyr troseddau rhyw hanesyddol. Soniodd un ymatebydd am sut y gallai anghenion dioddefwyr trais rhywiol hanesyddol fod yn wahanol i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a sut y gallai diffyg grwpiau cefnogi a chwnsela arbenigol effeithio'n arwyddocaol ar y grŵp hwn o ddioddefwyr:

> Merched yw dioddefwyr trais domestig gan mwyaf a'r pethau pwysicaf yw diogelwch yn gyntaf ac yna ymateb therapiwtig o bosibl Mewn perthynas â thrais rhywiol rhwng oedolion fe allai fod faterion yn ymwneud â diogelwch ond nid dyma'r achos o reidrwydd. Mae llawer o achosion sy'n dod ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol neu wasanaethau eraill yn hanesyddol ac felly'n gofyn am gefnogaeth wahanol sy'n dueddol o beidio â bod yno oherwydd nad yw'n cael ei weld fel argyfwng (SP21)

| Stori Nia |
|---|
| Roedd fy ngŵr fy nghuro am 18 o flynyddoedd, ers pan o ni'n 16. Nes i ddim ei riportio am hir am fy mod i ofn...a wedyn mi ddechreuodd o frifo'r plant a dechreuodd y gamdriniaeth lafar a meddyliol....wrth edrych yn ôl dwi'n flin iawn na chafodd y gwasanaethau cymdeithasol eu cynnwys yn gynt. Mae'n glir rŵan y dylai fy mhlant fod wedi cael eu rhoi ar y gofrestr diogelu plant a dylai'r heddlu fod wedi chwarae rhan yn llawer cynt. Roedd 'na fethiannau yn y proffesiwn meddygol hefyd gan fod yna arwyddion o gamdriniaeth ond ddigwyddodd dim byd - dylen nhw fod wedi ei riportio a gweithredu arno. Yn y diwedd yr heddlu helpodd fi i ymdopi - yr UDC, alla'i ddim eu canmol ddigon....cafodd fy mywyd a bywydau fy mhlant eu gwneud yn fwy diogel yn eu dwylo nhw. |

### 6.1.2 Cyfiawnder

Angen arall a ddynodwyd gan ymatebwyr ar ran darparwyr gwasanaethau oedd 'cyfiawnder'. Y gred oedd bod cyfiawnder yn cael ei wneud pan oedd profiadau pobl fel dioddefwyr yn cael eu cydnabod a phan oedd troseddwyr yn cael eu harestio a'u dal yn atebol am y niwed yr oeddent wedi'i achosi. Roedd dioddefwyr a riportiodd y

troseddau yn eu herbyn i'r heddlu yn mynegi'r angen hwn yn amlwg ond credir bod yr un angen gan ddioddefwyr nad oeddynt yn riportio'r troseddau yn eu herbyn i'r heddlu. Mewn achosion lle nad oedd unigolion yn riportio materion i'r awdurdodau, deellir mai'r rheswm am hyn yw oherwydd eu bod yn amau a fyddai'r trosedd yn cael ei gydnabod neu'n amau a fyddai'r troseddwr yn cael ei arestio a'i ddal yn atebol:

> Mae llawer iawn ohonyn nhw heb unrhyw hyder yn yr heddlu a'r llysoedd a dweud y gwir, er eu bod nhw eisiau cyfiawnder, ond oherwydd eu bod nhw wedi riportio pethau a dim byd wedi digwydd, neu fod y dyn wedi diflannu am dipyn ac wedyn wedi troi fyny eto ac efallai bod swyddog wedi bod yno ond i'w weld heb fawr ddim diddordeb (SP15)

> Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr be' sy'n digwydd yn y llys - nid yn gymaint y ddedfryd ond yn hytrach bod yr awdurdodau'n cydnabod beth sy'n digwydd, y niwed sydd wedi'i wneud.. mae cael eich poen wedi'i gydnabod yn bwysig iawn (SP 18)

| Stori Jill |
| --- |
| Beth wnaeth fi fwya' blin oedd sut oedd pethau yn y llys. Ei gyfreithiwr o, dwi'n gwbod bod ganddi waith i'w wneud ond aeth hi'n rhy bell. Roedd hi'n trio deud mai fi oedd o, ei fod o wedi priodi ryw ddynes wallgo, yn dweud bob math o bethau amdana' fi fel mai fi oedd yr un ar dreial.... doedd hynna, a'r ffordd wnaeth hi siarad efo fi ddim yn iawn..... be' o' ni isio fwy na dim byd oedd cael fy nhrin fel y dioddefwr ond wnaeth hynny ddim digwydd yn y llys a dim ond pedwar swyddog heddlu wnaeth fy nhrin i fel person.. just 'enw', 'cyfeiriad', 'hmmm'.... byth 'ti'n iawn cyw?' |

6.1.3 Gwneud Synnwyr

Mewn rhai achosion roedd darparwyr gwasanaeth yn deall bod dioddefwyr angen myfyrio a gwneud synnwyr o'r hyn ddigwyddodd er mwyn cael rhywfaint o normalrwydd yn ôl i'w bywydau. Mewn rhai achosion gallai'r myfyrdodau hyn fod gyda theulu a ffrindiau ond mewn achosion eraill efallai y bydd angen presenoldeb unigolion â gwybodaeth arbenigol neu sgiliau seico therapiwtig. Roedd y broses o 'wneud synnwyr' yn gysylltiedig mewn rhai achosion â'r angen i glywed gan y troseddwr ei hun pam y gwnaeth o eu dewis nhw.

> Gall eistedd yno a chlywed stori'r unigolyn ifanc fod yn bwerus iawn..mae'r dioddefwyr bron bob amser yn dweud bod y profiad wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n well a gan amlaf maen nhw'n teimlo dros y person ifanc.... dwi'm yn siŵr os mai ofn ydy o, mae'r rheswm i'w wneud â chyfarfod y person ifanc a gweld nad ydyn nhw ddim yn rhywun i fod eu hofn (SP 28)

Ar adegau ystyriwyd bod yr angen i wneud synnwyr o'u profiadau yn cynnwys bod eisiau rhannu'r profiad o ddioddef trosedd gydag eraill, hynny ydy bod pobl eraill â phrofiadau tebyg yn eu deall:

> Beth mae'r merched 'da ni'n siarad efo nhw yn ddweud maen nhw ei angen fwy na dim byd ydy lle i ddod naill ai i siarad am beth maen nhw yn ei brofi neu am bethau maen nhw wedi eu profi a thrwy hynny ddod i'w deall (SP 5)
>
> Gwir gryfder lle fel hyn yw bod pobl yn gallu dod yma i siarad efo pobl eraill efo'r un profiadau â nhw, bod efo pobl eraill a deall na dim nhw ydy'r unig rai sydd wedi dioddef (SP 4)

Yn gyffredinol, roedd dod o hyd i 'gyffredinolrwydd' yn helpu i leddfu'r euogrwydd yr oedd llawer o ddioddefwyr trais domestig yn ei deimlo:

> Mae gwybod nad ydach chi ddim ar eich pen eich hun yn helpu, gwybod nad chi ydy'r un cyntaf i fynd drwy hyn..mae merched ar wahanol gamau o'r broses o wella felly maen nhw'n gallu helpu ei gilydd drwy bethau (SP20)

Stori Jo

Mi nes i aros efo fo am tua 7 mlynedd, drwy'r holl gicio a tharo a pethau, o ni'n meddwl bod pob perthynas fel 'na, a do' ni ddim yn meddwl mai fo oedd y broblem....aeth pethau'n waeth a mi es i'n sâl, dwi'n meddwl bod 'na enw arno fo, fel PTSD, dwi'n meddwl bod chi'n mynd yn sâl achos bod chi'n eistedd yna'n syllu i'r awyr a just cymryd bob dim fel petai o'n normal ond go iawn da chi'n gwybod nad ydy o ddim. Mae dŵad yma (lloches) wedi gwneud gwahaniaeth mawr i mi, da chi'n gallu bod yn chi eich hun yma a bod yn iawn, mae 'na dipyn o straen efo pawb yn byw efo'i gilydd a chymaint o blant, ond da ni i gyd wedi bod drwy'r un profiad...da ni'n deall ein gilydd a be' ddigwyddodd a da ni'n gwybod does dim angen i ni boeni yma am gael ein beio a chael ein galw'n famau gwael a chael y bai am ddweud rhywbeth a'r holl bethau yna

### 6.1.4 Teimlad o allu rheoli pethau

Dywedodd un ymatebydd ar ran darparwr gwasanaethau y gall bod yn ddioddefwr trosedd arwain at ymdeimlad o fod yn ddi-rym neu o fod wedi colli rheolaeth. Mae cysylltu ag asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig neu ffonio'r heddlu i ddelio â phartner treisgar fodd bynnag, yn cael eu hystyried fel bod â grym a rheolaeth. Yn dilyn hyn, dywedwyd wrthym fod dioddefwyr trosedd angen teimlo mewn rheolaeth ac eisiau cael gwybod sut yr oedd materion cysylltiedig â nhw yn datblygu. Os nad oedd hyn y digwydd, awgrymodd darparwyr gwasanaethau y byddai teimladau o fod yn ddi-rym ac wedi'u herlyn yn dychwelyd:

> Ar ôl i swyddog heddlu fod, weithiau dydyn nhw ddim yn siŵr beth fydd yn digwydd ac mae honno'n sefyllfa wael achos gall peidio gwybod dim byd fod yn waeth na chael gwybod nad oes dim byd wedi digwydd (SP 18)

> Mae angen rhoi mwy o ymdrech i sicrhau fod pobl yn cael gwybod beth sy'n mynd ymlaen. Dw i'n meddwl bod pobl broffesiynol yn aml yn meddwl nad ydyn nhw angen cysylltu â phobl oni bai bod rhywbeth wedi newid ond mae dioddefwyr angen diweddariadau rheolaidd hyd yn oed os nad oes unrhyw beth wedi newid, ac yn aml iawn fydden nhw ddim yn gwybod hynny (SP 27)

> Mae rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd yn bwysig achos mae'n rhaid i chi gofio bod yna yn aml iawn ddyn, a dyn ydy o fel arfer, yn dweud bob math o bethau sydd ddim yn wir wrthi hi (SP 8)

Dywedwyd bod dioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol angen cefnogaeth ddwys i ddeall a dod o hyd i'w ffordd drwy erlyniadau troseddol:

> Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y llys wedi bod yn gwneud yr un peth ers blynyddoedd a dwi'n meddwl eu bod nhw'n anghofio y gall y lle godi ofn ar rai pobl. Dydy dioddefwyr ddim wedi arfer cael sylw am unrhyw beth heb son am rywbeth fel camdriniaeth ddomestig ble gallant gael eu beio, ac os ydy o'n dreial mi fyddan nhw'n cael y bai. Maen nhw'n gallu bod yn ddewr iawn ac i fod yn onest mae'n syndod faint sy'n troi fyny (SP 3)

> Gall pobl ddychmygu pob math o bethau a be' maen nhw angen ydy rhywun i ddangos y llys iddyn nhw, egluro sut mae'n gweithio a thawelu eu meddwl nad fydd y profiad mor ddrwg a maen nhw'n feddwl fydd o (SP 17)

Dywedodd darparwyr gwasanaeth wrthym fod gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn beth pwysig iawn oherwydd bod ansicrwydd yn cynyddu ymdeimlad dioddefwr o fod yn agored i niwed:

> Os da chi ddim yn gwybod hanner yr amser be' sy'n mynd ymlaen ond bod chi angen gwybod rhag ofn bod 'na bethau ddylech chi wneud neu le y dylech chi ei osgoi... ydy o yn nhŷ ei fam neu ydy o'n dwad adra (SP 5)

Anna

Beth ddigwyddodd oedd fy mod i'n cael fy mwlio a f'aflonyddu gan bobl oedd yn byw reit agos...bygwth llosgi'r tŷ, canu'r gloch, herio ayyb. Roeddwn i ar ben fy nhennyn...doedden nhw ddim y math o bobl oeddech chi'n gallu rhesymu efo nhw. Ro'n i'n riportio pethau ac yn cadw log fel ddaru nhw ddeud ond do' ni ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd, ddaeth neb draw i egluro, roedd yr heddlu'n troi fyny ac yn dweud ok, gwnewch nodyn ohono fo a ffoniwch ni ond doedd neb i'w gweld eisiau gwneud dim byd a doedd dim diwedd i'w weld i'r sefyllfa

6.1.5 Anghenion Ymarferol

Deallwyd bod gan ddioddefwyr troseddau, ond yn enwedig dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, amrywiaeth o anghenion mwy ymarferol o bryd i'w gilydd. Enghraifft fyddai cymorth gyda llety a chyngor cyfreithiol parthed hawliau eiddo a gofal plant:

> Mae gan rhwng 50 a 60% o'r ffigwr hwnnw anawsterau efo camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac yn ein lloches ni mae'r angen yn 100% ac mae gynnon ni bedair dynes yno ar y tro yn ogystal â pha bynnag faint o blant sydd gynnyn nhw a materion cyfreithiol yn mynd ymlaen (SP 20)

> Mae gan nifer fawr o'r merched da ni'n gweithio ef nhw broblemau gyda chymorth cyfreithiol a gofal plant, ac mae 'na faterion cysylltiedig â gweithwyr cymdeithasol a rhianta. (SP 4)

> Da chi angen rhywle i fyw, mae eich sefyllfa efo budd-daliadau yn newid, mae rhai angen sortio ysgol newydd allan i'r plant oherwydd eu bod nhw wedi symud, wedyn mae cael tŷ yn broblem – dim cael tŷ ond cael un da mewn ardal dda (SP 13)

Stori Nancy (Rhan un)

Ffoniodd yr heddlu fi'r pnawn hwnnw a dweud y byddai'r Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn cysylltu ac o fewn tua wythnos roedd hi wedi gwneud hynny - roedd 'na 'chydig o oedi. Doedd dim rhaid i mi ofyn, mi wnaethon nhw gynnig. Roedd yr heddlu yn neis ac help mawr ac roedd (enwi'r IDVA) yn wych...mi wnaeth hi bob dim i mi, trefnu gosod larymau ar y ffenestri, cysylltu efo'r gwasanaethau cymdeithasol i'n helpu fi achos dwi'n anabl. Aeth hi a fi i bob man, fy helpu i lenwi ffurflenni a'n helpu fi yn gyffredinol i ddelio efo fy sefyllfa.

(Enw'r IDVA) oedd yr help mwyaf ac yn gwybod beth i'w wneud – roedd hi'n gwybod bob dim. Mi wnaeth hi alwadau ffôn i mi, aeth i a fi i edrych ar opsiynau tai ac mae hi'n dal i anfon negeseuon testun. Mi ddaeth hi i'r llys efo fi – doeddwn i ddim yn gallu mynd i mewn i ddechrau ond mi lwyddodd i nghael i i fynd i mewn a dywedodd wrtha'i beth fyddai'n digwydd.

Mi fuaswn i wedi bod ar goll yn llwyr heb (enw'r IDVA) ac mi wnaeth hi hyd yn oed fynd a fi i weld cyfreithiwr ac asiantaeth gwiriadau credyd er mwyn gofalu y byddai'r taliadau morgais yn dal i gael eu gwneud. A deud y gwir, oni bai amdani hi, mae'n debyg y basa ni wedi mynd yn ôl at ein gilydd achos fasa gen i unman arall i fynd... hebddi hi mi fuaswn i wedi bod ar ben fy hun .

## 6.2. Diwallu anghenion dioddefwyr

### 6.2.1 Diogelwch am Amddiffyniad rhag (ail) Erledigaeth

Mae rhai darparwyr gwasanaethau yn awgrymu y gall effaith gronnus ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn arwyddocaol a'u barn felly oedd bod y ffaith bod dioddefwyr ymddygiad o'r fath yn cael gwasanaeth israddol o gymharu â dioddefwyr troseddau eraill yn broblem:

> Ac fel y gwyddom gall YG fod o lefel isel, ond pan mae'n gyson ac yn bersonol yna mae effaith hynny ar bobl ddiamddiffyn yn gallu bod yn llawer gwaeth nag a fyddai effaith rhai troseddau, ond dydyn nhw ddim yn cael gwasanaeth (SP 14)

> Does gan bobl sy'n profi YG fawr neb ond yr heddlu i droi atyn nhw. Maen nhw'n ffonio a da ni'n ymateb, ond pan da ni'n cyrraedd yn aml iawn does 'na ddim byd y gallwn ni ei wneud achos bod y digwyddiad wedi darfod. Wedyn da ni'n mynd i ffwrdd a da ni'n cael galwad arall. Mae'n rhwystredig iawn i'r dioddefwyr ac i ni (SP 27)

Yn galonogol fodd bynnag, dywedodd ymatebydd o'r heddlu wrthym fod trefniadau yn eu lle i ddarparu peth cefnogaeth i rai dioddefwyr YG yng ngogledd Cymru:

> Os oes digwyddiad o YG a materion perthnasol i droseddau casineb bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at arolygydd a bydd asesiad risg. Os caiff y mater ei raddio fel un sydd angen blaenoriaeth bydd yn cael ei gyfeirio i'r tîm rheoli ardal ac yn cael ei drafod yn y grŵp tasgio YG amlasiantaeth sy'n cyfarfod bob mis ym mhob ardal a gallai arwain at gynhadledd datrys problemau cymunedol (SP 25)

Erlid drwy gamdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol, yn ôl y rhan fwyaf o ddarparwyr, sy'n debygol o gael yr effeithiau mwyaf ar ddioddefwyr. Roedd darparwyr gwasanaethau yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y modd y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn mynd ati i gwblhau asesiadau (DASH) a CID-16s a'u hanfon ymlaen i'r UDC pan fyddant wedi mynychu digwyddiadau o gamdriniaeth ddomestig. Fodd bynnag, dywedwyd nad oes digon o fanylion mewn rhai asesiadau gan staff yr heddlu i ganiatáu dosbarthu'r dioddefwr yn ddioddefwr risg uchel, canolig neu isel :

> Dydyn nhw ddim yn eu gwneud nhw'n dda iawn mewn rhai achosion, dyna'r profiad ni, felly da ni'n eu gwneud nhw eto... dwi'n meddwl eu bod nhw i gyd yn cael hyfforddiant ac mae'r swyddogion newydd yn eu llenwi nhw....wel, yn well na rhai sydd, da chi'n gwbod, wedi bod o gwmpas yn hirach, da ni gyd dan bwysau felly yn aml iawn llenwi'r ffurflenni ydy'r peth cyntaf i fynd (SP 4)

Mewn perthynas â hyn, soniodd un swyddog heddlu am broblemau gyda llenwi DASH ac anawsterau o ran darganfod a oedd y dioddefwr wedi ffonio'r heddlu o'r blaen:

> I fod yn onest, dwi dipyn fel y gweddill ohona ni - ddim yn siŵr sut mae'r Blackberry yn gweithio felly dwi ddim yn gallu cael y ffurflenni DASH i fyny arno fo - mae 'na 24 o gwestiynau felly da ni'n cadw nhw yn ein pennau a'u gofyn nhw, ac yn aml yn delio efo'r gwaith papur ar ôl bod allan - dim ond yr adeg hynny fyddwn ni'n gwybod os da ni wedi bod at y galwr yna o'r blaen ai peidio. Di'r ffordd da ni'n cael gafael ar wybodaeth ddim wedi datblygu gymaint â hynny. Mi fasa chi'n meddwl bod yr heddlu wedi symud ymlaen lot efo datblygiadau technolegol ond da ni'n dal i ddefnyddio llyfrau poced ac ati, felly pan da ni allan dydy rhywun ddim bob amser yn gwybod neu ddim yn gallu cael at y wybodaeth maen nhw ei hangen, felly dwi'n gofyn cwestiynau a gwneud nodiadau a delio efo pethau wedyn yn yr orsaf (SP 26)

Dywed darparwyr gwasanaethau bod gwybodaeth am bob trosedd sy'n digwydd dros gyfnod o 24 awr yn cael ei throsglwyddo unwaith y dydd i Uned Gofal Tystion Cymorth i Ddioddefwyr. Roedd Cymorth i Ddioddefwyr wedyn yn cysylltu â dioddefwyr troseddau craidd ond nid dioddefwyr troseddau eraill er y gallai digwyddiadau o'r fath gael effaith sylweddol ar ddioddefwr.

Roedd ein cyfweliadau gyda dau swyddog heddlu yn ddefnyddiol o ran dod i wybod sut y gallai rhai dioddefwyr sydd angen gwasanaeth beidio â chael y gwasanaethau diogelwch/cefnogi priodol. Amlygodd ein cyfweliadau beth diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y darperir cymorth i ddioddefwyr. Pan ofynnwyd i un swyddog sut yr oedd dioddefwyr yn cael gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr, dywedodd:

> Achos mod i'n cario cerdyn ac yn ei roi o i bobl. Mae'n well gan rai pobl beidio cael cerdyn ac ysgrifennu'r rhif i lawr rhag i neb wybod mae rhif cymorth i ddioddefwyr ydy o, dwi hefyd yn rhoi rhif i bobl mewn achosion o gamdriniaeth ddomestig ...rhif llinell gymorth camdriniaeth ddomestig Cymru gyfan er mwyn iddyn nhw allu cysylltu (SP 27)

Pan ddywedwyd bod ffeiliau trosedd dros gyfnod o 24 awr yn cael eu hanfon at Cymorth i Ddioddefwyr meddai swyddog arall:

> Do ni ddim yn gwybod bod hynna'n digwydd, do ni'm yn gwybod hynny o gwbl er ro' ni wedi bod yn meddwl os dwi'n onest pam bod rhai adroddiadau yn nodi bod cyswllt wedi'i wneud efo Cymorth i Ddioddefwyr (SP 26)

Un o oblygiadau posibl y diffyg ymwybyddiaeth hwn yw na fyddai swyddogion yn ymwybodol o bryd y byddai atgyfeiriad awtomatig yn cynhyrchu 'dim ymateb' gan Cymorth i Ddioddefwyr (troseddau heb fod yn rhai craidd) ac felly pryd y byddai

angen cyfeirio dioddefwr yn unigol ac yn fwy pendant at y gwasanaeth gan y swyddog fynychodd yr achos. Dywedodd Cymorth i Ddioddefwyr wrthym, er mai dim ond i ddioddefwyr troseddau craidd y maent yn rhoi ymateb awtomatig, y gallai swyddogion gyfeirio unrhyw ddioddefwr atynt ar unrhyw adeg am wasanaeth unigol

Dywedodd darparwyr gwasanaethau wrthym er bod rhai dioddefwyr yn wynebu'r posibilrwydd o beidio â derbyn unrhyw wasanaeth, roedd eraill yn wynebu'r posibilrwydd o gael cyswllt gan amrywiaeth o asiantaethau. Roedd hyn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn achosion o gamdriniaeth ddomestig. Oherwydd bod camdriniaeth ddomestig yn drosedd craidd byddai dioddefwyr yn cael sylw Cymorth i Ddioddefwyr. Ar yr un pryd, ac o ganlyniad i DASH a CID-16, byddant yn dod i sylw tîm yr UDC lleol ac yn cael eu trafod naill ai ar lefel leol neu gan Banel camdriniaeth Ddomestig (gweler tudalen 75 am ddisgrifiad o'r broses hon). Yn dilyn hyn efallai y bydd dioddefwr yn cael cyswllt gan Cymorth i Ddioddefwr a hefyd IDVA (os aseswyd bod yr achos yn un risg uchel) neu wasanaethau Cymorth i Ferched/Camdriniaeth Ddomestig lleol (mewn achosion risg canolig neu isel) a staff Uned Tystion GEG:

> Dwi'n gweld hon fel problem go iawn - does 'na ddim gwasanaethau cydlynol ac mae hynny'n wendid, ac mae o hefyd yn golygu dyblygu gwaith tydi...mae 'na hefyd faterion diogelwch i feddwl amdanyn nhw a does 'na ddim pwynt i rywun o Gaerdydd ffonio pan maen nhw'n gwybod y bydd y peth yn cael ei drafod yn lleol hefyd - fydda nhw ddim yn cynnig unrhyw beth da ni ddim yn ei gynnig (SP 5)

> Bydd Cymorth i Ddioddefwyr yn cymryd galwad dros y ffôn ac yn cynnal asesiad risg ond dwi'n meddwl bod 'da ddyblygu yn fan hyn ac y byddai'n well cyfeirio'r mater i'r UDC ac i'r heddlu ei glustnodi i un o'r siopau un stop yn y gwahanol ardaloedd. Dwi'n medwl bod Cymorth i Ddioddefwyryn gwneud gwaith gwych mewn ffyrdd eraill ond dydn nhw ddim yn gwneud pethau corfforol neu ymrferolar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig – dylai hynny ddod yn uniongyrchol gan yr heddlu (SP 3)

Mae'r un posibilrwydd o ddyblygu i'w weld yn bodoli mewn perthynas â rhai troseddau casineb. Bydd troseddau casineb yn cael eu riportio i Cymorth i Ddioddefwyr ond eto dywedodd yr heddlu wrthym:

> Cyfeirir unrhyw drosedd casineb at swyddog o reng arolygydd neu uwch i reoli sut yr ydym yn ymdrin â'r dioddefwr a'r trosedd - y pecyn cyfan a deud y gwir. Rydym yn adnabod y grwpiau trydydd sector yr yda ni'n credu fydd yn gallu helpu'r dioddefwr....bydd yr uned amrywiaeth yn cysylltu â'r dioddefwr yn ogystal â gwneud atgyfeiriad at Cymorth i Ddioddefwyr er mwyn ychwanegu lefel arall o gefnogaeth (SP 25)

Mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddyblygu gwaith, dywedodd un gweithiwr llys:

> Mae TG yn ein gadael ni i lawr yn aruthrol o ran ein cyfrifoldebau i rannu ac er ein bod yn well o ran gofal tystion, mae'n bosibl y bydd tri

> neu bedwar o bobl yn cysylltu â nhw yn hytrach na bod yna un pwynt cyswllt unigol.

Mewn achosion o gamdriniaeth ddomestig, yn ôl rhai darparwyr gwasanaeth mae llunio cynlluniau diogelwch gyda dioddefwyr yn gymorth o ran diwallu anghenion diogelu. Ystyriwyd bod y fath gynllunio diogelwch yn digwydd fel mater o drefn mewn achosion risg uchel ble roedd IDVA wedi'u cynnwys yn gynnar (yn dilyn didoli UDC/cyfarfod panel CDd). Fodd bynnag roedd llai o sicrwydd ynghylch cynnal y fath gynllunio diogelwch mewn achosion risg canolig/isel:

> Os nad yw'r achos yn risg uchel yna bydd yn cael ei gyfeirio at asiantaeth arall a gallai hynny fod yn Cymorth i Ferched ond gallai hefyd fod yn 'Dyn' o mai dyn ydy o - dydy hi ddim yn hawdd olrhain a dilyn beth sy'n digwydd yn yr achosion hynny, dwi'n meddwl bod cyswllt yn cael ei wneud efo'r asiantaethau ond sut ac os ydy pobl yn manteisio ar y gwasanaethau, dw i ddim yn gwybod (SP 5)

Priodolwyd y gwahaniaeth yn rhannol i'r ffordd y cysylltir â dioddefwyr. Dywedwyd bod IDVAs yn cynnig 'gwasanaeth estyn allan pendant' i ddioddefwyr a'u bod felly yn fwy penderfynol a dyfal yn eu hymdrechion i ymgysylltu â dioddefwyr trosedd nag asiantaethau sy'n delio ag achosion risg canolig ac isel.

Meddai ymatebydd o gorff cysylltiedig â Chymorth i Ferched Cymru:

> Da ni'n cael atgyfeiriadau o'r UDC ac yn mynd ar eu hôl drwy ffonio pobl i ddweud wrthynt am ein gwasanaeth. Dyda ni byth yn anwybyddu atgyfeiriad ond mae terfynau o ran yr hyn allwn ni ei wneud... ein hathroniaeth oedd bod yn rhaid i ferched ddod atom ni i ofyn am wasanaethau.... da ni'n hapusach yn bod yn fwy rhagweithiol nag oedden ni ond mae maint yr atgyfeiriadau yn gosod cyfyngiadau

O ran diwallu anghenion i 'deimlo'n fwy diogel' mae'r cyfraniad a wneir gan asiantaethau sy'n rhan o weithgaredd caledu targed megis gosod cloeon ar ddrysau a chreu ystafelloedd diogel yn bwysig yn ôl darparwyr gwasanaethau. Mewn perthynas ag un gwasanaeth o'r fath a ddarparwyd gan un asiantaeth, meddai un ymatebydd:

> Maen nhw'n gallu gwneud pethau syml fel rhoi lletem drws i chi – dydy hynny ddim yn swnio'n glyfar iawn ond maen nhw'n bethau clyfar o ran cadw pobl allan – maen nhw'n troi ystafell yn ystafell banig neu noddfa os leciwch chi, a gallan nhw hefyd wneud pethau fel symud y llinell ffôn i mewn i'r ystafell ddiogel – mae'n prynu amser (SP 18)

Mae nifer o asiantaethau hefyd i'w gweld yn rhan o weithgaredd caledu targed, sydd yn creu rhagor o botensial ar gyfer dyblygu gwaith. Meddai cynrychiolydd yr heddlu wrthym:

> Mae’n dibynnu ar yr awdurdod lleol - da ni’n gwneud gwaith caledu targed mewn rhai ac mae eraill yn ei wneud o ei hunain - mae’n dibynnu a deud y gwir ar ba bartneriaeth diogelwch cymunedol sy’n berthnasol (SP 25)

Stori Nancy (Rhan 2)

Mi ddes i’n ddioddefwr trosedd pan nes i ddioddef trais domestig drwy law fy ngŵr - mi wnaeth o dorri fy arddwrn..... pan ddigwyddodd ychydig cyn hynny, pan nes i ei adael o am wythnos, mi wnaeth o grefu arna’i i ddod yn ôl, a mi nes i, ond mi nes i ei rybuddio fo os byddai’r un peth yn digwydd eto, y baswn i’n ffonio’r heddlu. Mi es i’n ôl ond mi wnaeth o ddigwydd eto, felly mi wnes i ffonio’r heddlu. Un rheswm pam na nes i ddim riportio’r peth yn gynt oedd achos nad oeddwn i’n gwybod pa mor dda ydyn nhw am ddelio ef trais domestig y dyddiau yma - o ni’n meddwl bod pethau dal fel yr hen ddyddiau. Pan nes i riportio’r peth mi nes i ffonio 999 gan ddisgwyl iddyn nhw fynd â fo o ‘na, a mi naethon nhw. Mi wnaethon nhw ffonio fi'r bore wedyn a gofyn os o’ ni i isio mynd ar ôl y peth, achos adeg hynny doeddwn i ddim yn gwybod mod i wedi torri fy arddwrn, ond pan ddaeth swyddog i gymryd datganiad roedd fy mraich yn ddulas ac ro’ ni mewn poen mawr. Mi wnaethon nhw ei gadw fo yn y ddalfa tan y pnawn ac wedyn ei gyhuddo a’i roi o dan amodau mechnïaeth gyda chyfyngiadau i’w cadw oddi wrtha’ i, sef yr union beth oeddwn i isio. Mi ges i fy nhrin yn iawn.

<u>6.2.2 Cyfiawnder</u>

Dywedodd ymatebwyr ar ran rhai darparwyr gwasanaethau bod rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn llai tebygol o riportio eu bod wedi dioddef trosedd ac felly na fyddant yn cael cyfle i weld bod cyfiawnder wedi’i wneud. Mae’r grwpiau hyn yn cynnwys teithwyr, ymfudwyr a phob iau. Yn ychwanegol at hyn dywedodd rhai ymatebwyr y byddai pobl sy’n ymwneud â throseddu eu hunain yn llai parod i riportio eu bod wedi dioddef trosedd:

> Mae 'na lot o drosedd delwyr cyffuriau yn erbyn delwyr cyffuriau a gall peth ohono fo fod yn gas iawn ond fyddwn ni ddim yn clywed amdano fo, neu os ydan ni, bydd y dioddefwr yn gwrthod cydweithredu (SP 26)

Roedd ymatebwyr yr heddlu yn deall bod angen iddyn nhw wneud mwy o ymdrech gyda rhai grwpiau i’w hannog nhw i riportio troseddau. Er bod rhai ymdrechion wedi’u gwneud yn y cyswllt hwn, roedd angen gweithredu mwy targedig:

> Rydym yn mynychu digwyddiadau fel Blachder Gogledd Cymru, mae gynnon ni dimau cyswllt ysgolion ac rydan ni’n mynd ag arddangosfa o gwmpas sy’n annog pobl i deimlo’n hyderus yn yr heddlu, mae ‘na bocedi o waith ar y gweill drwy’r adeg
> … Dwi’n meddwl mai dim ar lefel strategol mae angen y gwaith ond yn hytrach mwy ar y lefel un i un pan fydd swyddog yn dod i

> gysylltiad â rhywun...mae'n bwysig bod pob dioddefwr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu trin yn deg (SP 26)

Er bod 'cyfiawnder' i rai darparwyr gwasanaeth yn golygu euogfarn yn y llys, roedd eraill yn awgrymu bod ymateb yr heddlu 'ar y llawr' yn fwy canolog i deimladau dioddefwyr bod cyfiawnder wedi'i wneud na chanlyniadau unrhyw achos troseddol

> Y peth pwysicaf dwi'n meddwl yw bod dioddefwr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu coelio ac nid eu beio gan yr heddlu am y sefyllfa maen nhw ynddi. Dydyn nhw ddim yn dwp ac mae'r rhan fwyaf o ferched da' ni'n delio efo nhw yn deall y system yn iawn a pha mor anodd ydy hi pan mai dim ond gair un person yn erbyn y llall sydd gynnoch chi – ond mae'n bwysig eu bod nhw'n cael eu trin fel dioddefwyr..rhywbeth sy'n ei gwneud hi'n haws ymdopi (SP 2)

Ar y cyfan roedd darparwyr gwasanaeth yn gadarnhaol ynghylch ymateb yr heddlu i gamdriniaeth ddomestig. Roeddent yn gweld bod Heddlu Gogledd Cymru, fel llawer o heddluoedd eraill, wedi dod ymhell iawn ers yr hyn y galwodd un ymatebydd yn 'agwedd Life on Mars'.

> Da chi yn cael rhai swyddogion hŷn sy'n methu newid eu hagweddau, ond mewn gwirionedd mae pethau wedi gwella lot...mae'r swyddogion mwy newydd yn deall materion dioddefwyr yn llawer gwell (SP 13)

Dywedwyd bod IDVAs yn hollbwysig yn y broses o gael cyfiawnder i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Roedd hyn nid yn unig oherwydd eu gallu i roi gwybod i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig beth oedd yn digwydd gyda'u hachosion ond hefyd oherwydd eu gallu i egluro'r broses i'r dioddefwr a'u helpu i wneud penderfyniadau. Er bod pwyslais yn cael ei roi ar eu hannibyniaeth ar y system Cyfiawnder Troseddol, ystyriwyd bod IDVAs yn rhoi wyneb dynol i'r system

> Mewn gwirionedd yr IDVA ydy cynrychiolydd personol y dioddefwr – mae gan y troseddwr ei gyfreithiwr, mae gan y Goron GEG, ond fyddai gan y dioddefwr ddim byd heb yr IDVA (SP 17)

> Maen nhw'n gallu egluro pethau i'r dioddefwyr ac ysgogi trafodaethau dwyffordd, bob hyn a hyn rydym yn penderfynu cyhoeddi gŵys tyst yn erbyn dioddefwr ond rydym bob amser yn trafod hynny gyda'r IDVA er mwyn iddi hi allu egluro pam bod hyn wedi digwydd. Yn aml iawn mae dioddefwyr ofn ac ar ôl siarad am bethau gyda'r IDVA maen nhw'n hapus bod hynny'n digwydd gan y gallan nhw ddweud wedyn - doedd gen i ddim dewis ond mynd i'r llys - roedd rhaid i mi fynd (SP 3)

Roedd darparwyr gwasanaeth yn deall bod asesiadau dioddefwyr o sut y cawsant eu trin ac a gafwyd cyfiawnder yn amrywio yn dibynnu ar eu triniaeth – a gawsant ryw fath o sylw 'personol' neu a gawsant eu trin yn fiwrocrataidd ac yn weinyddol. Felly mewn achosion ble byddai IDVA neu unigolyn arall wedi bod yn ymwneud â'r

dioddefwr ers cryn amser, y disgwyliad yw y byddai'r dioddefwr yn teimlo eu bod wedi cael triniaeth deg:

Stori Michael (Rhan 1)

Pan oeddwn i rhwng 11 ac 16 oed ro' ni'n cael fy ymosod arnaf y rhywiol gan fachgen hŷn .....nes i ddim riportio'r peth yn syth... mi ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl ac mae wedi bod yn gyfrinach dw'i wedi'i chadw, nes i ddim deud wrth neb am fy mod i ofn. Wedyn mi benderfynais wynebu'r peth am fy mod wedi bod i mewn ac allan o drwbwl y rhan fwyaf o fy mywyd. Do' ni ddim yn disgwyl i ddim byd ddigwydd i ddechrau, ro' ni jyst angen dweud wrth rywun ac wedyn ro' ni'n teimlo cymaint o ryddhad - roedd cadw'r peth yn gyfrinach mor anodd. Unwaith y gwnes i'r penderfyniad i ddweud, es i at yr heddlu ac mi ddywedon nhw beth fyddai'n digwydd a sut y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal. Mi ges i fy mriffio ac roedden nhw'n wych - Tîm Amethyst oedd yn delio efo fi.

Dilynodd ymchwiliad yr heddlu wedyn a chefais wybod beth fyddai'n digwydd. Doedd gen i ddim disgwyliadau afrealistig, ro' ni isio cael y peth allan a chael y trawma o'r ffordd fwy na dim byd

Dw i wedi cael fy nhrin yn dda ac allwn i ddim fod wedi cael mwy o gefnogaeth - mi ddylwn i fod wedi gwneud hyn pan o ni'n 15 taswn i'n gwybod yr adeg hynny be' dwi'n wybod rŵan - gwybod bod cystal cefnogaeth ar gael - ond ella nad oedd na ddim yr adeg hynny.

Mae dioddefwyr angen cefnogaeth a chael siarad efo rhywun sydd ag empathi â nhw a'u sefyllfa, a fwy na dim byd maen nhw angen teimlo bod pobl yn eu coelio.

6.2.3 Gwneud synnwyr o'r profiad

Mewn perthynas ag oedolion, dywedodd darparwyr gwasanaethau bod bylchau mewn darpariaeth berthnasol i fentrau cyfiawnder adferol. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystro rhai dioddefwyr rhag cael ymyriadau a allent eu cynorthwyo i wneud synnwyr o bethau a dod i deimlo bod cyfiawnder wedi'i wneud

> Os ydy o'n fater cyfiawnder yr ifanc yna bydd 'na bethau adferol yn digwydd drwy'r adeg gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid, ond efo oedolion does 'na ddim llawer o gwbl, a weithiau os ydy o'n rhywbeth lefel isel, dyna sydd ei angen. Dwi'n meddwl bod yr heddlu lleol yn gwneud llawer o hyn yn y cefndir fel petai, ond does 'na ddim byd ffurfiol hyd y gwela' i (SP 28)

Nid oedd ymdriniaethau adferol yn cael eu cymeradwyo gan ddarparwyr gwasanaeth ar gyfer troseddau'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig neu gamdriniaeth rywiol ond ystyriwyd nad oedd digon o ystyriaeth yn cael eu rhoi iddynt fel mecanweithiau ar gyfer delio â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel is:

> Mae 'na fwlch arall gyda chyfiawnder adferol lle mae'r dystiolaeth yn

> dangos y gall hyn ddigwydd a bod dioddefwyr yn ei werthfawrogi – mae pocedi o waith yn digwydd ond nid ym mhob man (SP 25)

Wedi dweud hynny, dywedodd yr un cynrychiolydd yr heddlu wrthym am eu cysylltiad cynyddol mewn gwaith Cynadledda Adferol fel rhan o waith Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM):

> Yn ddiweddar rydym wedi dechrau cymryd rhan flaenllaw mewn cynadleddau cyfiawnder adferol...rydym yn hyfforddi gyda phartneriaid megis y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth prawf ac mae'r CHTh yn rhan o hyn ac yn cyfrannu arian tuag ato (SP 25)

Dangosodd ein hadolygiad bod amrywiaeth o wasanaethau cefnogi/gwneud synnwyr yn bodoli ar gyfer dioddefwyr trosedd. Yn y mwyafrif helaeth o achosion roedd yr ymdriniaeth yn eithaf 'ysgafn' h.y. Cymorth i Ddioddefwyr yn cysylltu â dioddefwyr troseddau craidd naill ai dros y ffôn neu drwy'r post i holi ynghylch eu hanghenion ac i drafod unrhyw broblemau. Mewn rhai achosion byddai'r sgwrs honno wyneb yn wyneb gyda gwirfoddolwr Cymorth i Ddioddefwyr lleol.

Mae'r rhan fwyaf o'r asiantaethau a chyrff yng ngogledd Cymru sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn gysylltiedig â'r sefydliad ymbarél 'Cymorth i Ferched Cymru'. Fel y mae eu gwefan yn nodi 'Mae Cymorth i Ferched Cymru am i gamdriniaeth ddomestig gael ei gydnabod fel mater seiliedig ar ryw' ond mae rhai cyrff yn rhoi cymorth i ddynion yn ogystal â merched. Mae IDVAs yn rhoi gwasanaeth i ddynion a merched ond dywedwyd bod gallu IDVA neu unrhyw asiantaeth arall i atgyfeirio dyn am ragor o gefnogaeth gan gorff cysylltiedig â Chymorth i Ferched Cymru yn dibynnu ar y safiad lleol tuag at 'ryw'. Mae rhai asiantaethau yng ngogledd Cymru wedi newid eu cyfansoddiad i'w caniatáu i ddarparu gwasanaeth niwtral o ran rhyw. Er eu bod yn parhau i fod yn gysylltiedig â Chymorth i Ferched Cymru, nid ydynt yn defnyddio'r 'brandio' hwnnw, gan gyfeirio atynt eu hunain fel 'gwasanaeth camdriniaeth ddomestig'. Fodd bynnag nid yw Cymorth i Ferched Bangor a Wrecsam yn cynnig gwasanaethau ar gyfer dynion. Ym Mangor dywedwyd wrthym:

> Mae'r ffaith nad ydym yn delio â dynion yn cael ei gydnabod fel bwlch ac mae gennym gynllun yn ei le i roi sylw i hyn (SP 20)

Mewn rhai achosion ble cynigir gwasanaeth niwtral o ran rhyw, roedd darparu gwasanaethau ar gyfer dynion yn parhau i beri problemau oherwydd bod tueddiad i gamdriniaeth ddomestig a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yn y cyswllt hwn gael eu gweld fel materion 'un rhyw':

> Dwi'n meddwl bod Cymorth i Ferched yn frand y mae pobl yn eithaf cyfarwydd ag o ond un o'r problemau yw ei fod yn frand sy'n gallu rhoi pobl i ffwrdd oherwydd eu bod yn meddwl ein bod ni i gyd yn casáu dynion ac yn gorfodi merched i adael eu partneriaid, ond nid dyna 'da ni'n wneud o gwbl. Dwi'n meddwl bod y neges braidd yn araf yn mynd allan, fel y mae'r neges ein bod ni yma i roi gwasanaeth i ddynion hefyd (SP 4).

Er hynny, mae camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn cael eu gweld gan ddarparwyr gwasanaethau fel pethau sy'n cael eu cyflawni gan ddynion ac yn cael profi gan ferched yn bennaf. O ganlyniad i hyn roedd gwasanaethau cymesur yn hytrach na chyfartal ar gyfer dynion yn dueddol o gael eu ffafrio gan wasanaethau sy'n darparu ar gyfer dynion a merched:

> 'Da ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig cynnig gwasanaeth i ddynion ond does 'na ddim gymaint o alw amdano ag sydd i ferched, 'da ni wedi cael tri dyn yn y flwyddyn ddiwethaf a 'dwi'n meddwl ein bod ni wedi helpu, ond fyddai o ddim yn ddefnydd da o'n hadnoddau ni i gyflogi gweithiwr gwrywaidd arbenigol na chadw gwely gwag mewn hostel, dydy'r galw ddim yno (SP 8)

Disgrifiwyd grwpiau cwnsela a chefnogi sy'n cynnig 'clust i wrando' fel sylfaen gwasanaethau cefnogi dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Ffafriwyd grwpiau cefnogi oherwydd yr ystyriwyd eu bod yn cynnig cefnogaeth gymdeithasol bwysig ac yn helpu pobl i fod yn llai ynysig. Yn ychwanegol awgrymwyd y gallai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, drwy rannu eu profiadau, adennill synnwyr o werth a hyder ynddynt eu hunain drwy eu helpu i symud ymlaen.

Cyfeiriodd rhai darparwyr at fodolaeth rhaglen gwaith grŵp mwy ffurfiol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'r Rhaglen Rhyddid wedi ennill blaenoriaeth yn y sector trais domestig yn ddiweddar 'fel y rhaglen o ddewis' ar gyfer cefnogi dioddefwyr trais domestig a'u helpu i drawsnewid o fod yn ddioddefwr i fod yn oroeswr. Cyflwynir y Rhaglen Rhyddid dros ddeuddeng wythnos mewn cyd-destun grŵp, gan godi ymwybyddiaeth o drais domestig, cefnogi a rhoi grym i ferched, eu helpu nhw i adnabod gwerthoedd a chredoau eu partneriaid gormesol a sut yr oedd y rhain yn effeithio arnyn nhw eu hunain a'u plant. Mae'r rhaglen ar gyfer merched yn unig ar hyn o bryd ac fe'i cyflwynir gan hwyluswr sy'n helpu i arwain trafodaethau am y gwahanol fathau o ymddygiadau treisgar y mae unigolion gormesol yn eu dangos.

Nid ystyriwyd bod cymaint o wasanaethau cefnogi 'gwneud synnwyr' ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol ag sydd ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig - roedd gwirfoddolwyr sy'n gweithio o'r RASA yng Nghaernarfon a Stepping Stones yn Wrecsam fodd bynnag yn darparu rhai gwasanaethau cefnogi/clust i wrando ac meddai un darparwr gwasanaeth wrthym ynglŷn â'r rhain:

> Mae canolfan gogledd Cymru sydd â dau aelod o staff a chwnsleriaid gwirfoddol yng Nghaernarfon ac uned yn Wrecsam gydag un aelod o staff llawn amser ac un rhan amser, ac mae gynnyn nhw i gyd restrau aros o rhwng chwech a deg mis......yng ngogledd Cymru dydy'r ISVA ddim ond yn gweithio gyda rhywun pan fydd penderfyniad i gyhuddo ac yn y cyfamser does dim byd sylweddol, ac os oes rhywbeth trawmatig wedi digwydd i rywun sydd ddim mewn sefyllfa dda, lle mae trosedd difrifol wedi'i gyflawni (SP 21)

> Does ‘na wir ddim digon ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth rywiol - mae ‘na un ISVA ar gyfer gogledd Cymru i gyd a gyda’r ewyllys gorau, fydd gwasanaeth sydd wedi’i ymestyn mor eang â hynny ddim yn gallu bod yn un ystyrlon iawn (SP 9).

> Efallai y byddan nhw yn gallu mynd i glinig iechyd rhyw... ond o ran cefnogi pob dioddefwr trosedd rhyw, mae ‘na gylch gorchwyl cul iawn, does gynnon ni ddim CISVA a dim cwnsela wedi’i deilwra’n arbennig ar gyfer dioddefwyr ifanc....ond mae angen gwasanaeth o’r fath.... yn ystod tri chwarter olaf y llynedd roedd 248 o droseddau rhyw ble’r oedd y dioddefwr dan 18, mae gynnon ni rywfaint o nawdd ar gyfer CISVA am  12 mis ond dim byd ar ôl hynny (SP 23)

Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod darpariaeth ‘gwneud synnwyr’ ar gyfer dioddefwyr trais neu gamdriniaeth rywiol hanesyddol yn arbennig o wael

> Pe bai rhywbeth yn digwydd heddiw a bod y SARC ar gael iddyn nhw, bydden ni isio iddyn nhw gael gwasanaethau dilynol yn syth, ond dydyn nhw ddim bob amser ar gael.  Hefyd gyda rôl yr Eiriolydd Trais Rhywiol Annibynnol sydd i fod i gefnogi’r dioddefwr yr holl ffordd drwy’r broses, does 'na ddim ond un ar gyfer gogledd Cymru i gyd ac mae hi wedi gweithio efo dros 200 o bobl eleni. (SP 21)

Stori Michelle (Rhan 2)

Cyfeiriodd yr heddlu fi i’r RASA ac o fewn wythnos roeddwn i yno. Dechreuodd y cwnsela'r bore wedyn oherwydd fy mod yn cael fy nhrin fel blaenoriaeth.

Y peth helpodd fi oedd cefnogaeth yr heddlu, y cwnsela a chefnogaeth fy nheulu. Roedd y cwnsela mor dda mae o wedi fy helpu i newid fy mywyd er gwell a hebddo faswn i ddim yma rwan .

Mae’r rhwydwaith o gefnogaeth wedi helpu, heb hwnnw mi fasa chi ar eich pen eich hun a fasa gynnoch chi ddim gobaith.  Y peth sy’n gwneud gwahaniaeth ydi gwybod bod rhaid i chi gymryd y camau cyntaf eich hun, ond os ‘da chi’n gwybod bod y gefnogaeth yno mae’r holl broblemau da chi wedi bod yn eu cadw tu fewn yn tywallt allan.

6.2.4  Teimlad o fod â rheolaeth

Siaradodd y swyddogion heddlu y siaradom â nhw am safonau’r heddlu sy’n dweud pryd a pha mor aml y dylid rhoi diweddariadau i ddioddefwyr ynghylch cynnydd eu hachos.  Fod bynnag dywedasant fod y galwadau arnynt mor drwm fel nad oeddent yn cysylltu â dioddefwyr heblaw pan oedd ganddynt rywbeth i’w adrodd. Dywedodd darparwyr gwasanaethau y gallai diffyg gwybodaeth gan yr heddlu weithiau wneud i’r dioddefwr feddwl nad oes neb yn cofio amdanyn nhw:

> Gall bodlonrwydd â gwasanaeth cwsmer ddisgyn yn ddramatig unwaith y bydd yr achos wedi symud ymlaen – swyddogion heddlu ddim yn dweud wrth ddioddefwyr beth sy’n digwydd gyda’u hachos.

> Er mwyn datrys hyn rydym wedi sefydlu'r fenter ' Project Undivided" lle'r yda ni, ar y cyd â'r heddlu, yn mapio cynnydd 100 o ddioddefwyr ar hyd eu taith er mwyn gweld ym mhle y mae lefelau hyder yn disgyn (SP 14)

Fel y trafodwyd, ystyrir y gall ymgysylltiad IDVA ag achos o gamdriniaeth ddomestig hwyluso cyfathrebiadau gyda dioddefwr. Yn yr un modd, dywedodd nifer o ymatebwyr ar ran darparwyr gwasanaethau y gallai methiannau mewn cyfathrebu a darparu cefnogaeth ddigwydd mewn achosion lle nad yw IDVA yn chwarae rhan:

> Pan mae IDVA yn rhan o achos, mae 'na rywun sydd wrth ganol bob dim, ond pan 'does 'na ddim, 'does 'na ddim rheolaeth achos os liciwch chi - neb yn dod a bob dim at ei gilydd ac yn rhoi gwybod i'r dioddefwr beth sy'n digwydd a gofyn iddi hi beth mae hi'n feddwl neu beth fyddai hi'n licio 'neud (SP 12)

Dywedodd nifer o ymatebwyr ar ran darparwyr y byddai'n anodd gweld, heb IDVA, sut y gallai MARAC sicrhau bod barn y dioddefwr yn cael ei gynrychioli a sut y byddent yn cael gwybod beth oedd y dioddefwr ei eisiau.

Mewn achosion o bob math roedd problemau'n codi o ran rhoi gwybod i ddioddefwyr beth oedd yn digwydd gyda'u hachosion wrth iddynt symud dryw'r broses cyfiawnder troseddol:

> Beth sydd ddim yn gweithio'n dda ydy TG a rhannu gwybodaeth a chanlyniadau'r llys o safbwynt rhoi diweddariadau i ddioddefwyr (SP 16)

Yn benodol, roedd rhoi gwybod i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a aseswyd fel risg canolig/isel beth oedd yn digwydd gyda'u hachos yn dipyn o her:

> Gyda dioddefwyr risg canolig ac isel, 'da ni'n eu cyfeirio nhw ymlaen ond 'da ni ddim yn gwybod oes 'na rywun arall yn ymwneud â nhw neu mewn rhai achosion ddylen ni hyd yn oed geisio rhoi gwybod iddyn nhw beth sy'n digwydd – ydy hi'n beryg eu ffonio nhw ac ati (SP 31)

| Stori Natasha |
| --- |
| Ro' ni chwe mis yn feichiog ar y pryd a mi gawson ni ein deffro am 2am gydag injans tân o amgylch y tŷ... pan edrychais allan i'r cefn, mae 'na goed pinwydd yn yr ardd gefn ac roedden nhw wedi llosgi'n ulw, bron wedi rhoi'r ffens ar dân ..roedd hynna'n bryder mawr i ni.... plentyn yn y tŷ a ddim yn gwybod os byddai'r un peth yn digwydd eto … Dywedodd y gwasanaeth tân wrthon ni y byddai'r heddlu'n dod i'n gweld ni, ond chysylltodd neb efo ni, roedd rhaid i ni gysylltu efo nhw, ddaeth neb rownd i gymryd datganiad na dim byd – doedd gan neb ddiddordeb ynon ni a beth oedd wedi digwydd hyd y gallwn i weld. Cysylltodd fy ngŵr â'r SCCH drwy ebost ac atebodd hi gan ddweud eu bod yn edrych i mewn i'r mater ond roedd rhaid in ni fynd â'r eu hôl nhw drwy'r adeg, hyd yn oed er mwyn cael rhif ar gyfer yr hawliad yswiriant. |

6.2.5 Anghenion Ymarferol

Disgrifiwyd llawer o ddioddefwyr fel bod ag amrywiaeth o anghenion cysylltiedig â'r ffaith eu bod wedi bod yn ddioddefwyr trosedd. Dadleuodd llawer o ddarparwyr gwasanaeth felly bod angen ymateb amlasiantaeth i ddiwallu anghenion dioddefwyr yn llawn.

Cawsom wybod bod nawdd cyfalaf (ond nid refeniw) wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu 'siopau un stop' ar gyfer dioddefwyr trais domestig ar draws gogledd Cymru. Yn aml wedi'u cydleoli mewn eiddo a ddefnyddir gan gyrff cysylltiedig â chymorth i Ddioddefwyr Cymru, cymeradwywyd y ddarpariaeth hon gan ddarparwyr gwasanaethau oherwydd eu bod yn cynnig sawl gwasanaeth dan un to. Mewn un 'siop un stop' yr ymwelwyd â hi yn ystod cynnal yr ymchwil hwn, roedd gwasanaeth 'Cyngor ar Bopeth' ar gael, cyfreithiwr, cynrychiolydd o ofal cymdeithasol a staff o Heddlu Gogledd. Roedd y cynrychiolwyr hyn yn mynychu yn rheolaidd a gellid gwneud apwyntiadau i'w gweld neu gellid galw heibio ar hap

Gwelwyd bod bylchau mewn gwasanaethau yn ymwneud â darpariaeth arbenigol i fynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl lefel is cysylltiedig ag erledigaeth:

> Mae llawer o ferched yn bryderus ac yn dioddef iselder ond does 'na fawr ddim ar gael iddyn nhw oherwydd y system 'haenog' newydd sydd fwy neu lai yn golygu os nad eich problem chi ydy'r waethaf, chewch chi ddim llawer o wasanaeth. Dwi'n meddwl bod 'na fylchau mawr mewn diwallu anghenion iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau dioddefwyr (SP 7)

Aseswyd bod darpariaeth lloches ar gyfer merched yn ddigonol ond mai anaml yr oedd ei angen ar gyfer dynion ac o'r herwydd roedd yn debygol na fyddai ar gael yng ngogledd Cymru. Dywedwyd bod cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar ar Gymorth Cyfreithiol wedi creu anawsterau i rai defnyddwyr gwasanaethau o ran cael cyngor cyfreithiol i'w helpu gyda materion gofal plant a gwaharddebau:

> Un o'r meini prawf ar gyfer cael cymorth cyfreithiol yw MARAC, os da chi'n rhan o un, gallai hynny helpu eich achos, ond os 'na chi ddim, yna yn syml, chewch chi ddim (SP 5)

Stori Tina

> Roedd gen i bob math o broblemau ar ôl i mi adael – dim arian, iselder... mae llawer iawn o'r merched yn fan hyn yn bryderus, yn dioddef o iselder ac efo problemau iechyd meddwl. Ro ni'n yfed, doedd gen i unman i fyw, ro ni'n aros efo ffrindiau..mae'r staff yn fan hyn yn gwneud i chi deimlo'n well, dan lai o bwysau, maen nhw'n eich helpu chi i lenwi ffurflenni ac ati, ac yn trefnu apwyntiadau i chi weld pobl ac maen nhw'n mynd efo chi ... dwi'm yn meddwl bod 'na ddigon o help efo iechyd meddwl....gallwch fynd atyn nhw ond pan da chi'n isel 'd a chi ddim isio .... Pan da chi'n mynd at yr adran dai maen nhw'n cynnig be sy' gynnyn nhw, a'r llefydd yna ydy'r llefydd da chi ddim isio mynd – llefydd drwg efo cyffuriau a throseddu, ond os da chi'm yn derbyn y llefydd, da chi'n cael eich dosbarthu'n ddigartref, a wedyn chewch chi ddim byd [28]

## 6.3. Rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau a diwallu anghenion

6.3.1 Gwledigrwydd

Awgrymodd darparwyr gwasanaethau bod diwallu anghenion dioddefwyr yn gysylltiedig â heriau mewn rhai cyd-destunau. Mewn ardaloedd gwledig awgrymwyd bod anawsterau penodol gyda gweithredu strategaeth dioddefwyr effeithiol. Mewn rhai ardaloedd ystyriwyd bod mynd i'r afael â hyd yn oed yr anghenion diogelwch mwyaf sylfaenol yn broblemus oherwydd, er enghraifft, nad oedd gorsaf heddlu leol neu oherwydd bod amseroedd ymateb yr heddlu yn hirach Mewn rhai ardaloedd gwledig, dywedwyd bod dioddefwyr yn ynysig a'i bod yn anodd eu cysylltu â'r gwasanaethau priodol. Hefyd mewn rhai cymunedau ni fyddai gwasanaethau eiriolaeth a chyngor yn ddatblygedig iawn neu'n anodd cael atynt.

> Os da chi'n byw dywedwch...yn XXX, yna does 'na ddim llawer o ran gwasanaethau - os 'da chi ddim yn gyrru ac efallai bod 'na ddim ond un neu ddau fws y dydd, da chi'n mynd i gael trafferth, a phroblem fawr i ni ydy ei bod hi'n anodd cadw pobl yn ddiogel ac yn ddienw mewn cymunedau bach - allwch chi ddim gyrru bws o amgylch y lle (SP 1)

Cyfeiriodd darparwyr gwasanaethau at yr angen am agwedd fwy rhagweithiol tuag at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig . Ystyriwyd bod hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a dod â'r rhain i'r cymunedau:

> Efallai nad yw'r gwasanaeth cefnogi angenrheidiol yn eich ardal chi felly efallai na fyddwch hyd yn oed yn sylwi bod diffyg gwasanaethau allan yna – achos 'da chi ddim wedi'i weld o – diffyg gwelededd y gwasanaeth sydd ar gael. (SP 30)

[28] Yma, rydym yn cymryd bod yr ymatebydd yn golygu 'yn fwriadol ddigartref'

> Mewn ardaloedd o'r fath mae angen i ddarparwyr fod yn fwy rhagweithiol o ran mynd â gwasanaethau i mewn i'r cymunedau yn hytrach na disgwyl i bobl deithio i ddod o hyd i'r gwasanaethau eu hunain gan eu bod yn annhebygol o wneud hynny os ydyn nhw'n teimlo'n fregus (SP 14)

Mae costau ychwanegol cysylltiedig â theithio ac amser teithio yn rhwystrau y bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau eu goresgyn os ydynt am ddarparu gwasanaeth ystyrlon mewn ardaloedd gwledig:

> Mae'n sicr yn broblem.... mae gynnon ni ddau weithiwr yma...sy'n ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi mewn mannau ble mae'r cysylltiadau cludiant yn wael, gan sicrhau eu bod nhw'n cael gwasanaeth da gynnon ni.....mae'n ardal anodd, da ni'n gweld y rhan fwya' o bobl yn eu cartrefi eu hunain, er ei bod yn ardal adeiledig mewn mannau, mae canolfannau'r boblogaeth wedi'u gwasgaru felly mae llawer o amser yn cael ei dreulio'n teithio i weld pobl a dydy hynny ddim bob amser yn cael ei gynnwys mewn cyfrifiadau ynglŷn ag amser ac arian sy'n cael ei wario (SP 12)

Mewn rhai achosion roedd y costau cysylltiedig yn rhwystr. Wrth gyfeirio at un gwasanaeth yn benodol, dywedodd un ymatebydd:

> Os 'da ni'n cael atgyfeiriad o dde Gwynedd, gorllewin Môn, de Conwy a Sir Ddinbych er enghraifft, yna does gynnon ni ddim capasiti i weithio efo'r bobl yna oni bai eu bod nhw'n gallu teithio (SP 24)

O ystyried y pellter sydd rhwng dioddefwyr sy'n byw mewn cymunedau gwledig a'r gwasanaethau ar eu cyfer sydd ar gael yn bennaf mewn ardaloedd trefol, ystyriwyd bod cydweithio â grwpiau cymunedol yn hanfodol o ran diwallu rhywfaint ar anghenion dioddefwyr mewn ardaloedd gwledig. Soniwyd am y posibilrwydd o ymgysylltu â grwpiau fel ffermwyr ifanc a grwpiau eglwysi i ddarparu cymorth ar gyfer dioddefwyr rhai troseddau. Fodd bynnag ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol dywedwyd bod angen gwasanaethau mwy arbenigol sydd yn anorfod yn golygu y bydd rhaid i staff asiantaethau deithio i ddarparu gwasanaeth:

> Y mwyaf arbenigol yw gwasanaeth, y lleiaf o bobl fydd wedi'u hyfforddi i'w ddarparu – does dim ateb i'r broblem honno... a bydd yn hefyd yn anoddach cynnig y gwasanaeth yn eang – mae cyfrifiadau cost y pen yn aml yn gwahaniaethu yn erbyn y mathau hynny o wasanaethau (SP 22)

Mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr troseddau rhyw, soniwyd yn aml y ffaith mai dim ond un SARC sydd yng ngogledd Cymru a bod hyn yn broblem:

> Mae bylchau daearyddol yn bodoli wrth fod y SARC ym Mae Colwyn ond pe ai angen archwiliad meddygol er enghraifft, mae'n ffordd bell iawn i rai pobl ei deithio (SP 23)

At ei gilydd, dywedwyd bod gwledigrwydd yn gryn her o ran darpariaeth gwasanaeth ac yn golygu bod amrywiad sylweddol yn y gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol yn benodol:

> Mae amser aros cyfartalog yn dibynnu ar yr ardal, lle mae pobl yn byw ac argaeledd cwnsleriaid, felly mae rhai yn cael gwasanaeth ar unwaith ond eraill yn gorfod aros am wythnosau lawer - mae'n dipyn o lotri cod post. Os bydd gan gleientiaid eu cludiant eu hunain neu os ydynt yn gallu fforddio teithio, efallai y byddant yn cael y gwasanaeth yn gynt (SP 24)

Dywedodd Heddlu Gogledd Cymru wrthym fodd bynnag eu bod wrthi'n weithredol yn meddwl sut orau i ymateb i'r broblem o droseddau cefn gwlad a'u bod i'r perwyl hwnnw wedi creu tîm trosedd arbenigol:

> Mae gynnon ni dîm troseddau cefn gwlad (1 rhingyll a 3 PC) ar gais y CHTh sydd yn ymwneud ag ymgysylltu mwy â'r gymuned wledig. Un peth sydd wedi dod allan o hyn yw bod 'na broblem gyda thrais domestig mewn cymuned wledig (SP 30)

### 6.3.2 Gwaharddiad a Phrofiadau o Gamwahaniaethu a Gormes

Nid oedd ymatebwyr ar ran darparwyr gwasanaethau yn gyffredinol yn cefnogi datblygu gwasanaethau arbenigol ar gyfer pob grŵp cleient e.e. gwasanaethau camdriniaeth ddomestig yn benodol ar gyfer defnyddwyr mewn oed neu wasanaethau ar wahân ar gyfer dynion hoyw. Un o'r rhesymau am hyn oedd bod posibilrwydd y byddai ymrwymo i'r fath wasanaethau arbenigol yn arwain at 'dorri'r deisen adnoddau' yn rhy denau. Roedd gwrthwynebiad arall yn canolbwyntio fwy ar gyffredinolrwydd y profiad o fod yn ddioddefwr a allai wneud gwahaniaethau eraill yn llai o broblem. Er enghraifft meddai un ymatebydd :

> Yn (ardal) noddwyd gwasanaeth arbenigol ar gyfer dioddefwyr hŷn ac ar un llaw does gen i ddim problem efo hynny achos mae 'na ddigon o gleientiaid i bawb, ond mae hyn yn awgrymu rywsut bod rhywbeth cwbl wahanol am y grŵp yma a bod ganddyn nhw broblemau allwn ni ddim delio â nhw, sydd ddim yn wir - mae hanner ein llwyth achosion ni dros 50 ac mae'n bosibl bod arian yn cael ei wastraffu ar seilwaith oedd yn ei le yn barod (SP 5)

Nid yw'n syndod efallai bod unigolion sy'n gweithio i asiantaethau sy'n darparu ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol yn llai sicr o allu darparwyr cyffredinol i ddiwallu rhai anghenion. Er bod yr ymatebwyr hyn yn cydnabod bwriadau da darparwyr cyffredinol roeddent yn cwestiynu, yng nghyd-destun diwallu anghenion prif-ffrwd, a fyddai

ymrwymiad i annog defnyddwyr gwasanaethau o grwpiau anodd eu cyrraedd i ddefnyddio gwasanaethau yn cael ei flaenoriaethu:

> Os ‘da chi’n brysur yn rhoi gwasanaeth, yda chi wir yn mynd i roi amser ac egni yn ceisio cysylltu â grŵp anodd ei gyrraedd, pan mae gynnoch chi ddigon o ddefnyddwyr gwasanaeth eich hun yn barod, os ga’i roi o felly? (SP 2)

Awgrymodd llawer o ddarparwyr gwasanaeth eu bod yn cynnig gwasanaeth digonol i ddiwallu anghenion amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth ac eto roeddent yn ymwybodol bod rhai grwpiau ymysg eu cleientiaid wedi'u tangynrychioli. Pan ofynnwyd ynghylch y defnydd a wnaed o wasanaethau gan unigolion LGBT, meddai un ymatebydd:

> Mae’n fwlch pendant ‘da ni wedi dod yn fwy effro iddo - ‘da ni ddim yn troi unrhyw un i ffwrdd - dyna’n polisi ni - ond dim ond un dyn ddaeth ato’ ni'r llynedd a ‘da ni’n gwybod bod ‘na lawer mwy allan yna, felly rywsut neu’i gilydd dy’ nhw ddim yn ystyried ein bod ni yno iddyn nhw, felly mae hynna’n rhywbeth i ni edrych arno.. (SP 3)

Meddai ymatebydd arall

> Mae ‘na faterion penodol, sensitif y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonyn nhw o ran cydraddoldeb sy’n gallu dylanwadu ar sut y bydd rhywun yn cael mynediad at wasanaeth, er enghraifft materion LGBT, ac mae rhai pobl yn teimlo bod yn rhaid dweud yn glir bod gwasanaeth ar gael ac yn briodol ar eu cyfer nhw, a dwi’n meddwl mai hynny sy’n iawn (SP 4)

Ar yr un trywydd, dywedodd ymatebydd arall:

> Yn rhy aml dwi’n meddwl ein bod ni’n teimlo ein bod ni yno i bawb ac felly nad oes angen tynnu sylw at y peth. Ond fwy a mwy ‘da ni wedi dechrau meddwl bod angen gwneud pwynt o ddweud eich bod chi yno i bawb, neu bydd pobl yn meddwl nad yda’ chi ddim, felly ‘da ni wedi dechrau rhoi enfys fach ar ein taflenni i ddangos ein bod ni’n croesawu pobl LGBT (SP 19)

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr ar ran darparwyr gwasanaethau at faterion yn ymwneud â’r iaith Gymraeg ac nad yw dioddefwyr, yn arbennig mewn cyd-destun statudol, yn teimlo’n bod ganddynt hawl i ddewis yr iaith Gymraeg, er enghraifft i roi tystiolaeth mewn llys neu ddatganiadau i’r heddlu.

> Yr her ydy gwrthbrofi’r argraff sydd gan lawer o bobl mai Saesneg yw iaith y system cyfiawnder troseddol a bod gofyn am ddeunydd Cymraeg neu am i achos gael ei glywed yn Gymraeg yn drafferthus (SP 16)

O ran darparu gwasanaethau arbenigol, rhoi sgiliau ychwanegol i’r gweithlu presennol oedd yn cael ei weld gan amlaf fel y ffordd orau o ddiwallu’r angen i ystyried amrywiaeth yn narpariaeth gwasanaethau:

> Da ni i gyd angen ymateb ar lefel ehangach, hynny ydy sylweddoli nad dim ond trais domestig ydy'r broblem, ond bod 'na lawer o faterion eraill sy'n dod ochr yn ochr hynny a bod angen sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael i ymdrin â nhw a chydnabod nad ydy trais domestig yn eistedd ar ei ben ei hun - mewn unrhyw un achos bydd problemau arwyddocaol perthnasol eraill yn bodoli. Dim ond 5% o achosion fydd yn drais domestig yn unig, bydd problemau neu faterion eraill yn gysylltiedig â'r holl achosion eraill, er enghraifft camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl, pobl y mae'n well ganddyn nhw siarad Cymraeg ayyb, ond cyn belled ag y gallwn gyfeirio pobl ymlaen i gael y gwasanaeth cywir, ni ddylai fod unrhyw broblem (SP 10)

Serch hynny, dywedwyd bod diwallu anghenion emosiynol a chefnogi rhai aelodau o grwpiau defnyddwyr DLlE yn her benodol oherwydd y gall eu hanghenion fod yn arbenigol dros ben:

> Gall anghenion penodol godi os bydd dioddefwr camdriniaeth ddomestig yn aelod o grŵp lleiafrifol, ddim yn siarad Saesneg neu'n fewnfudwr i'r DU ac a dweud y gwir does gynno di mo'r seilwaith na'r arbenigedd i ddelio â hynny (SP 5)

Yn y cyd-destun hwn soniwyd bod gwasanaeth a ddarperir gan sefydliad BASWO yn arbennig o werthfawr.

### 6.3.3 Trosolwg Strategol

Er bod Fforymau Camdriniaeth Ddomestig (gweler tudalen 54) yn gyfrifol am gydlynu'r camau gweithredu perthnasol i achosion o gamdriniaeth ddomestig yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol, ni chyfeiriodd ymatebwyr at eu Fforwm lleol oni bai y'i hysgogwyd i wneud hynny, ac roeddent bryd hynny yn awgrymu mai afreolaidd yr oedd y fforymau'n cael eu cynnal ac mai gwan oedd presenoldeb ynddynt. Cyfeiriodd un ymatebydd at fodolaeth Partneriaeth Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol Amlasiantaeth yng ngogledd Cymru, ond roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ansicr pwy oedd â chyfrifoldeb strategol am faterion cysylltiedig ag ymateb i gamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn ardal eu hawdurdod lleol. Pan ofynnwyd iddynt am y mater hwn, meddai un ymatebydd

> Dw i ddim yn meddwl bod 'na neb sy'n gwbl sicr o'r hyn sy'n mynd ymlaen, mae pethau'n digwydd mewn ffordd eithaf anghydlynol (SP 7)

Arweiniodd ein hymholiadau yn y maes hwn ni yn y pen draw at Gydlynwyr Camdriniaeth Ddomestig yn y pedwar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Yn ystod ein cyfweliadau cawsom yr argraff mai nhw yw'r dwylo anweladwy o amgylch nifer o fentrau yn eu hardaloedd lleol a phan ofynnwyd amdanynt dywedodd nifer o

ymatebwyr wrthym eu bod yn gweithio'n galed 'y tu ôl i'r llenni' yn 'gwneud i bethau ddigwydd'. Dywedodd un ymatebydd mai fel a ganlyn fyddai pethau yn absenoldeb y Cydlynwyr

> Fyddai dim llys arbenigol yn ei le, fyddai 'na ddim MARAC, fyddai gynnon ni ddim IDVA – y nhw sydd wedi sefydlu'r pethau yma i gyd, nhw yw'r grym sy'n gyrru'r holl bethau yma, a hebddynt fyddai neb yn gyfrifol am ariannu'r mentrau, nac am berfformiad a rheolaeth y MARAC (SP 12)

Er hyn, soniodd rhai darparwyr gwasanaeth am wasanaethau anstatudol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn codi ar hap, megis clytwaith, gan arwain at ddyblygu rhai gwasanaethau:

> Mae nawdd ariannol ar gael ac mae asiantaethau'n chwilio amdano drwy'r adeg ac yn gwneud achos drosto, ond 'da chi yn meddwl weithiau os oes gan y bobl hynny sy'n noddi'r amrywiol brosiectau drosolwg o beth sydd ar gael. Gofynnir yn aml i ni gefnogi ceisiadau ond y gwir ydy bod 'na ddigon o waith i bawb a'r mwyaf o lefydd sydd yna i gleientiaid fynd, gorau'n byd a dweud y gwir (SP 4)

> Mae 'na heriau cysylltiedig â'r trydydd sector, dyblygu ac ymdriniaeth blwyfol gyda gwahanol asiantaethau'n cystadlu am yr un pot o arian er mwyn darparu'r un math o wasanaethau ac maen nhw'n dueddol o weithio mewn seilos (SP 18)

Disgrifiwyd rhai o'r asiantaethau sy'n cefnogi dioddefwyr fel mentrau lled-fasnachol sy'n awyddus, fel unrhyw fusnes, i ehangu eu cylch dylanwad a'u cyfrifoldebau. Un o sgil effeithiau hyn fodd bynnag yw'r potensial o lai o gydgysylltiad mewn ceisiadau grant:

> Rydym yn canolbwyntio ar ddioddefwyr ond dydw i ddim yn meddwl ei bod hi'n bosibl dweud nad ydan ni ddim mewn cystadleuaeth â'n gilydd – mi ydan ni, mae pob asiantaeth yn meddwl ei bod yn cynnig gwasanaeth da, neu well na un arall felly mae gynnoch chi'r elfen honno o gystadleuaeth....sydd ddim o reidrwydd yn ddrwg i gyd, achos mae'n gallu gyrru pethau ymlaen, ond 'da chi'n aml yn meddwl 'mi fasa ni wedi medru gwneud hynna' neu 'da ni yn gwneud hynna' , pan 'da chi'n clywed am brosiect neu geisiadau ariannol yn mynd ymlaen (SP 1)

## 6.4 Materion Gwerthuso

Roedd deall pwysigrwydd canolbwyntio ar ddeilliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus i'w weld yn gyfyngedig ymysg rhai o'r ymatebwyr. Roedd ymatebwyr yn sicr bod y gwasanaethau yr oeddynt yn eu cynnig yn diwallu anghenion, ond yn canolbwyntio'r bennaf ar y nifer gafodd wasanaeth a materion cysylltiedig â darpariaeth gwasanaeth wrth drafod yr hyn yr oeddent wedi'i wireddu, yn hytrach nag ar fesurau deilliannau 'caletach'. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaeth yn

gwerthuso eu darpariaeth gan gyfeirio at holiaduron ymadael defnyddwyr gwasanaethau, gan ddweud bod anawsterau ariannu yn atal dulliau mwy cadarn o fesur deilliannau.

Er nad oedd data ‘caled’ ar gael, roedd ymatebwyr yn argyhoeddedig o safbwynt y gwerth yr oedd IDVAs ac ISVA gogledd Cymru yn ei ychwanegu o ran sicrhau bod dioddefwyr yn parhau i ymgysylltu â’r system cyfiawnder troseddol. Dywedwyd bod eu presenoldeb yn hollbwysig o ran perswadio dioddefwyr i barhau â’r erlyniad, mynd i’r llys a rhoi tystiolaeth:

> Maen nhw (ISVAs) yn hynod o ddylanwadol o ran cael euogfarnau mewn achosion...os ydyn nhw’n dod a’r dioddefwr i’r llys, mae tebygolrwydd da y ceir ple o euogrwydd... pe gallent gymryd rhagor o achosion byddai gennym gyfradd euogfarnu gwell fyth (SP 16)

> Mae eu cyfraniad yn hollbwysig o ran cael ein dioddefwyr risg uchel i’r llys gan fod y gyfradd athreulio yn dirywio os dydy’r gefnogaeth honno ddim yna (SP 23)

## 6.5 Symud Ymlaen

6.5.1 Materion Capasiti

Yn ôl yr ymatebwyr, ychydig iawn o fylchau sydd yn narpariaeth gwasanaethau yng ngogledd Cymru, ond roeddent yn cyfeirio’n aml at faterion capasiti cysylltiedig â’r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn enwedig mewn perthynas â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Disgrifiwyd IDVAs yn ddieithriad fel bod yn gweithio gyda mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth nag y gallent ymdopi â nhw a’u bod yn gorfod cyfyngu ar eu hymyriadau er mwyn rheoli galw.

> ‘Da ni’n cael mwy o atgyfeiriadau yn y MARAC nag y gallwn ddelio â nhw felly rhai wythnosau efallai y cawn 40 ond allwn ni ddim ond delio ag 20, mae’r un fath i mi, alla’ i ddim ond gweld nifer penodol o bobl ac fel arfer dydy hynny byth yr holl bobl sy’n cael eu hatgyfeirio (SP 3)

Wedi dweud hynny doedd hi ddim bob amser yn glir bod eu gweithgaredd yn canolbwyntio ar eu grwpiau targed (achosion risg uchel) gan greu anawsterau i ddarparwyr gwasanaethau yn is i lawr y gadwyn darparu gwasanaethau:

> Ers sefydlu’r gwasanaeth IDVA newydd yn XXX mae’r holl achosion graddfa uchel a chanolig yn mynd at y gwasanaeth hwnnw, felly ‘da ni wedi colli hynny fel petai, ac mae hynny wedi ei gwneud hi’n anoddach i ni ddangos y lefel o angen i’n noddwyr a rhoi lefel y gefnogaeth yr ydym i fod i’w rhoi i ddefnyddwyr gwasanaeth.

> Dylai'r gwasanaethau hyn eistedd yn gyfforddus ochr yn ochr â'i gilydd gan fod IDVA i fod i ganolbwyntio ar yr achosion risg uchel yn unig, a dylai'r gweithredu uniongyrchol a'r gefnogaeth hirdymor wedyn hidlo i lawr i grwpiau fel ni, ond mae 'na wall yn y system yma ar y funud gan nad ydy hynny'n digwydd. Mae'n frwydr i oroesi ymysg y grwpiau o ran cael nawdd, a rŵan mae 'na elfen o gystadleuaeth (SP 5)

Ac roedd ymatebwyr yn unfrydol parthed y problemau sy'n deillio o'r ffaith nad oes dim ond un ISVA ac un C-ISVA yng ngogledd Cymru:

> Yng ngogledd Cymru dydy hi ddim ond yn gweithio efo rhywun os oes penderfyniad i gyhuddo ac yn y cyfamser does na ddim byd sylweddol, ac os oes rhywbeth trawmatig wedi digwydd a bod rhywun mewn cyflwr gwael, dydy hynny ddim yn beth da (SP 22)

Mewn perthynas ag ymestyn gwasanaethau i ddiwallu'r galw, ystyriwyd bod cael rhagor o wirfoddolwyr yn opsiwn da, ond roedd eu gallu i gynnig cefnogaeth arbenigol yn aml yn cael ei amau:

> Os edrychwn ar gwnsela, er mwyn darparu gwasanaeth gwerth am arian mae'n cael ei ddarparu gan wirfoddolwyr, ond does dim digon ohonyn nhw, ac oherwydd mai gwirfoddolwyr ydyn nhw, maen nhw'n symud ymlaen at bethau eraill, yn aml i waith cyflogedig, ac mae hyn wedi arwain at restrau aros, fel y soniais, o rhwng 6 a 9 mis, a bydd rhai o'r bobl hynny'n dioddef. Efallai y byddant wedi bod yn byw gyda'u profiad yn taflu cysgod drostynt ers 20 mlynedd neu fwy ac yna'n cael digon o hyder i'w riportio, dim ond i gael gwybod bod rhestr aros o chwech i naw mis. Dydy hynny ddim yn dda. (SP 21)

Dywedodd nifer o ymatebwyr bod angen cyfeirio mwy o ddioddefwyr i'r MARAC er gwaethaf y problemau presennol o ran diwallu galw. Mynegwyd pryderon fodd bynnag ynghylch gallu MARACs ac IDVAs i gwrdd â'r galw pe bai mentrau sy'n annog gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i 'ofyn a dweud' ynghylch camdriniaeth ddomestig yn llwyddiannus.

<u>6.5.2 Ansicrwydd Ariannu</u>

Soniodd llawer o ymatebwr at y ffaith bod anawsterau ariannu yn rhoi cyfyngiadau ar ddarpariaeth gwasanaeth:

> Ariannu ydy'r peth mawr a dwi'n meddwl ei fod o'n warthus bod dau o'r gweithiwr yma, sy'n cynnig cefnogaeth mewn argyfwng, yn gorfod cael adnewyddu eu contractau bob blwyddyn, ac mae un ohonyn nhw wedi bod yn gweithio yma ers blynyddoedd! Yn fy achos i fy hun, mae fy nghontract i'n cael ei adnewyddu bob

> blwyddyn, a bydd hynny ar ben cyn bo hir, ac mae o yn gwneud i rywun boeni. Mae'r oriau sy'n cael eu treulio ar hyn yn wastraff arian llwyr ac mae angen datrys y peth (SP 12)

Roedd dau ganlyniad annymunol i'r ansicrwydd cysylltiedig ag ariannu. Yn gyntaf bod cryn amser yn cael ei neilltuo i weithgaredd codi arian ac yn ail bod yr ansicrwydd yn ysgogi staff i geisio gwaith mwy sefydlog rywle arall:

> Gadawodd oherwydd nad oedd sicrwydd yn y rôl, roedd i fod i ddod i ben ddiwedd Medi ond doedden ni dal ddim wedi clywed unrhyw beth erbyn mis Ebrill, felly gadawodd oherwydd ei bod hi angen sefydlogrwydd ac mae hynny'n beth drwg achos mae staff da yn dod o hyd i swyddi eraill yn eithaf hawdd, ac maen nhw'n llwyddo i gael sefydlogrwydd, felly mae'n broblem fawr nad oes unrhyw swyddi 'hirdymor' (SP18)

> Bob blwyddyn 'da ni'n crafu o gwmpas am arian ar gyfer IDVA a dydy o byth yn dod o un ffynhonnell sengl ond yn hytrach ''chydig o fan hyn, 'chydig o fan acw' - 'da ni wrthi'n gyson yn ceisio cynnal gwasanaethau, ond mae cynlluniau noddi yn dod i ben o hyd ac o hyd felly mae rhywun yn ceisio ariannu gwasanaethau fel IDVAs yn gyson (SP 5)

# 7.0 Pennod 7: Casgliadau, Trafodaeth, Cadw Tŷ ac Argymhellion

## 7.1 Casgliadau Allweddol

Casgliadau allweddol yr astudiaeth hon yw:

**Ynglŷn â Throseddu ac Erledigaeth**

1. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'n ymddangos bod y siawns o fod yn ddioddefwr trosedd yng ngogledd Cymru wedi disgyn yn ddramatig. Er hynny, yn ôl arolygon cenedlaethol, bydd un o bob pump yn dioddef trosedd bob blwyddyn.

2. Mae rhai troseddau, oherwydd eu bod yn ymwthiol yn gorfforol neu'n seicolegol, yn cael eu hadnabod yn y llenyddiaeth fel rhai sy'n arbennig o debygol o niweidio'r rhai sy'n eu dioddef. Y troseddau hyn yw troseddau treisgar a throseddau rhyw, troseddau sy'n cael eu cyflawni yn erbyn yr un unigolyn dro ar ôl tro a throseddau yn erbyn y rhai hynny sy'n fregus neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

3. Mae cyfraddau trosedd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol gogledd Cymru. Nid yw'n syndod fod y nifer o ddigwyddiadau a'r tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd yn uwch yn y dwyrain ble mae poblogaethau'n cyd-gasglu a ble mae tlodi ac ymyleiddio cymdeithasol yn dueddol o fod yn fwy cyffredin

**Ynglŷn ag Anghenion Dioddefwyr**

4. Mae darparwyr gwasanaethau'n awgrymu bod 5 peth craidd y mae ar ddioddefwyr troseddau eu hangen : Yr angen i fod yn ddiogel ac i gael eu hamddiffyn rhag erledigaeth yn y dyfodol, yr angen am gyfiawnder, i allu gwneud synnwyr o'u profiad, i deimlo eu bod yn gallu rheoli pethau ac am gefnogaeth ymarferol a allai fod yn gysylltiedig â chymorth i ddelio â materion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, llety neu faterion cyfreithiol neu fewnfudo.

**Ynglŷn â Diwallu Anghenion**

5. Bydd Cymorth i Ddioddefwyr yn cysylltu â dioddefwyr troseddau craidd yng ngogledd Cymru i gynnig gwasanaeth iddynt, fodd bynnag ni chysylltir yn awtomatig â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau heb fod yn rhai craidd er mwyn cynnig gwasanaeth iddynt.

6. O safbwynt yr angen i 'ddiogelu ac amddiffyn rhag niwed yn y dyfodol' mae llwybr clir o ddarpariaeth gwasanaeth yn gysylltiedig â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a asesir fel bod mewn perygl uchel o niwed. Nid yw'r

un llwybr clir yn bodoli ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a asesir fel bod mewn risg canolig neu isel o niwed.

7. Nid oedd ymatebwyr o wasanaeth yr heddlu yn glir sut yr oedd atgyfeiriadau i Cymorth i Ddioddefwyr yn cael eu prosesu, mae hyn yn codi'r posibilrwydd na fydd rhai pobl sydd angen gwasanaethau (ond nad ydynt yn ddioddefwyr troseddau craidd) yn cael eu hatgyfeirio.

8. Mae cymorth i ddioddefwyr yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynllunio diogelwch gyda llawer o ddioddefwyr trosedd. Mae IDVAs yn darparu gwasanaeth tebyg i lawer o ddioddefwyr trosedd a asesir fel bod mewn perygl uchel o niwed.

9. O safbwynt rhai achosion o gamdriniaeth ddomestig y mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ymwneud â nhw, efallai y bydd dioddefwyr sydd mewn risg uchel o niwed yn cael eu cysylltu â nhw yn gyntaf gan Cymorth i Ddioddefwyr a staff yr Uned Diogelu'r Cyhoedd, yr IDVA neu Cymorth i Ferched. Wedi hynny efallai y bydd Uned Gofal Tystion GEG yn cysylltu â nhw. Y mae felly bosibilrwydd o ddyblygu gwaith a diffyg meddwl ar y cyd o ran darpariaeth gwasanaethau i ddioddefwyr o'r fath.

10. Roedd darpariaethau 'caledu targed' ardaloedd awdurdod lleol gogledd Cymru wedi'u sefydlu ac yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn o ran cynllunio diogelwch di-oed.

11. Mewn perthynas â'r angen i deimlo bod 'cyfiawnder yn cael ei wneud', dywedodd darparwyr gwasanaeth bod dioddefwyr angen teimlo bod asiantau'r system cyfiawnder troseddol 'yn eu coelio' pan oeddent yn riportio trosedd ac na fyddent 'yn cael eu beio' am y sefyllfa yr oeddent ynddi.

12. Dywedodd darparwyr gwasanaethau ei bod yn arferol, pan fyddai rhywun yn dioddef trosedd drwy law unigolyn ifanc neu blentyn, i'r Tîm Troseddau Ieuenctid fynd ar ôl opsiynau cyfiawnder adferol. Aseswyd bod diffyg darpariaeth debyg mewn rhai achosion perthnasol yn ymwneud ag oedolion yn fwlch.

13. Mewn perthynas â'r angen i 'wneud synnwyr o'u profiad', roedd Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithredu rhwydwaith o wirfoddolwyr a allent ymweld â dioddefwyr troseddau yn eu cartrefi neu mewn lleoliadau eraill. Gallai IDVAs a chyrff cysylltiedig â Chymorth i Ferched ddarparu gwasanaethau tebyg i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig.

14. Roedd gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol yn gyfyngedig oherwydd mai dim ond un ISVA rhan amser sydd ar gyfer ardal gogledd Cymru i gyd ac mae oedi arwyddocaol o ran cael gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr troseddau o'r fath.

15. Mae gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig ar gael yn eang ond nid ydynt bob amser yn darparu ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.
16. O safbwynt yr angen i 'deimlo fod ganddynt reolaeth', dywedodd yr heddlu wrthym fod protocolau'n bodoli sy'n dweud pryd a pha mor aml y dylid cysylltu â dioddefwyr

trosedd i roi gwybod iddynt beth sy'n digwydd gyda'u hachos. Dywedodd yr heddlu wrthym fod yn dasg hon yn aml yn cael blaenoriaeth isel oni bai bod rhywbeth i'w ddweud wrth y dioddefwr.

17. Mae Uned Gofal Tystion yng ngogledd Cymru sy'n rhoi gwybod i dystion sut mae erlyniadau'n mynd yn eu blaenau drwy'r llysoedd.
18. Roedd ymatebwyr yn teimlo mewn rhai achosion o gamdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol lle nad yw IDVA neu ISVA wedi eu cynnwys, na fyddai'r angen am wybodaeth a chefnogaeth drwy'r broses Cyfiawnder Troseddol yn aml iawn yn cael ei ddiwallu.

19. O safbwynt yr angen i ddiwallu 'anghenion ymarferol' dioddefwyr, deellir bod gan ddioddefwyr rhai troseddau craidd nifer o wahanol anghenion a'u bod felly angen ymateb amlasiantaeth.

20. Sefydlwyd siopau un stop yn y rhan fwyaf o ardaloedd sydd yn galluogi dioddefwyr i gael mynediad at nifer o wasanaethau drwy gyfrwng un pwynt cyswllt unigol.

21. Ystyriwyd bod gwasanaethau lloches/llety wedi'u datblygu'n dda, ynghyd â gwasanaethau estyn allan symudol yn y rhan fwyaf o ardaloedd, er bod darpariaeth ar gyfer dynion weithiau yn gyfyngedig.

22. Tra disgrifiwyd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gyffredinol fel rhai hygyrch, dywedwyd bod gwasanaethau iechyd meddwl yn anodd cael atynt heb oedi hir.

**Ynglŷn â'r rhwystrau o ran diwallu Anghenion Dioddefwyr**

23. Roedd darparwyr gwasanaethau'n ystyried bod heriau penodol yn bodoli o ran darparu gwasanaethau effeithiol mewn ardaloedd gwledig. Roedd yr heriau hyn yn gysylltiedig â chost a hwyluso mynediad cyfrinachol i wasanaethau.

24. O safbwynt camdriniaeth ddomestig, yn gyffredinol roedd darparwyr yn ystyried bod gwasanaethau generig ar gyfer pob dioddefwr yn fwy priodol na chyfres o wasanaethau arbenigol yn targedu defnyddwyr gwasanaethau arbenigol. Er hynny roedd llawer yn dweud bod angen gwneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod y gwasanaethau hyn 'ar agor' i bob defnyddiwr e.e. i ddynion hoyw sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig.

25. Yr eithriad yn hyn o beth oedd rhai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig o gymunedau DELI. Cyfeiriwyd yn aml at y gwasanaethau a ddarperir gan BAWSO fel rhai pwysig oherwydd eu harbenigedd o ran materion mewnfudo a gweithio gyda chymunedau ymfudol .

**Ynglŷn â Gwerthuso Gwasanaethau**

26. Ychydig iawn o sylw a roddwyd i werthuso'n rymus ddeilliannau ymyriadau gyda dioddefwyr

27. Roedd deilliannau ymgysylltiad IDVAs ac ISVAs gyda dioddefwyr troseddau fodd bynnag yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol iawn oedd yn cefnogi erlyniadau llwyddiannus.

**Ynglŷn â'r Dyfodol**

28. Mae Fforymau Camdriniaeth Ddomestig yng ngogledd Cymru yn cael eu cynnal yn afreolaidd ac ychydig iawn sy'n eu mynychu. Am y rheswm hwn mae cydlynwyr Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (DASV) sy'n gweithio ym Mhartneriaethau Diogelwch Cymunedol Gwynedd/Môn, Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn arwain ac yn cadw llygad ar strategaethau camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn eu hardaloedd perthnasol.

29. Roedd ymwybyddiaeth gynyddol o gamdriniaeth ddomestig a'r 'Effaith Coeden Ywen' wedi effeithio ar allu gwasanaethau cyfredol i ddiwallu'r galw. Dywedwyd dro ar ôl tro bod IDVAs ac ISVAs dan ormod o bwysau a'u bod yn gorfod cynnig gwasanaeth cyfyngedig er mwyn rheoli'r galw.

30. Roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i MARACs o asiantaethau cyfiawnder troseddau. Er y bu gwelliannau yn ddiweddar, dywedodd darparwyr gwasanaethau bod rhagor o waith angen ei wneud i annog staff iechyd, camddefnyddio sylweddau a gofal cymdeithasol i wneud atgyfeiriadau priodol.

31. Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau yn byw gydag ansicrwydd cysylltiedig â threfniadau ariannu a oedd yn ei dro yn arwain at broblemau gyda chadw staff ac at neilltuo llawer o amser i godi arian ac yn cwblhau ceisiadau grant.

32. Mae gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yn cael eu hariannu o amrywiaeth o wahanol ffynonellau megis arian lotri, Cefnogi Pobl, Cronfa Trais yn Erbyn Merched, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, grant Cydraddoldebau ac Amrywiaethau. Gan fod penderfyniadau ariannu'n aml yn cael eu gwneud heb gyfeirio'n iawn at amodau lleol, roedd gwasanaethau mewn rhai ardaloedd yn datblygu ar sail ad-hoc.

## 7.2 Trafodaeth

Mae ein hymchwil yn cefnogi ac yn datblygu agweddau ar y llenyddiaeth sy'n bodoli ynghylch anghenion dioddefwyr a sut yr ymatebir iddynt yn ardal Gogledd Cymru. Roedd ymatebwyr yn sôn am lawer i'w gymeradwyo ynghylch gwaith gyda dioddefwyr yn yr ardal. Mae IDVAs ac ISVAs yn arbennig, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr am y cyfraniad y maent yn ei wneud o ran diwallu anghenion dioddefwyr ac mae siopau un stop hefyd yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd y mynediad rhwydd y maent yn ei gynnig i ddioddefwyr at amrywiaeth o wasanaethau

Wedi dweud hynny, mae ein hymchwil yn cadarnhau bod rhai bylchau yn narpariaeth gwasanaethau (ar gyfer dioddefwyr YG a throseddau heb fod yn rhai craidd), bod meysydd ble caiff gwasanaethau eu dyblygu (gyda rhai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig risg uchel), problemau gyda diwallu'r galw (dim digon o

DIVAs ac ISVAs) a bod problemau'n bodoli o ran cydweithio i ddiwallu rhai anghenion ( yn arbennig mewn perthynas â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a asesir fel bod yn rhai risg canolig/isel). Yn ychwanegol mae'n adnabod ansefydlogrwydd a diffyg cydlyniad cysylltiedig â'r trefniadau ariannu sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â rhai gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr.

Mae adolygiad o'n casgliadau yng nghyd-destun y llenyddiaeth sydd eisoes yn bodoli yn dangos yn glir bod arfer da a deilliannau pendant yn gysylltiedig â'r math o reoli anghenion dioddefwyr 'o'r dechrau i'r diwedd' sy'n berthnasol i wasanaethau'r IDVA a'r ISVA. Yn ogystal gwelwyd bod darparwyr gwasanaethau'n gwerthfawrogi ymatebion amlasiantaeth i anghenion dioddefwyr.

Mae'r casgliadau hyn yn awgrymu y dylid edrych ar ddulliau o ymestyn y math hwn o reolaeth 'o'r dechrau i'r diwedd', yn ogystal â'r gwasanaeth amlasiantaeth a gynigir i rai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol i fwy o ddioddefwyr trosedd.

Mae'n ddefnyddiol nodi bod asesiadau o anghenion dioddefwyr o ardaloedd CHTh eraill yn cyfeirio at rai o'r un themâu ag sy'n codi o'r astudiaeth hwn i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr yng ngogledd Cymru. Yn yr ardaloedd hyn mae'r darlun gwell o safbwynt darpariaeth gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn gwrthgyferbynnu â bylchau yn narpariaeth gwasanaethau ar gyfer rhai dioddefwyr, dyblygu gwasanaeth a phroblemau parhaus cysylltiedig â diffyg cydweithio ymarferol. Tra bo rhai ardaloedd CHTh sydd wedi mabwysiadu comisiynu ar gyfer dioddefwyr yn gynnar wedi ymrwymo eu hunain i gynyddu capasiti a gwella arferion o fewn y trefniadau presennol, mae opsiynau mwy radical yn cael eu hystyried mewn ardaloedd eraill. Yn seiliedig ar eu hasesiad o anghenion bydd heddlu Avon a Gwlad yr Haf er enghraifft, o Hydref 2014, yn mabwysiadu ymdriniaeth atgyfeirio dioddefwyr a fydd yn cael ei arwain gan yr heddlu drwy sefydlu 3 canolfan dioddefwyr i ymdrin â phob agwedd ar atgyfeiriadau, o ddioddefwyr troseddau i YG. Fel rhan o'r prosiect hwn mae Avon a Gwlad yr Haf yn bwriadu datblygu gwefan gofal dioddefwyr, teclyn asesu anghenion dioddefwyr cyffredin a phecyn at ddefnydd yr heddlu i gyd ar ofal dioddefwyr a fydd yn cael ei rannu gyda phartneriaid. Mae Heddlu Swydd Caergrawnt hefyd wrthi'n datblygu model atgyfeirio a arweinir gan yr heddlu ac mae Swydd Northampton, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, yn gwahodd tendrau gan sefydliadau i gydlynu a darparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi a gwybodaeth ar gyfer dioddefwyr (a fydd yn cynnwys gwasanaethau presennol Uned Gofal Tystion Heddlu Swydd Northampton gyda chyswllt â'r Gwasanaethau Tystion a gomisiynwyd yn genedlaethol yn y llysoedd ac â'r gwasanaethau cyswllt dioddefwyr a ddarperir gan y Gwasanaeth Prawf a Gwasanaeth Erlyn y Goron). Mae CHTh yn Swydd Caint a Dyfnaint a Chernyw, er nad yn ardaloedd a fabwysiadodd y trefniadau comisiynu yn gynnar, hefyd ar fin creu uned gofal tystion integredig gan ddefnyddio staff yr heddlu, gwirfoddolwyr a VCSEs i reoli atgyfeiriadau. Yng Nghaint bydd darpariaeth leol drwy gyfwng canolfan benodol gyda ffocws ar gydleoli er mwyn cadw gwasanaethau'n lleol ac yn gost effeithiol.

Tueddir i ystyried gwaith partneriaeth cynyddol rhwng sefydliadau fel 'peth da'. Mae'r llenyddiaeth yn disgrifio rhinweddau partneriaethau, sy'n cynnwys cynyddu capasiti a

gallu, rhesymoli adnoddau a lleihau dyblygu ymdrech, llai o ddarniad sefydliadol, gwell cyfathrebu rhwng asiantaethau a gwell dealltwriaeth ac ymatebolrwydd i anghenion.  Prin yw'r sylfaen dystiolaeth bresennol o ran rhagoriaeth gwaith amlasiantaeth, ond byddai ymdriniaeth seiliedig ar ganolfan amlasiantaeth i ymateb i anghenion dioddefwyr yn ddatblygiad sy'n cyd-fynd â'r hyn a ystyrir yn arfer gorau yn y system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd. Mae gwaith amlasiantaeth yn y system cyfiawnder troseddol wedi'i annog a'i wneud yn orfodol drwy nifer o Ddeddfau megis Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, cynlluniau Troseddwyr Di-baid â Blaenoriaeth, Unedau Rheoli Troseddwyr Integredig, sefydliad Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPPA), PDC a threfniadau fel 'MASH' i asesu anghenion diogelu plant ac oedolion y credir eu bod yn agored i gael eu cam-drin. Yn y cyd-destunau hyn, mae gwaith amlasiantaeth wedi  addo gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, dealltwriaeth o rôl y naill a'r llall a llai o ddryswch ac aneffeithiolrwydd yn narpariaeth gwasanaethau.

# 8.0 Atodiad A

## Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer rheoli achosion o gamdriniaeth ddomestig drwy'r System Cyfiawnder Troseddol

1) **CYFLWYNIAD**

1.1 Cwmpas y Cytundeb.

Bydd y cytundeb hwn ar ymdrin ag achosion o Gamdriniaeth Ddomestig mewn grym yn ardal Gogledd Cymru, a wasanaethir gan GEG Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, GLlEM Gogledd Cymru a Phrawf Cymru.

1.2 Nod y Cytundeb

Nod y cytundeb yw gwella'r modd yr ymdrinnir ag achosion o Gamdriniaeth Ddomestig o fewn y System Cyfiawnder Troseddol gan sicrhau fod dioddefwyr a thystion Camdriniaeth Ddomestig yn cael eu cefnogi'n llawn a bod achosion yn cael eu cyfeirio i'r Llysoedd Trais Domestig Arbenigol ble bo'r rhain wedi'u sefydlu.

1.3 I'w roi ar waith ar

I'w drefnu

2) **DIFFINIAD O GAMDRINIAETH DDOMESTIG**

"Unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion sydd, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos, neu rhwng aelodau o deulu, ni waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb".

3) **ADNABOD ACHOSION O GAMDRINIAETH DDOMESTIG**

3.1 Bydd yr Heddlu yn sicrhau bod pob achos o Gamdriniaeth Ddomestig yn cael ei ddynodi'n glir fel achos o'r fath cyn ei gyflwyno i GEG ar MG1. Fe'i hystyrir yn arfer da dechrau'r MG5 drwy adnabod yr achos fel un o Gamdriniaeth Ddomestig.

3.2 Byd GEG, pan dderbynnir y ffeil, yn ysgrifennu 'CDd/DV' ar flaen y ffeil ac yn fflagio'r ffeil ar y System Rheoli Achosion (SRhA)fel Camdriniaeth Ddomestig. Dosberthir pob dioddefwr Camdriniaeth Ddomestig fel 'bregus a dan fygythiad' a bydd hyn hefyd yn cael i nodi ar y SThA.

3.3 Yn yr ymddangosiad cyntaf yn y Llys, bydd Clerc y Llys yn ardystio papurau'r Llys er mwyn dynodi'r achos yn un o Gamdriniaeth Ddomestig a bydd yn gofalu fod y ffurflen fonitro 'Werdd' ynghlwm â holl ffeiliau'r llys.

3.4 Bydd y Gwasanaeth Prawf yn sicrhau bod pob achos o Gamdriniaeth Ddomestig yn cael ei adnabod gan fflagio'r achos ar CRAMS (Computer Case Recording System) fel CDd/DA.

4) **Y DREFN I'W DILYN MEWN ACHOSION O GAMDRINIAETH DDOMESTIG**

Bydd yr Heddlu yn sicrhau bod swyddogion sy'n mynychu'r digwyddiad yn ymwybodol o'r angen i gasglu a chadw'r amrywiaeth ehangaf bosibl o dystiolaeth ac nid dim ond canolbwyntio ar barodrwydd y dioddefwr i wneud cwyn yn unig.

- Dylai swyddogion sy'n mynychu digwyddiad gynnwys yn eu datganiadau:

    1. Gwybodaeth am anafiadau (neu nodi nad oes unrhyw anafiadau) i unrhyw barti yn y lleoliad gan gynnwys y diffynnydd.
    2. Unrhyw arwyddion o sgarmes neu ddifrod yn y lleoliad.
    3. Cyflwr y dioddefwr a'r troseddwr honedig ac unrhyw un arall oedd yn bresennol yn y lleoliad, yn arbennig plant.
    4. Enw unrhyw un oedd yn y lleoliad neu'r cyffiniau a allent fod wedi gweld neu glywed unrhyw beth o werth tystiolaethol i'r ymchwiliad.
    5. Unrhyw ddatganiad llafar a wnaed gan y dioddefwr neu unrhyw dyst arall, boed wedi'u cynnwys mewn datganiadau ysgrifenedig neu ddim, a allai fod yn sail i gais dan adran 114 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (tystiolaeth achlust).

- Ble bosibl dylid tynnu lluniau o anafiadau, difrod neu arwyddion o gynnwrf a dylai'r sawl a'i cymerodd eu harddangos. Os oes tystiolaeth camera pen ar gael, dylai'r sawl oedd yn gweithredu'r offer ei harddangos.

- Dylid cymryd datganiad gan y dioddefwr neu gynnal cyfweliad fideo os mai dyma sy'n briodol, er mwyn cael ffeithiau'r digwyddiad. Mae'n bosibl cymryd Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) ar unwaith fel ychwanegiad at y datganiad cychwynnol, ond os nad yw hyn yn bosibl oherwydd cyflwr corfforol neu emosiynol y dioddefwr, rhaid cymryd y DPD ar y cyfle cynharaf wedi hynny. Ystyrir ei bod yn arfer da ymweld â'r dioddefwr eto er mwyn cymryd DPD arall sy'n dogfennu'r effaith y mae'r digwyddiad wedi ei gael ar y dioddefwr a'u teulu, yn enwedig os bu'n rhaid i unrhyw barti roi tystiolaeth yn y Llys.

- Dylid gofyn am farn y dioddefwr ynghylch cael gorchymyn ataliol a beth ddylai telerau'r gorchymyn hwnnw fod, a dylid cynnwys hyn yn yr MG3 sy'n gofyn am gyngor cyhuddo a dylid cynnwys yr MG3 i gyd, gan gynnwys adran GEG, yn y ffeil. Mae'r arfer da fflagio ar MG6 bod y dioddefwr yn dymuno/nad yw'r dioddefwr yn dymuno gorchymyn gwahardd.

- Dylai swyddogion sy'n mynychu geisio cael ffurflen ganiatâd feddygol wedi'i harwyddo ar y cyfle cynharaf bosibl. Y dull sy'n cael ei ffafrio yw ffurflen ar wahân er mwyn hwyluso gwneud ceisiadau i staff meddygol ond byddai adran o fewn datganiad y dioddefwr yn dderbyniol.

- Dylid cymryd datganiadau gan bobl oedd yn bresennol neu yn y cyffiniau ar y cam cynharaf os yw hynny'n bosibl er mwyn cynorthwyo â chyfweld y diffynnydd.

- Rhaid cadw'r recordiad 999 ac unrhyw dystiolaeth TCC a'u cynnwys ym mhecyn dadleniad yr amddiffyniad a baratoir i ddibenion cyfiawnder syml, cyflym, diannod (SSSJ).

- Os bydd gwiriad PNC yn dangos bod y diffynnydd ar drwydded rhaid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Prawf er mwyn iddynt ystyried anfon y diffynnydd yn ôl i'r carchar.
- Rhaid cadw'r copi tystiolaethol gwreiddiol yn unol â'r gweithdrefnau eiddo wedi'i atafaelu sefydledig.

- Dylai cyfweliadau gyda'r diffynnydd ymwneud â ffeithiau'r trosedd a rhaid ystyried strwythur y cyfweliad gan ragweld sut y bydd y diffynnydd yn amddiffyn ei hun ac ystyried yr angen i archwilio digwyddiadau ac euogfarnau blaenorol am geisiadau 'cymeriad drwg'. Dylid rhoi tystiolaeth ar ffurf recordiadau TCC neu ffotograffau gerbron y diffynnydd.

- Dylai ffeiliau gynnwys manylion am achosion sifil y gorffennol a rhai cyfredol. Os honnir fel rhan o achos yr erlyniad bod gwaharddeb sifil neu orchymyn atodol wedi'u torri ( Ataliol SOPO, CRASBO), rhaid cynnwys copi o'r gorchymyn yn y ffeil.

- Er mwyn hwyluso cais am fesurau arbennig a chyn ceisio cyngor cyhuddo gan GEG, dylid cynnal ymholiadau gyda'r dioddefwyr a thystion er mwyn darganfod a fyddai mesurau arbennig megis sgriniau yn y llys neu roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo yn gwella ansawdd y dystiolaeth y gallent ei rhoi, ac os felly pam.

- Ble bo hynny'n berthnasol dylai'r ffeil gynnwys cyfeiriad at unrhyw gefnogaeth neu atgyfeiriad presennol yn ymwneud â'r dioddefwr megis MARAC, IDVA ayyb.

- Dylai'r swyddog ofyn i'r dioddefwr am fanylion pwynt cyswllt dynodedig y gall unrhyw asiantaeth ei ddefnyddio i gysylltu â nhw yn y dyfodol a dylid rhoi'r manylion hyn ar MG6

4.1 Bydd y Llys :-

- Pan fydd nifer o dreialon wedi'u rhestru, yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i achosion Camdriniaeth Ddomestig.
- Yn ystyried ceisiadau atodol, megis mesurau arbennig, tystiolaeth cymeriad drwg ac achlust, cyn gynted â phosibl ym mhroses y Llys, a gorau oll os gwneir hyn yn y gwrandawiad cyntaf
- Yn sicrhau bod prosesau neu gyfleusterau priodol wedi'u sefydlu er mwyn atal diffynyddion neu unrhyw rai sy'n gysylltiedig â nhw rhag cysylltu â, neu fygwth tystion yn y Llys.
- Yn sicrhau bod dioddefwyr sy'n mynychu'r Llys, boed ar gyfer treial neu beidio, yn cael eu hadnabod ac yn cael y cyfleuster i aros mewn ardal ar wahân.
- Yn blaenoriaethu achosion torri mechnïaeth er mwyn sicrhau y daw'r diffynnydd gerbron y Llys o fewn 24 awr.
- Nodi treialon CDd ar restr y Llys a roddir i GEG er mwyn hwyluso rhestru cyfreithwyr arbenigol CDd GEG mewn treialon.

5) **Adolygiad GEG**

Bydd GEG yn:-

5.1 Sicrhau bod pob erlynydd yn llwyr gyfarwydd â, ac yn cadw at bolisi Trais Domestig GEG, Cod Erlynyddion y Goron a'r Safonau Ansawdd Craidd.

5.2 Wrth wneud penderfyniadau cyn cyhuddo, yn ystyried ceisiadau atodol megis mesurau arbennig a thystiolaeth achlust a chymeriad drwg, gan bennu cynlluniau gweithredu er mwyn galluogi ceisiadau amserol yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Troseddol.

5.3 O'r penderfyniad cyn-cyhuddo a thrwy gydol yr achos, ystyried a yw gorchymyn atal yn briodol, ac os felly cymryd camau i sicrhau bod tystiolaeth ategol ar gael i'r Llys, bod gorchymyn drafft yn cael ei baratoi ac unrhyw gais angenrheidiol yn cael ei wneud.

5.4 Bydd achosion CDd sy'n cael eu herio, sy'n mynd gerbron Llys Ynadon, yn cael eu hadolygu gan yr uned PCPT unit. Bydd achosion CDd sy'n mynd ymlaen i Lys y Goron yn cael eu clustnodi i erlynydd CDd arbenigol.

5.5 Clustnodi erlynyddion Trais Domestig arbenigol i gynnal treialon CDd yn y Llys Ynadon.

5.6 Cysylltu ag IDVAs cyn Llysoedd Trais Domestig Arbenigol yn unol â phrotocolau lleol.

5.7 Ni fydd GEG yn rhoi'r gorau i unrhyw achos heb gyfeirio at arbenigwr Camdriniaeth Ddomestig yn gyntaf.

5.8 Ym mhob achos os bydd amser yn caniatáu, yn ymgynghori â Swyddog yr Achos neu ei oruchwyliwr os yn ystyried rhoi'r gorau i achos, er mwyn cael eu barn cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

6) **MECHNÏAETH**

Bydd yr Heddlu:-

6.1 Os caniateir mechnïaeth gan Ringyll y Ddalfa, bydd yr Heddlu, drwy gyfrwng pwynt cyswllt/rhif unigol, ac fel mater o flaenoriaeth, yn rhoi gwybod i'r dioddefwr ac unrhyw dystion perthnasol am unrhyw amodau a bennwyd, gan roi rhybudd iddynt y bydd y diffynnydd yn cael ei ryddhau, a dylid cofnodi'r wybodaeth hon ar y ffeil.

6.2 Sicrhau, ble bynnag bosibl, bod yr holl wybodaeth y bydd yr Ynad/Barnwr angen ei hystyried yn cael ei rhoi i'r erlynydd yn y ffeil remand, gan gynnwys:-

- Unrhyw achosion o fygwth tystion posibl/sydd wedi digwydd
- Hanes blaenorol y berthynas/digwyddiadau yn y gorffennol.
- Agweddau gwaethygedig e.e. plant yn bresennol, arfau wedi'u defnyddio ayyb
- Barn y dioddefwr am amodau posibl.
- Gwybodaeth lawn am euogfarnau blaenorol, gan nodi unrhyw rai am gamdriniaeth ddomestig ac os torrwyd trwydded YOI
- Achosion sifil cyfredol/yn y gorffennol.
- Unrhyw atgyfeiriadau i MARAC

- Copi o benderfyniad cyhuddo GEG MG3.

6.3 Os ceir cyswllt gan GEG, rhoi gwybod i'r dioddefwr am unrhyw newidiadau i statws remand neu amodau mechnïaeth cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

6.4 Os caniateir mechnïaeth neu os caiff ei amrywio gan Lys y tu allan i oriau busnes yr Uned Gofal Tystion (h.y. 08:30 - 17:00, Llun - Gwener) bydd Erlynydd y Goron yn ceisio cysylltu â'r dioddefwr/tyst yn uniongyrchol o'r Llys i'w diweddaru. Os na cheir ateb ac os nad yw'n bosibl neu ddim yn ddiogel gadael neges iddynt, bydd Erlynydd y Goron yn cysylltu â'r Tîm Cefnogi Gwybodaeth (IST) yn Heddlu Gogledd Cymru sy'n gweithio 24 awr y dydd bob dydd (ffôn 101 neu 0845 607 1002) ac yn rhoi'r wybodaeth a nodir yn 6.6 isod iddynt. Bydd yr IST wedyn yn ceisio cysylltu â'r dioddefwr/tyst i'w diweddaru.

6.5 Os na all staff yr IST gael gafael ar y tyst/dioddefwr byddant yn gwneud cais bod staff Ystafell Reoli'r Heddlu yn gofyn i Swyddog Heddlu fynd i ymweld â'r tyst/dioddefwr yn bersonol i'w diweddaru fel sy'n briodol, a hynny fel Blaenoriaeth Gradd P1.

6.6 Isafswm y wybodaeth y mae'n rhaid i Erlynydd y Goron ei throsglwyddo o'r Llys i HGC y tu allan i oriau busnes yr Uned Gofal Tystion yw:

a) Cyfeirnod unigryw'r ffeil a manylion y swyddog riportio
b) Manylion y dioddefwr h.y. enw, oed, cyfeiriad a rhifau cyswllt os yn hysbys
c) Lleoliad y llys ac amser a dyddiad y penderfyniad mechnïo
d) Manylion y troseddwr h.y. enw, oed, cyfeiriad
e) Amodau'r fechnïaeth, os unrhyw rai, a dyddiad a lleoliad y gwrandawiad nesaf

6.7 Os torrir yr amodau bydd yr heddlu yn arestio ac yn dangos tystiolaeth o'r toriad ac yn ystyried arestio am unrhyw droseddau eraill os yn briodol

6.6 Os ceir cais i amrywio amodau mechnïaeth, bydd yr Heddlu yn ceisio barn y dioddefwr ar y newidiadau arfaethedig ac yn darparu ymateb mewn da bryd ar gyfer y gwrandawiad Llys. Os nad yw hyn yn ymarferol bydd yr Heddlu yn rhoi gwybod i GEG am y rhesymau pam a'r amser sydd ei angen i gwblhau'r ymholiadau angenrheidiol a bydd GEG yn gwneud cais am y lefel briodol o ohiriad.

Bydd y Llys yn:-

6.7 E-bostio i gyfeiriadau cytunedig ganlyniadau unrhyw gais am fechnïaeth neu benderfyniad remand cysylltiedig ag achos Trais Domestig i'r PNC, Unedau Gofal Tystion ac IDVAs cysylltiedig â Llysoedd Trais Domestig Arbenigol cyn gynted â phosibl a beth bynnag o fewn 1 awr. Y tu allan i oriau gwaith arferol bydd Clerc y Llys yn sicrhau bod PNC yn cael ei hysbysu o'r amodau mechnïaeth a bydd yr erlynydd yn cysylltu â'r Heddlu a fydd yn gweithredu yn unol â phwnt 6.3

Bydd GEG yn:-

6.8 Rhoi darpariaethau’r Ddeddf Mechnïaeth mewn perthynas ag achosion o Gamdriniaeth Ddomestig ar waith drwy ystyried unrhyw droseddau treisgar eraill ac edrych yn benodol ar y tebygolrwydd y caiff troseddau eraill eu cyflawni neu y bydd tystion yn cael eu haflonyddu.

6.9 Dylai’r cyfreithiwr sy’n cyhuddo drafod gyda swyddog yr achos a ddylid remandio’r diffynnydd yn y ddalfa ar ôl ei gyhuddo, ystyried safbwynt GEG o ran mechnïaeth a nodi ar yr MG3 a ddylid cyfeirio’r penderfyniad i ganiatáu mechnïaeth i’r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus er mwyn apelio yn ei erbyn.

6.10 Ble bydd dioddefwr yn mynychu’r Llys i dynnu cwyn yn ôl neu i gefnogi cais diffynnydd am amrywiad mewn amodau mechnïaeth, bydd yr erlynydd yn ceisio gohiriad er mwyn cwblhau’r gweithdrefnau a nodir isod.

6.11 Bydd y Llys angen 48 awr o rybudd o unrhyw achos a restrwyd ar gyfer gwneud cais i amrywio mechnïaeth er mwyn ceisio barn y dioddefwr.

6.12 Ble cafwyd cais i amrywio mechnïaeth ond nad oes unrhyw dystiolaeth ar y ffeil mewn perthynas â barn y dioddefwr ynghylch y newidiadau arfaethedig, bydd yr erlynydd yn ceisio gohiriad er mwyn cael y safbwyntiau hynny.

6.13 Sicrhau bod yr holl amodau mechnïaeth yn gryno, yn glir a bod modd eu gorfodi.

6.14 Sicrhau bod toriadau honedig i fechnïaeth yn cael eu herlyn o fewn y cyfyngiad amser boed troseddau pellach wedi’u cyflawni ai peidio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth lawn ynghylch agwedd y diffynnydd tuag at, a’u cydymffurfiad ag amodau’r fechnïaeth yn cael eu nodi yn PNC.

6.15 Yn ystod oriau gwaith, sef 9am i 5pm, bydd blwch post cyffredinol yr Uned Gofal Tystion yn cael ei fonitro ac os ceir hysbysiad gan y Llys o benderfyniad mechnïo, bydd y dioddefwr yn cael gwybod drwy’r dull cyswllt sydd orau ganddynt h.y. Uned Gofal Tystion neu IDVA.

6.16 Y tu allan i oriau swyddfa bydd yr Erlynydd yn cysylltu â’r dioddefwr yn uniongyrchol, os oes manylion cyswllt ar ffeil, i’w hysbysu o ganlyniad unrhyw benderfyniad mechnïo. Os na all wneud hyn am unrhyw reswm bydd yr Erlynydd yn gofyn bod IST Heddlu Gogledd Cymru yn ymgymryd â’r dasg fel mater o flaenoriaeth.

6.17 Mewn perthynas ag achosion Llys y Goron bydd y PO neu’r PA sy’n bresennol yn Llys y Goron pan wneir y penderfyniad mechnïo yn anfon y canlyniad drwy e-bost i flwch post cyffredinol yr Uned Gofal Tystion ac yna bydd y broses yn 6.13 a 6.14 uchod yn dilyn.

Y Gwasanaeth Prawf

6.13 Gall y Gwasanaeth Prawf gwblhau asesiadau mechnïaeth ar gais y Llys. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau ar gyfer y cynllun Gwasanaethau Cefnogi Llety Mechnïaeth (BASS) a’r eiddo cymeradwy.

## 7) **TYNNU CWYN YN ÔL**

Os bydd dioddefwr yn dymuno tynnu cwyn yn ôl, bydd yr Heddlu yn:-

7.1 Cymryd y camau priodol i sicrhau bod y penderfyniad yr unigolyn i dynnu cwyn yn ôl wedi'i wneud o'u gwirfodd ac nas rhoddwyd y tyst dan bwysau i dynnu'r gŵyn yn ôl gan y troseddwr honedig neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ei ran.

7.2 Unwaith yn fodlon bod y dioddefwr yn tynnu'r gwyn yn ôl o'u gwirfodd, cael datganiad adran 9 sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:-

- Eglurhad llawn ar y rheswm dros dynnu'r gŵyn yn ôl.
- A yw'r dioddefwr yn cadw at wirionedd y gŵyn wreiddiol.
- A oedd elfen o orfodaeth (naill ai uniongyrchol neu anuniongyrchol).
- Gyda phwy y maen nhw wedi trafod yr achos
- A oes achos sifil wedi'i roi ar waith.
- A yw'r berthynas yn parhau.
- Effaith mynd ymlaen â, neu roi'r gorau i'r achos ar y dioddefwr neu unrhyw blant yn erbyn eu hewyllys.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

7.3 Dylid wedyn anfon y datganiad hwn ymlaen at GEG gydag MG6 yn cynnwys:-

- Sylwadau'r heddlu ynghylch gwirionedd y rhesymau a roddwyd.
- Unrhyw asesiad o ba mor ofnus yw'r dioddefwr.
- Asesiad risg o ddiogelwch y dioddefwr os am roi'r gorau i/barhau â'r achos yn erbyn dymuniadau'r dioddefwr.
- Unrhyw farn sydd gan yr heddlu ynghylch sut y dylid delio â'r achos.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall e.e. sut y byddai'r dioddefwr efallai yn ymddwyn pe'u gorfodwyd i roi tystiolaeth.
- Unrhyw effaith arall y mae rhoi'r gorau i/parhau â'r achos yn debygol o'i gael e.e. statws mewnfudo.
- Os oes unrhyw blant y mae'r trais yn y cartref wedi effeithio arnynt ac sy'n ddigon aeddfed i'w holi ynghylch eu barn, dylid ystyried trafod y mater gyda nhw

7.4 Gyda'r sensitifrwydd priodol, dylid dweud wrth y dioddefwr na fydd tynnu datganiad yn ôl o reidrwydd yn arwain at ollwng yr achos ac nid yw'n golygu na fydd raid iddynt roi tystiolaeth yn y Llys mewn achosion priodol ble gallai GEG ystyried ei bod er lles y cyhoedd mynd ymlaen â'r achos ac i'r dioddefwr fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

7.5 Pan dderbynnir datganiad tynnu'n ôl bydd GEG yn:-

- Ystyried a oes digon o dystiolaeth i symud ymlaen heb dystiolaeth y dioddefwr ac a yw er lles y cyhoeddi i wneud hynny.
- Os nad oes digon o dystiolaeth heb y dioddefwr ond ei bod yn fater o les y cyhoedd i barhau â'r achos, a ddylid gorfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth neu a oes datganiad dioddefwr y gellid ei gyflwyno dan a116 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.
- Ystyried a ellid sefydlu unrhyw fesurau eraill i ddiogelu'r dioddefwr ar wahân i erlyniad troseddol e.e. cais am orchymyn atal

## 8) PEIDIO Â PHARHAU AG ACHOS

8.1 Rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio â pharhau ag achos Camdriniaeth Ddomestig gael ei wneud gan arbenigwr yn y maes.

8.2 Bydd rhybudd o fwriad i beidio â pharhau ag achos yn cael ei anfon at y Swyddog Riportio yn rhoi'r rhesymau dros y cynnig ac yn gofyn am farn y Swyddog Heddlu os oes digon o amser iddo/iddi wneud hynny. Dylai'r safbwyntiau hyn, ble bynnag bosibl, gynnwys rhai'r Goruchwyliwr neu'r DAC.

8.3 Bydd yr Heddlu yn ymateb mewn modd amserol i rybuddion o fwriad i beidio â pharhau ag achos.

8.4 Bydd GEG yn rhoi gwybod i'r dioddefwr am y penderfyniad i beidio â pharhau ag achos fel yr amlinellir isod.

## 9) GOFAL DIODDEFWYR A THYSTION

9.1 Mesurau arbennig ar gyfer tystion bregus neu dan fygythiad.

- dylai'r Heddlu adnabod dioddefwyr a thystion mewn achosion priodol a fyddent yn manteisio o gael mesurau arbennig a thrafod gyda'r Cyfreithiwr sy'n cyhuddo pa gamau fyddai'n briodol ar y cam cyhuddo.
- Dylai'r Heddlu a GEG gynnal cyfarfodydd mesurau arbennig cynnar mewn achosion priodol.
- Dylai GEG wneud ceisiadau priodol ac amserol am fesurau arbennig yn y Llys Ynadon a Llys y Goron.

9.2 Ble bydd achos yn mynd ymlaen i dreial bydd yr Uned Gofal Tystion yn cynnal Asesiad o Anghenion Dioddefwyr a fydd yn holi ynghylch anghenion tystion, gan gynnwys:-

- Mesurau arbennig
- Cyfyngiadau ar dystion/warcheidwaid yn mynychu'r Llys.
- Yr angen am ddehonglwyr/cymorth i roi tystiolaeth.
- Amgylchiadau domestig sy'n golygu nad oes modd mynychu'r llys ar fyr rybudd.
- Dioddefwyr/tystion sy'n dymuno rhoi tystiolaeth mewn iaith ar wahân i Saesneg.
- Crefydd neu gredoau eraill y mae angen gwneud addasiadau ar eu cyfer.
- Adnabod y pwynt cyswllt unigol a ddewiswyd gan y dioddefwr e.e. Uned Gofal Tystion, IDVA neu DAC.

9.3 Pan gaiff cyhuddiad ei ollwng neu ei newid bydd GEG yn:-

- Cysylltu â'r dioddefwr gan roi rhesymau dros y penderfyniad o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad.
- Drafftio unrhyw lythyrau yn unol â'r protocol Cyfathrebiadau Uniongyrchol â Dioddefwyr gan gofio am y posibilrwydd y gallai'r diffynnydd eu gweld.

- Tawelu meddwl y dioddefwr yn y llythyr nad yw tynnu cwyn yn ôl yn golygu na chânt riportio unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol a rhoi manylion cyswllt grwpiau cymorth lleol iddynt.
- Gofyn i'r heddlu, mewn achosion priodol, gyflwyno'r llythyrau yn bersonol.
- Mewn achosion priodol trefnu cyfarfod rhwng y dioddefwr a'r cyfreithiwr sy'n adolygu'r achos i egluro ymhellach y rhesymau dros y penderfyniad.

9.4 Dylai pob dioddefwyr camdriniaeth ddomestig gael cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr.

## 10) DEDFRYDU

10.1 Bydd GEG yn:-

- Rhoi gwybod i'r amddiffyniad a'r Llys, ar y cyfle cynharaf bosibl, y bydd cais am orchymyn atal yn cael ei wneud tra bydd yr achos ar y gweill.
- Drafftio gorchymyn yn barod ar gyfer y gwrandawiad dedfrydu.
- **Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cael pecyn gwybodaeth llawn a manwl.**

10.2 Y Gwasanaeth Prawf:-

Bydd Staff Dyletswydd Llysoedd y Gwasanaeth Prawf yn cwblhau Adroddiad Cyn Cyhuddo (ACC) er mwyn fflagio'r achos fel un 'CDd' a chofnodi holl fanylion y dioddefwr. Mewn achosion Llys y Goron bydd ffurflen Gweithiwr Diogelwch Merched yn cael ei llenwi. Bydd y Gwasanaeth Prawf y cwblhau Adroddiad Cyd Gwarediad o fewn 15 diwrnod gwaith yn y rhan fwyaf o achosion ac yn ystyried cwblhau Adroddiad Cyn Dedfrydu o fewn 5 diwrnod ar achosion cysylltiedig â CDd, ble credir bod hyn yn briodol.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cwblhau asesiad risg gan ystyried yr holl ddogfennau canlynol:

- Dogfennaeth GEG – datganiad dioddefwr, datganiadau tystion, sail y ble (os unrhyw un), tystiolaeth ffotograffig.
- Nodiadau MARAC
- Cofnodion Cymorth i Ferched
- Cefnogaeth i Ddioddefwyr
- Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig (SSO)
- Gwybodaeth alw allan flaenorol
- Gwybodaeth yr Heddlu
- IDVA
- Euogfarnau blaenorol

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cynnal un cyfweliad Adroddiad Cyn Cyhuddo gyda'r troseddwr heb fod y dioddefwr yn bresennol.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cynnig yr opsiwn dedfrydu mwyaf addas ac effeithiol er mwyn lleihau'r risg o aildroseddu a niwed difrifol i'r dioddefwr. Prif bwrpas dedfrydu'r Gwasanaeth Prawf fydd diogelu dioddefwyr a bydd adferiad y troseddwr yn bwysig ond yn eilaidd.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn gwneud defnydd o Ofynion Amddiffynnol megis y gofyniad Gweithgaredd Gwaharddedig/gwaharddiad.

Ni fydd y Gwasanaeth Prawf yn pennu gofyniad cyrffyw os yw'r troseddwr yn byw neu'n dychwelyd i fyw gyda'r dioddefwr neu bartner arall.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cyfeirio at Eiddo Cymeradwy ar y cam ACC, fodd bynnag byddai cyfnod o asesiad mechnïaeth yn angenrheidiol.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn asesu addasrwydd ym mhob achos CDd ar gyfer y Rhaglen Camdriniaeth Ddomestig Achrededig (IDAP) neu raglen heb ei achredu; caring Dads, Choose to Change neu weithgaredd CDd penodol.

Gorfodi Gorchmynion Llys.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cwblhau asesiad risg a chynllun dedfrydu o fewn pum diwrnod (risg uchel) neu bymtheg diwrnod (risg canolig-isel) o ddedfrydu'r troseddwr.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn sicrhau bod gweithdrefnau dedfrydu cadarn, gan ddilyn safonau Cenedlaethol, yn cael eu rhoi ar waith mewn achosion CDd. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn ymdrin ag achosion o dorri amodau dim hwyrach na'r ail fethiant annerbyniol i gydymffurfio ac o fewn deng niwrnod gwaith o'r absenoldeb annerbyniol. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn ystyried gwneud defnydd o doriadau Trywydd Cyflym mewn achosion perthnasol.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn dilyn prosesau atgyfeiro lleol cytunedig ar gyfer MARAC CDd. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn casglu holl gudd-wybodaeth a gwybodaeth galw allan yr heddlu ac yn trafod yr achos yn llawn gyda phartneriaid MARAC.

Bydd yn gorfodi mewn perthynas â'r troseddwyr hynny sy'n destun amodau trwydded.

- Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cwblhau Asesiad Cyn-Rhyddhau, dri mis cyn rhyddhau, mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r dioddefwyr er mwyn llunio Cynlluniau Rheoli Risg. Mewn perthynas â throseddwyr a ystyrir mewn risg uchel o niwed bydd atgyfeirio i MAPPA 3 mis cyn rhyddhau yn cael ei ystyried a bydd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i MARAC camdriniaeth ddomestig ble bo hynny'n briodol.

- Bydd y Gwasanaeth Prawf yn dilyn canllawiau mewn perthynas â gweithio gyda'r Uned Cyswllt Dioddefwyr mewn unrhyw achos ble rhoddwyd dedfryd o 12 mis neu fwy am ymosodiad domestig a bydd adroddiad y dioddefwr yn cael ei ystyried wrth gynnig amodau trwydded.

- Bydd Amodau Trwydded Ychwanegol yn cynnwys Gofynion Amddiffynnol fel sy'n briodol. Bydd amod trwydded *'i roi gwybod i'ch swyddog goruchwylio am unrhyw berthnasau personol sy'n datblygu gyda merched'* yn cael ei gynnwys

- Dylid ystyried bod y gofyniad i breswylio mewn Eiddo Cymeradwy yn orfodol ar gyfer unrhyw un sydd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig sy'n dymuno mynd yn ôl at y dioddefwr i fyw.

10.3 Bydd y Llys yn:-

- Sicrhau bod ynadon yn cael eu cynghori i ddilyn y canllawiau dedfrydu mewn achosion camdriniaeth ddomestig, ac os ydynt yn gwyro oddi wrth y canllawiau hynny, eu bod yn cyhoeddi'r rhesymau pam ac yn cofnodi'r rheiny yn ffeil y llys .
- Sicrhau bod sail pleon ysgrifenedig yn cael eu cadw ar ffeil y Llys er gwybodaeth bellach a'u hychwanegu at unrhyw becyn a roddir i'r Gwasanaeth Prawf.
- Sicrhau bod ffeiliau'n cael eu hardystio'n llawn mewn perthynas ag unrhyw orchmynion a bennir ac amodau'r gorchmynion hynny.
- Rhoi i'r diffynnydd gopi o unrhyw orchymyn atal ac anfon copi drwy e-bost i'r UGT i'w rhoi i'r dioddefwr.
- Pan dderbynnir unrhyw gais i amrywio unrhyw ddarpariaethau dedfrydu mewn perthynas ag achos camdriniaeth ddomestig, rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Prawf a GEG er mwyn i'r asiantaethau hynny ar lefel DCP/Swyddog Dyletswydd y Llys gasglu'r wybodaeth berthnasol ac yn arbennig barn y dioddefwr er mwyn cynorthwyo'r Llys wrth iddo ystyried y cais.